



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Diogelwch Carchardai a'u Diwygio

Tachwedd 2016



Diogelwch Carchardai a'u Diwygio

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch ebost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn PrisonSafetyandReform@justice.gsi.gov.uk

Print ISBN 9781474138352

Gwe ISBN 9781474138369

ID 2843418 11/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair	3
Pennod 1 Rhagarweiniad	5
Pennod 2: Y fframwaith cywir ar gyfer gwella	14
Pennod 3: Codi safonau	21
Pennod 4: Grymuso llywodraethwyr	28
Pennod 5: Carchardai sy'n sicrhau diogelwch pobl a'r system	44
Pennod 6: Datblygu ein harweinwyr a'n staff	59
Pennod 7: Adeiladu'r ystâd iawn ar gyfer diwygio	65

Rhagair



Yn 1819, dychwelodd y diwygiwr cymdeithasol Elizabeth Fry ar ôl ymweld â charchardai treisgar ac aflan Cymru a Lloegr a'u galw'n feithrinfeydd troseddau.

“The better the actual state of our prisons is known and understood,” ysgrifennodd, “the more clearly will all men see the necessity of these arrangements by which they may be rendered schools of industry and virtue”.

Mae geiriau'r diwygiwr mawr yn adleisio drwy'r cenedlaethau ac yn anffodus, nid ydynt ond yn rhy berthnasol o hyd heddiw.

Ychydig ohonom fydd yn gweld beth sy'n digwydd y tu ôl i furiau tal ein carchardai. Efallai fod y troseddwr sydd ar y tu mewn yn gwneud dim mwy na chyfri'r oriau neu efallai eu bod yn gweithio'n galed i drawsnewid eu bywydau. Er nad ydym yn gwybod, fe ddylem ni i gyd boeni. Gydag ambell eithriad, un diwrnod, bydd pawb sy'n treulio amser yn un o garchardai Ei Mawrhydi'n dychwelyd i'n cymuned. Ond bydd bron hanner yr holl garcharorion yn mynd yn eu blaen i droseddu eto o fewn blwyddyn. Mae drws troi troseddu a'r carchar yn costio £15 biliwn y flwyddyn i'r gymdeithas. Nid yw carchardai'n gweithio.

Onid awn i'r afael â lefel y trais sy'n digwydd ar hyn o bryd a diogelwch yn ein carchardai ni allwn fyth lwyddo i fynd i'r afael â phroblem aildroseddu. Dyna pam rwy'n benderfynol o sicrhau bod carchardai'n gweithio.

Mae hyn yn gofyn am newid enfawr yn niwylliant a strwythur ein carchardai - trawsnewid warysau troseddwr yn ganolfannau diwygio disgybledig a phwrpasol lle bydd pob carcharor yn cael ail gyfle i fyw bywyd da.

Bydd y newid yn cael ei dywys gan lywodraethwyr drwy eu rhoi yn y canol a thrwy roi mwy o reolaeth iddynt arloesi a newid y pethau iawn er mwyn diwygio carcharorion, boed hynny'n ddarparu cwrs addysg arbenigol ynteu'n llwybr at wasanaethau cymorth.


Ond mae angen inni sicrhau bod llywodraethwyr yn cael eu dal yn atebol am gynnydd carcharorion. Byddwn yn cyhoeddi tablau cynghrair i ddangos pa garchardai sydd yn gwella o ddifri o ran sicrhau bod troseddwr yn rhoi'r gorau i gyffuriau ac yn datblygu'r addysg a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn cael gwaith. Bydd hyn yn tynnu sylw at lwyddiant ac yn dangos methiant yn glir.

Yn gefn i lywodraethwyr, bydd staff ein carchardai a fydd yn fwy o lawer na dim ond yn warcheidwaid ac yn warchodwyr. Byddant hefyd yn fentoriaid. Bydd gan staff yr adnoddau, yr awdurdod a'r arfau sydd eu hangen arnynt i chwalu'r rhwystrau rhag diwygio ac i ysgwyddo'r her o drawsnewid bywydau. Ochr yn ochr â mwy o annibyniaeth i'r rheng flaen bydd mwy o dryloywder i'r cyhoedd a'r Senedd.

Diogelwch Carchardai a'u Diwygio

Ers yn rhy hir, nid yw'r gymdeithas wedi gallu gweld dros y muriau tal hynny, a'r canlyniad yw bod baich echrydus ar y trethdalwr a gormod o lawer o fywydau'n deilchion yn sgil troseddu. Dyma lasbrint ar gyfer y trawsnewid mwyaf yn ein carchardai ers cenhedlaeth. Mae'n her y bydd angen amser a phenderfyniad i'w gwireddu ond ni all cymdeithas bellach fforddio anwybyddu'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r muriau tal.

Mae angen inni wneud carchardai'n fannau diogel ar gyfer diwygio.

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Elizabeth Truss'.

Y Gwir Anrh Elizabeth Truss
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Pennod 1 Rhagarweiniad

Pam mae angen diwygio carchardai

1. Dyletswydd gyntaf llywodraeth yw cadw pobl yn ddiogel, ac mae carchardai'n hanfodol er mwyn sicrhau hyn.
2. Bydd carchardai'n amddifadu troseddwr o un o'u hawliau mwyaf sylfaenol - rhyddid - er mwyn cosbi troseddwr a hefyd er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Serch hynny, er mwyn i'r gymdeithas fod yn fwy diogel, rhaid i garchardai fod yn fwy na warysau troseddol, rhaid iddynt fod yn ganolfannau diwygio.
3. Bydd pawb bron y byddwn yn eu rhoi dan glo'n cael ei ryddhau ryw ddiwrnod yn ôl i'n cymunedau. Serch hynny, ar ôl eu rhyddhau, bydd gormod o garcharorion yn mynd yn eu blaen i droseddu eto. Ar hyn o bryd, bydd bron hanner yr holl garcharorion yn cael eu dyfarnu'n euog eto o fewn blwyddyn i'w rhyddhau. Mae tri o bob pedwar troseddwr eisoes wedi cael rhybudd neu wedi'u cael yn euog o drosedd blaenorol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amcangyfrif fod aildroseddu gan gyn-garcharorion yn costio hyd at £15 biliwn y flwyddyn.¹
4. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn rhoi cychwyn ar un o'r diwygiadau mwyaf pellgyrhaeddol yn ein carchardai ers cenedlaeth. Bydd y diwygiadau hyn yn trawsnewid y ffordd y caiff ein carchardai eu rhedeg ac yn rhoi'r sgiliau i garcharorion sydd eu hangen arnynt i ddod i ddinasyddion sy'n parchu'r gyfraith ar ôl cael eu rhyddhau.
5. Mae llawer o waith da'n cael ei wneud yn ein carchardai yn awr i roi'r cymorth a'r sgiliau i droseddwr sydd eu hangen arnynt er mwyn cadw ar y trywydd iawn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Serch hynny, heb y fframwaith cywir i sicrhau mwy o awdurdod ar y rheng flaen, ond hefyd atebolrwydd a thryloywder, diwygiadau fesul tamaid fydd y rhain, a diwygiadau sydd heb eu rhoi ar brawf.
6. Felly, er mwyn creu sylfaen ar gyfer y diwygiadau hanesyddol hyn, byddwn yn cynnwys mewn cyfraith am y tro cyntaf yr hyn y dylai carchardai fod yn ei gyflawni, gan ddal yr Ysgrifennydd Gwladol yn atebol am sicrhau eu bod yn gwneud hynny.
7. Rhoddir mwy o bwerau a mwy o gyfrifoldeb i lywodraethwyr ym mhob carchar am redeg eu carchardai, er mwyn iddynt wneud rhagor i helpu troseddwr i drawsnewid eu bywyd: er enghraifft, drwy eu cael i roi'r gorau i gyffuriau a thrwy roi'r addysg neu'r sgiliau iawn iddynt ar gyfer gwaith. Drwy roi i lywodraethwyr yr awdurdod sydd ei angen arnynt, bydd pŵer go iawn yn cael ei roi yn nwylo'r rhai sy'n gwybod orau beth fydd yn gweithio yn eu carchar.

¹Yn 2010, yn ôl amcangyfrif y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, mae'r rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ac yn troseddu eto'n costio rhwng £9 biliwn ac £13.5 biliwn i'r economi. Mae dadansoddwyr y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi uwchraddio'r ffigur hwn wedyn i hyd at £15 biliwn er mwyn adlewyrchu prisiau 2016.

8. Rhoddir yr amser a'r cyfarpar sydd eu hangen ar staff y rheng flaen i oruchwylio a helpu troseddwr er mwyn iddynt allu troi ein carchardai'n fannau diogel sy'n ganolfannau diwygio.
9. Bydd rhoi'r pŵer yn nwylo'r sawl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn sgubo ymaith y system ganolog bresennol. Er bod gosod polisiau manwl ar y brig wedi bod yn bwysig er mwyn gwella amgylchiadau carchardai, mae hyn wedi mynd yn orfiwrocraidd ac mae'n gallu llethu staff drwy ffigu arloesi a menter.
10. Bydd carchardai'n cael eu barnu nid ar sail safon 'yr un maint i bawb' ond ar set newydd o feini prawf a fydd yn caniatáu i lywodraethwyr benderfynu beth sy'n gweithio orau er mwyn diwygio troseddwr ac a fydd yn mesur eu llwyddiant wrth wneud hynny.
11. Bydd y broses craffu a monitro annibynnol ar arolygiadau o garchardai'n cael ei chryfhau a bydd gwybodaeth am berfformiad carchardai'n cael ei chyhoeddi mewn ffordd glir a thryloyw er mwyn i'r cyhoedd weld pa garchardai sydd ar y blaen o ran diwygio. Bydd fframwaith eglurach ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd os bernir bod carchardai'n methu.
12. Ysbrydolwyd ein cynigion gan y llwyddiant a welwyd wrth gyflwyno diwygiadau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus ym maes addysg ac iechyd, gan ddangos mai staff y rheng flaen sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau newidiadau mawr yn niwylliant y gwasanaeth a ddarperir ganddynt ac i gyflwyno gwelliannau sy'n para. Mae gennym eisoes staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed yn ein carchardai. Mae gweithio mewn carchar yn waith heriol iawn ond mae hefyd yn cynnig llawer o foddhad. Wrth ddiwygio'r carchardai, mae angen i'w gweithwyr proffesiynol fod wrth y llyw.
13. Er mwyn helpu i ymateb i'r gofynion hyn, byddwn yn denu staff newydd o blith ein lluoedd arfog, dynion a menywod y bydd eu synnwyr o ddyletswydd a disgyblaeth yn amhrisiadwy o ran tywys y newid. At hynny, byddwn yn cynnal cynllun recriwtio sydd wedi'i anelu at raddedigion diweddar, gan eu hannog i naddu gyrfa iddynt eu hunain yn y gwasanaeth carchardai. Byddwn hefyd yn lansio rhaglen brentisiaethau newydd er mwyn i bobl ennill a dysgu ar yr un pryd, gan eu denu i faes gwaith sy'n cynnig boddhad ac sy'n chwarae rhan mor hanfodol yn trawsnewid bywydau ac yn amddiffyn y cyhoedd.
14. Bydd ein cynlluniau i gau'r carchardai hynaf sydd yn y cyflwr gwaethaf a buddsoddi £1.3bn mewn cyfleusterau newydd yn gefn i waith y llywodraethwyr. Bydd y carchardai newydd hyn yn cael eu cynllunio gyda diwygio ac adsefydlu mewn golwg.
15. Erbyn 2020, rydym am weld carcharorion sy'n straffaglu i ddarllen, ysgrifennu ac adio pan fyddant yn cyrraedd y carchar yn cael dysgu elfennau sylfaenol mathemateg a Saesneg i'w helpu i ddod o hyd i waith ar ôl iddynt adael. Rydym yn awyddus i weld carcharorion sy'n cyrraedd yn ddibynnol ar gyffuriau yn cael y driniaeth angenrheidiol fel na fydd angen iddynt droseddu i fwydo'u caethiwed ar ôl cael eu rhyddhau.
16. O 2020 ymlaen ac wedi hynny, bydd y buddsoddi hwn mewn diwygio'n sicrhau bod pob carcharor yn bwrw ei ddedfryd mewn system sefydlog a chynhyrchiol. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnwys cynigion a fydd yn sicrhau bod carchardai'n cael eu diwygio'n drwyadl ac yn monitro holl lwyddiannau'r drefn bwrsol newydd a fydd yn deillio o hynny.

17. Drwy wneud hyn, ein nod fydd sicrhau llai o aildroseddu, torri costau i'r gymdeithas ac arbed llawer mwy o bobl rhag y sioc, yr ofn a'r trawma sy'n deillio o ddiodef yn sgil troseddu.

Yr her ar hyn o bryd

18. Ni allwn wireddu'r weledigaeth hon dros nos a dim ond mewn carchardai diogel a disgybledig y gall diwygio ddigwydd. Serch hynny, mae system y carchardai ar hyn o bryd yn ddiffygiol o ran ei chynhaliadaeth ac o dan bwysau difrifol oherwydd bygythiadau i'w diogelwch a'r lefelau cynyddol o drais sy'n rhwystro diwygio.
19. Mae'r cyfraddau trais a hunan-niweidio wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd ymosodiadau ar staff carchardai'n cynyddu 43% cant yn y 12 mis hyd at fis Mehefin eleni, a hunan-niweidio'n cynyddu ychydig dros chwarter. Gwelwyd nifer yr hunanladdiadau'n cynyddu 13% yn y 12 mis hyd at fis Medi eleni.
20. Mae'r carchardai hefyd yn wynebu heriau diogelwch newydd. Yn 2015, canfuwyd bron 17,000 o ffonau symudol a chardiau SIM mewn carchardai - cynnydd o'i gymharu ag ychydig dros 7,000 yn 2013. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y dronau sy'n cael eu defnyddio i hedfan dros waliau'r carchar a gollwng nwyddau gwaharddedig.
21. Mae'r trais cynyddol wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan y llif diweddar o gyffuriau seicoweithredol peryglus i'n carchardai. Yn ôl Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf roedd y sylweddau seicoweithredol hyn yn 'newid y gêm' o ran diogelwch.
22. Er mwyn gosod y sylfeini iawn ar gyfer adeiladu carchardai sy'n ganolfannau diwygio, mae angen inni sicrhau bod pobl yn ein carchardai a'r system ei hun yn fwy diogel er mwyn i'r staff allu sbarduno newid mewn amgylchedd diogel a disgybledig.
23. Rydym eisoes yn gweithio ar gamau newydd i frwydro yn erbyn y cynnydd yn nifer y dronau a'r ffonau symudol yn ein carchardai ac rydym wedi lledaenu profion cyffuriau newydd er mwyn olrhain sylweddau seicoweithredol peryglus. Ond mae angen inni gefnogi hyn drwy gyflwyno ffordd newydd o weithio mewn carchardai i helpu carcharorion i dreulio rhagor o amser ar weithgarwch pwrpasol a llai o amser yn eu celloedd. Bydd swyddogion dynodedig newydd, pob un yn gyfrifol am oruchwylio a chefnogi rhyw chwech o droseddwr yn sicrhau bod carcharorion yn cael yr help sydd ei angen arnynt i roi'r gorau i gyffuriau ac i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i drawsnewid eu bywyd. Byddwn yn buddsoddi er mwyn cryfhau'r rheng flaen drwy ddarparu 2,500 o swyddogion carchar ychwanegol erbyn 2018.
24. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y carchardai y dynion a'r menywod sydd eu hangen arnynt ar y rheng flaen i ddod â diogelwch a disgyblaeth yn ôl i'r adeiniau.

Fframwaith ar gyfer diwygio cyfiawnder troseddol

25. Dim ond dechrau'r diwygio cynhwysfawr yw hyn ym maes llywodraethu'r system cyfiawnder troseddol er mwyn gwella canlyniadau a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel. Gan adeiladu ar gynlluniau ym Maniffesto Ebrill 2015 ac Araith y Frenhines ym mis Mai 2016, mae'r Papur Gwyn hwn yn esbonio sut y byddwn yn gwneud hyn mewn carchardai drwy ddarparu mwy o annibyniaeth, ochr yn ochr â mwy o dryloywder ac atebolrwydd. Byddwn yn rhoi'r dull hwn ar waith yn ehangach wrth

inni hefyd gychwyn ar ddiwygiadau i'r system cyfiawnder ieuenctid, carchardai menywod a gwella perfformiad y gwasanaethau prawf.

26. Dim ond drwy sicrhau bod y system gyfan yn cael ei diwygio ac yn gweithio - o'r llysoedd drwedd i'r carchardai ac yna allan i'r gwasanaeth prawf - y byddwn yn gallu adeiladu system cyfiawnder sy'n gweithio i'r gymdeithas, i'r rheini a gyflogir ar y rheng flaen ac i droseddwr sy'n dymuno rhoi eu bywyd yn ôl ar y trywydd iawn.
27. Mae ein gweledigaeth ar gyfer diwygio'r llysoedd wedi'i chyhoeddi eisoes ac rydym yn rhoi £1 biliwn arall i adeiladu system cyfiawnder sy'n fwy modern ac agored. Serch hynny, a'r carchardai'n bont rhwng cyfiawnder a diwygio, mae'n hanfodol sicrhau eu bod yn gweithio'n er mwyn inni adeiladu system cyfiawnder well.
28. Bydd canolbwyntio rhagor ar ganlyniadau wrth ddiwygio troseddwr yn arwain at ddulliau sydd wedi'u teilwra mwy. Gwyddom, er enghraifft, fod llawer o fenywod sy'n troseddu'n aml yn aelodau agored i niwed o'n cymdeithas. Mae tystiolaeth ar gael mai mynd ati mewn ffordd benodol yw'r ffordd orau o helpu menywod i fynd i'r afael â'r problemau a all fod yn sail i'w troseddu ac i drawsnewid eu bywyd. Yn gynnar yn 2017, byddwn yn cyhoeddi strategaeth sy'n dweud sut y byddwn yn gwella'r ffordd y caiff menywod sy'n droseddwr eu trin yn y carchar ac yn y gymuned. Bydd y strategaeth hon yn ystyried sut y gallwn leihau nifer y menywod sy'n troseddu ac yn y pen draw'n cael eu carcharu, gan gynnwys ymyrryd yn gynnar, a'r ymyraethau hynny wedi'u targedu.
29. Yn yr un modd, rydym yn sylweddoli bod dynion ifanc (rhwng 18 ac 20 oed) yn wynebu problemau gwahanol i ddynion hŷn sy'n troseddu. Mae'n galonogol bod nifer y grŵp hwn wedi gostwng 42% er 2011 a'u bod bellach ond yn un o bob ugain o'r boblogaeth a gedwir dan glo. Serch hynny, pan fydd y rhain dan glo, mae'r ffigurau yn dangos bod mwy ohonynt yn gyfrifol am ymosodiadau ar garcharorion eraill ac ar staff, a mwy ohonynt hefyd yn niweidio'u hunain. Ar ôl eu rhyddhau, maent yn sylweddol fwy tebygol o ail-droseddu na dynion hŷn. Gan fod y rhan fwyaf erbyn hyn yn cael eu cadw mewn sefydliadau "â dynodiad deuo", sy'n garchardai ac yn sefydliadau i droseddwr ifanc, mae pwrpas gwreiddiol eu dedfryd - Eu Cadw mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc - bellach yn llai clir.
30. Ar ôl cyhoeddi Adolygiad yr Arglwydd Harris am hunanladdiad ymhlith oedolion ifanc, a'r newidiadau a ragwelir ym maes cadw pobl dan 18 dan glo, mae angen ailasesu unwaith eto sut yr ydym yn trin y grŵp hwn. Rydym yn ystyried sut yr ymdrinnir â dynion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a byddwn yn rhoi sylw gofalus i adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder a gyhoeddwyd ar 26 Hydref 2016, dan y teitl 'The Treatment of Young Adults in the Criminal Justice System'. Byddwn yn ystyried argymhellion yr adroddiad fel rhan o'n hymdrechion ehangach i ganolbwyntio'n llymach ar ddiogelwch oedolion ifanc, eu profiad o weithgareddau adsefydlu a'u haddysg. Mae angen inni hefyd reoli eu cyfnodau pontio'n well, naill ai wrth iddynt symud o'r carchar i'r gymuned, neu yng nghyswllt ambell un sy'n bwrw dedfryd hir, wrth iddynt symud o'r ystâd ieuenctid neu'r ystâd troseddwr ifanc i garchar ar gyfer oedolion.
31. Mae diwygio carchardai'n rhan allweddol o raglen diwygio cymdeithasol y Prif Weinidog. Bydd y diwygiadau hyn yn mynd i'r afael nid yn unig â'r straen weithredol sydd ar y staff ymroddedig a dewr sy'n gweithio yn ein carchardai. Byddant hefyd yn trawsnewid y gwendidau strwythurol sydd wedi mygu arloesi a diwygiadau helaeth ers yn rhy hir o lawer. Bydd buddsoddi yn ystâd y carchardai a staff yn creu'r sylfeini

ar gyfer trefn ddiogel i bobl ac i'r system, wrth inni fwrw ymlaen â diwygiadau radical i ddatgloi arloesi, cryfhau atebolrwydd a gwella canlyniadau.

Strwythur y Papur Gwyn hwn

32. Mae'r cynigion hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr oni ddywedir yn wahanol. Mae'r carchardai wedi'u datganoli yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon

Y fframwaith iawn ar gyfer gwella

33. Bydd ein diwygiadau'n trawsnewid ffurfweddiad y system er mwyn gwneud llinellau atebolrwydd yn eglur, gan sicrhau bod llywodraethwyr carchardai a'u staff yn gwbl glir am eu rôl, nodau'r gwahanol arolygiaethau a'r cyrff craffu, a chanlyniadau methu â chyflawni'r gofynion a bennir ar eu cyfer (pennod 2).

34. Byddwn yn gwneud hyn, ar yr amod bod deddfwriaeth yn cael ei phasio lle bydd angen hynny, drwy:

- egluro rôl yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys atebolrwydd i'r Senedd;
- sicrhau bod trefniadau arolygu a threfniadau craffu eraill yn llymach, a bod adroddiadau arolygu'n sbarduno camau gweithredu i wella'r system gan yr Ysgrifennydd Gwladol a llywodraethwyr;
- cyflwyno cylch comisiynu newydd erbyn mis Ebrill 2017 i adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o rymuso llywodraethwyr;
- sicrhau proses dryloyw dan oruchwyliaeth Gweinidogion ar gyfer comisiynu carchardai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a threfniadau camu-i-mewn cadarn os byddant yn methu; a
- gwella'r ffordd y defnyddir tystiolaeth a data ym mhob rhan o'r system.

Codi safonau

35. Rydym yn awyddus i sefydlu pwrpas statudol trosfwaol i system y carchardai, a gweledigaeth glir o'r hyn y bwriedir iddi ei gyflawni. Dylai pawb sy'n gweithio yn system y carchardai arddel yr un weledigaeth hon, o'r Ysgrifennydd Gwladol i lawr at staff y carchardai (pennod 3).

36. Er mwyn gwneud hyn:

- o fis Ebrill 2017 ymlaen, byddwn yn pennu dulliau newydd i fesur perfformiad pob carchar er mwyn i lywodraethwyr fod yn glir am yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni;
- byddwn yn cyhoeddi tabl cynghrair blynyddol ar gyfer mesur perfformiad carchardai; a
- byddwn yn creu pwrpas statudol i system y carchardai erbyn diwedd y Senedd hon, a bwrw bod y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio.

Grymuso llywodraethwyr

37. Mae'n hanfodol sicrhau arweiniad cryf mewn unrhyw sefydliad a grym pwerus i sbarduno newid a gwella. Yn sgil ein diwygiadau, bydd gan lywodraethwyr lawer mwy o awdurdod a hyblygrwydd (ynghyd â mwy o atebolrwydd) i benderfynu sut y

bydd eu carchardai'n cael eu rhedeg, gan gynnwys sut mae blaenoriaethu a darparu gwasanaethau yn eu carchardai (pennod 4).

38. Mae pwerau eisoes wedi cael eu datganoli mewn chwe charchar diwygio, a byddwn yn adeiladu ar hyn o fis Ebrill 2017 ymlaen:
- drwy roi'r awdurdod i lywodraethwyr gynllunio'u gweithlu eu hunain a phenderfynu pa strwythurau sy'n diwallu eu hanghenion lleol orau;
 - drwy roi rhagor o bŵer i lywodraethwyr dros y gwasanaethau a ddarperir yn eu carchar, gan ddatganoli'r rheolaeth dros addysg, gwaith, cysylltiadau â'r teulu, ymddygiad troseddwr a rhaglenni ailsefydlu, a rhagor o ddylanwad ar y ddarpariaeth gofal iechyd;
 - drwy roi rhagor o awdurdod i lywodraethwyr benderfynu sut mae gwario'u cyllideb er mwyn gwireddu eu strategaeth, gan ddileu llawer o'r cyfyngiadau canolog ar wario, a chan ddatganoli addysg a chyllidebau ar gyfer gwaith gyda theuluoedd;
 - drwy ddatganoli penderfyniadau am bolisiâu gweithredol allweddol, gan ganiatáu i lywodraethwyr ddefnyddio trefniadau megis Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro yn well, er mwyn i garcharorion allu ymroi i weithgarwch pwrpasol, megis gwaith, fel rhan o'u dedfryd.

Carchardai sy'n sicrhau diogelwch pobl a'r system

39. Ni all llywodraethwyr a staff arwain a rheoli oni fyddant wedi'u hyfforddi'n iawn a'u paratoi'n dda. Rydym yn awyddus i swyddogion a staff rheng flaen y carchar weithredu nid dim ond fel gwarcheidwaid diogelwch a gwarchodwyr ond hefyd fel mentoriaid - sydd a'r amser i'w fuddsoddi mewn creu perthynas â phobl a darparu ymyraethau effeithiol (pennod 5).
40. Er mwyn gwella'r ffordd y caiff carcharorion eu rheoli yn ystod y rhan o'u dedfryd a dreulir yn y carchar:
- byddwn yn rhoi swyddog dynodedig i bob carcharor sy'n gallu ymgysylltu ag ef un-ac-un;
 - byddwn yn symud y cyfrifoldeb am gynllunio ac am helpu carcharorion o'r gymuned i lywodraethwyr y carchar;
 - byddwn yn gwella'r drefn rheoli achosion mewn carchardai, er mwyn cydlynu darparu ymyraethau ar gyfer y carcharor i'w gwneud yn fwy effeithiol.
41. Mae'r diwygiadau hyn eisoes wedi'u cyflwyno mewn 10 safle sy'n flaenoriaeth, ac fe'u lledaenir ar draws ystâd y carchardai ym mis Ebrill 2017.
42. Er mwyn mynd i'r afael a'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch ein carchardai:
- byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i symleiddio'r fframwaith i brofi am sylweddau seicoweithredol, fel y gallwn ymateb yn well wrth i sylweddau newydd ymddangos;
 - byddwn yn cryfhau ein gallu i atal nwyddau gwaharddedig rhag dod i mewn i'r carchar ac i ganfod eitemau sy'n cael eu smyglo i mewn;
 - byddwn yn ailasesu'n sylfaenol ein hymagwedd ehangach at fynd i'r afael â'r cyflenwad cyffuriau yn y carchar a'r galw amdanynt;
 - byddwn yn lleihau'r cyflenwad a'r galw am ddyfeisiau symudol anghyfreithlon;

- byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ac ag adrannau eraill y llywodraeth i ganfod dronau a'u rhwystro rhag dod i mewn i ystâd y carchar.

43. Er mwyn datblygu ymateb mwy cadarn i ymddygiad troseddol yn y carchar:

- byddwn yn cydweithio'n agos â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac eraill ar draws y system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn y carchar yn gadarn ac yn gyflym;
- byddwn yn cryfhau ein gallu ym maes cudd-wybodaeth drwy fuddsoddi £3 miliwn i recriwtio 50 o staff cudd-wybodaeth ychwanegol ddechrau 2017 i weithio mewn canolfan genedlaethol newydd gydag unedau rhanbarthol yn gefn iddynt;
- byddwn yn buddsoddi mewn nifer o dimau penodedig drwy'r wlad i fynd i'r afael â gangiau a Throseddau Cyfundrefnol a Difrifol.
- byddwn yn dyfeisio ac yn rhoi strategaeth ar waith i fynd i'r afael â llygredd ymhlith staff yn 2017, gan greu cysylltiadau priodol â'r Strategaeth Wrthlygredd ar draws y llywodraeth sy'n cael ei datblygu yn sgil ymrwymiad y Deyrnas Unedig yn yr Uwchgynhadledd Gwrthlygredd yn Llundain ym mis Mai 2016;
- byddwn yn cydweithio â'r Swyddfa Gartref i gryfhau ein hymateb i berygl radicaleiddio ac eithafiaeth mewn carchardai dros y misoedd nesaf.

Datblygu ein harweinwyr a'n staff

44. Bydd gweithlu ymroddedig a thalentog yn hanfodol er mwyn gwireddu ein diwygiadau. Byddwn yn buddsoddi yn y staff sydd gennym, gan ddarparu'r cyfarpar a'r cymorth iawn i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol yn y system ddiwygiedig yn ogystal â hybu nifer y staff drwy ddenu staff newydd i ddod i weithio inni (pennod 6).

45. Byddwn yn gwella gallu'r staff sydd gennym eisoes:

- drwy ddatblygu strategaeth gallu i helpu llywodraethwyr ac uwch reolwyr i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd;
- drwy ddatblygu rhaglen arwain carchardai sydd wedi'i theilwra'n arbennig erbyn diwedd 2017;
- drwy gyflwyno gwell rhaglen sefydlu a chymorth i staff newydd;
- drwy hyfforddi'r staff sydd gennym eisoes i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd megis rhoi cymorth un-ac-un i garcharorion.

46. Byddwn yn cynyddu nifer y swyddogion carchar 2,500 erbyn diwedd 2018. Byddwn yn dod â phobl ddawnus newydd i'r gweithlu:

- drwy gyflwyno cynllun ymuno uniongyrchol newydd i reolwyr erbyn diwedd 2016, gan flaenoriaethu swyddi yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr;
- drwy lansio ymgyrch newydd ddechrau 2017 i gynyddu nifer cyn aelodau'r lluoedd arfog sy'n gweithio mewn carchardai;
- drwy gyflwyno cynllun recriwtio newydd i raddedigion ddechrau 2017 er mwyn i raddedigion disglair ddod yn swyddogion carchar;
- drwy gyflwyno rhaglen brentisiaethau lefel-uchel newydd i swyddogion carchar yn 2017.

Adeiladu'r ystâd iawn ar gyfer diwygio

47. Byddwn yn creu ystâd ddiwygiedig a fydd yn llai llawn, wedi'i threfnu'n well, yn fwy effeithiol ac a fydd yn cynnwys llety modern, addas at y diben (pennod 7).
48. Dros y pedair blynedd nesaf:
- byddwn yn symleiddio trefniadaeth yr ystâd er mwyn i'r lefel ddiogelwch a bennir ar gyfer carcharorion fod yn iawn a hynny mewn carchardai sydd â gweithdrefn sydd wedi'i theilwra'n briodol;
 - byddwn yn agor CEM y Berwyn, carchar adsefydlu newydd i ddynion yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2017;
 - byddwn yn buddsoddi £1.3 biliwn i adeiladu hyd at 10,000 o leoedd newydd i oedolion mewn carchardai;
 - byddwn yn adeiladu ac yn agor pum carchar cymunedol newydd i fenywod.
49. Gallwn gadarnhau na fydd yr hen Ganolfannau Symud Mewnfudwyr yn Dover a Haslar yn ailagor fel carchardai. Byddwn yn cyhoeddi rhagor am gau carchardai maes o law.
50. Mae'r diwygiadau hyn yn golygu newidiadau sylweddol i un o hen sefydliadau mawr y sector cyhoeddus a bydd y gwelliannau'n digwydd dros gyfnod o ddegawd. Yn benodol, bydd y dasg gymhleth o frwydro yn erbyn y trais sy'n digwydd ar raddfa eang yn yr ystâd yn cael sylw mwy effeithiol ar ôl inni recriwtio a hyfforddi staff newydd, meithrin ein gallu ym maes cudd-wybodaeth a lledaenu profion cyffuriau newydd.
51. Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau amlwg drwy'r system i gyd erbyn 2020. Erbyn diwedd y Senedd hon, ac yn sgil y strategaeth hon, bydd cyfleusterau newydd mawr eu hangen wedi'u darparu, bydd llywodraethwyr wedi'u grymuso a bydd technoleg fodern wedi'i chyflwyno er mwyn gwella gweithdrefnau, bod yn gefn i'r diwygiadau a brwydro yn erbyn bygythiadau i ddiogelwch.

Diogelwch carchardai a'u diwygio

52. I grynhoi, un o swyddogaethau hanfodol y system cyfiawnder yw gostwng lefel y troseddu yn ein cymdeithas drwy leihau aildroseddu. Nid yw hynny'n bosibl mewn carchardai lle bydd trais yn rhy aml o lawer yn norm. Bydd gwireddu ein strategaeth ddiwygio'n dibynnu ar barhau ag ymdrechion ymroddedig staff unigol ein carchardai a'r swyddogion ar lawr gwlad. Mae pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn ein carchardai a'n sefydliadau troseddwy'r ifanc yn gyfryngau diwygio. Heb eu cefnogaeth a'u cyfraniad, a heb arweiniad llywodraethwyr, ni allwn lwyddo i wireddu ein gweledigaeth, sef gwneud i garchardai weithio.
53. Mae'n hen bryd inni drawsnewid ein carchardai, ond oherwydd problemau sydd wedi bwrw gwreiddiau dyfnion yn y system a maint y newid diwylliant yr ydym yn ei gynnig, bydd angen amser inni wneud hyn. Serch hynny, ni ddylai neb amau nad oes angen diwygio'n ddi-oed er mwyn arbed y baich ariannol enfawr a ysgwyddir gan gymdeithas a'r diflastod difesur a achosir i bobl yn sgil methiannau'r system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd i leihau cyfraddau aildroseddu. Wrth inni wella'r ymyraethau cynnar sydd eu hangen i atal pobl rhag disgyn i fywyd o droseddu, mae angen inni yn awr dargedu'r rheini sydd wedi'u dal yn y drws troi hwnnw sy'n arwain at droseddu, carchar a rhagor o droseddu. Bydd y cynigion hyn yn chwalu'r cylch hwnnw. Bydd y cynigion hyn yn gwneud i'r carchar weithio.

Pennod 2: Y fframwaith cywir ar gyfer gwella

Ein man cychwyn ar gyfer gwneud carchardai'n fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio yw sicrhau bod fframwaith system y carchardai'n gywir o ran atebolrwydd, craffu a chymorth.

Rydym yn awyddus i weld bod pawb sy'n gweithio yn system y carchardai - o swyddogion carchar, i lywodraethwyr, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder - yn glir mai eu pwrpas nhw i gyd yw amddiffyn y cyhoedd a diwygio troseddwyr. Rydym yn awyddus i lywodraethwyr gael eu dal yn atebol mewn ffordd gadarn a thryloyw am gadw carcharorion yn ddiogel ac am fynd i'r afael â'r hyn sy'n gwneud i garcharorion droseddu. Yn ei dro, rydym am i'r Ysgrifennydd Gwladol gael ei ddal yn amlwg atebol gan y Senedd am ba mor dda mae'r system yn cyflawni ei phwrpas. Ac rydym yn awyddus i weld cyrff craffu a monitro cryf ac annibynnol, sy'n gallu taflu goleuni ar fethiannau ac ar ratoriaeth, ac sy'n gallu sbarduno camau'n ddi-oed lle bydd angen hynny gan lywodraethwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Er bod ein carchardai'n gwneud gwaith hollbwysig yn amddiffyn y cyhoedd, mae'r trefniadau ar gyfer sut y caiff y system garchardai ei goruchwyllo wedi tyfu mewn ffordd dameidiog. Felly, nid yw'r system bresennol yn deilwng o'r weledigaeth hon. Nid oes dim byd sylfaenol o'i le yn y ffordd y mae neb o'r cyrff sy'n ymwneud â chomisiynu, cynnal neu ddal carchardai'n atebol yn gweithredu ar hyn o bryd, wrth edrych arnynt fesul un. Ond wrth edrych ar y darlun cyfan, mae'r atebolrwydd yn niwlog ac, i raddau, mae hyn wedi golygu bod dannedd y comisiynwyr a'r arolygwyr yn ddi-fin, a bod gormod o swyddogaethau unigol wedi'u lleoli yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i hasiantaethau.

Er mwyn adeiladu'r fframwaith iawn ar gyfer gwella, byddwn yn ailwampio ffurfweddiad y system o amgylch llywodraethwyr gyda golwg ar sicrhau'r canlynol:

- bod gan system y carchardai bwrpas statudol sy'n gyfrwng i uno pawb sy'n gweithio ynddi;
- bod rôl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn glir, gan gynnwys sut y bydd yn ateb i'r Senedd am ei pherfformiad;
- bod proses dryloyw sy'n cael ei goruchwyllo gan Weinidogion am ddal llywodraethwyr yn atebol;
- bod trefniadau arolygu a threfniadau craffu eraill yn llymach, a lle bo hynny'n briodol eu bod yn sbarduno camau gweithredu i wella'r system gan yr Ysgrifennydd Gwladol a llywodraethwyr;

54. Mae gwahanol rannau o system y carchardai wedi datblygu ar wahanol adegau ac mewn gwahanol ffyrdd. Wrth i'r amgylchedd gwleidyddol, ariannol a gweithredol newid, mae gwahanol rannau o'r system wedi cael eu haddasu a'u diwygio. Canlyniad hyn yw mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, sy'n gyfrifol am redeg pob agwedd ar y system ac o dani, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i hasiantaethau'n comisiynu, yn darparu ac yn cynnig llwybr atebolrwydd heb fod dim rhaniad amlwg rhwng y gwahanol rolau hyn.

55. Felly, mae strwythur system y carchardai, y cyfrifoldebau o'i mewn a'r ffordd y mae'r llinellau atebolrwydd yn llifo'n niwlog ac yn aneglur. Mae'r ffordd mae'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y rheini sy'n gosod y fframwaith a'r carchardai eu hunain sy'n darparu'r gwasanaeth yn ddryslyd ac mae'r atebolrwydd am wahanol agweddau'r system wedi'i ddiffinio'n wael. Mae hyn hefyd yn golygu bod gwaith y cyrff goruchwylio annibynnol, yn enwedig Arolygydd Carchardai EM, ond hefyd Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf a'r Byrddau Monitro Annibynnol, yn fwy anodd oherwydd bod y diffyg eglurdeb ynglŷn â chyfrifoldeb yn gwanhau eu gallu i sicrhau newid.
56. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn diwygio o'i gwr y fframwaith ar gyfer rhedeg system y carchardai. Byddwn yn dechrau drwy restru am y tro cyntaf set glir o ddibenion y mae'n rhaid i system y carchardai eu cyflawni ac yn sicrhau bod rolau comisiynu, darparu ac asesu perfformiad yn cael eu diffinio'n glir ac yn cael eu cysoni â'r dibenion hyn. Wrth roi'r newidiadau a nodir yn y papur hwn ar waith, byddwn yn addasu ein hymagwedd er iddynt weithio ar gyfer carchardai preifat hefyd, lle bynnag y bo modd.
57. Bydd y dibenion hynny wedyn yn cael eu bwydo i lawr i garchardai unigol drwy gyfrwng model comisiynu newydd a symlach. Ategir hyn gan gytundebau perfformiad gyda'r bwriad o helpu llywodraethwyr i roi eu hawdurdod newydd ar waith i wneud y penderfyniadau iawn i'w carchardai. Bydd y fframwaith safonau a ddisgrifir ym mhennod 3 ac sy'n cael ei adlewyrchu ym mhob cytundeb a chontract sy'n ymwneud a pherfformiad y carchar yn golygu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu deall a rheoli perfformiad carchardai o fewn y fframwaith hwnnw a'u hannog i wella'n barhaus.
58. Yn gefn i'r data hyn ac er mwyn creu darlun cyflawn, rydym am i Arolygydd Carchardai EM (ACEM) ystyried i ba raddau y mae carchardai'n cyflawni'r dibenion. Dylai ACEM chwarae rhan gryfach yn dal carchardai'n atebol, er mwyn i'w hargymhellion gael effaith go iawn ar wella'r system gan gynnal ei hannibyniaeth ar yr un pryd. Os na all carchar wella'i berfformiad yn gyflym ac yn effeithiol, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng gwasanaeth y carchardai, yn ymyrryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd cryfhau'r craffu ar garchardai'n chwarae rhan bwysig o ran eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol wrth iddynt ddiwygio troseddwy.

Gosod cyfeiriad clir

59. Fel y mae ar hyn o bryd, nid oes gan system y carchardai amcanion clir sydd wedi'u pennu mewn cyfraith gan y Senedd. Mae hyn yn syndod, yn enwedig ac ystyried pwysigrwydd carchardai'n amddiffyn y cyhoedd ac yn helpu i atal troseddu, a chost y system i'r trethdalwr.
60. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, rhywfaint ohoni'n mynd yn ôl cyn belled ag 1877, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn syml wneud y contractau a'r pethau eraill sy'n angenrheidiol i gynnal y carchardai a'r carcharorion. Mae'n canolbwyntio ar allbynnau a phrosesau sy'n cefnogi cynnal y system o safbwynt gweinyddol. Yr hyn sydd ar goll yw eglurdeb ynghylch yr hyn y dylai'r system fod yn ei gyflawni drwyddi draw.
61. Nid dim ond newid symbolaidd yw hyn. Er mwyn ymateb i'r heriau y mae system y carchardai'n eu hwynebu a thrawsnewid y gwasanaeth, mae angen i'r newid fwrw gwreiddiau'n iawn ym mhob rhan o'r system. Mae diwygio sy'n canolbwyntio ar

drwsio rhannau penodol o'r system, pa mor dda bynnag y bydd rheini'n cael eu dewis, yn sicr o fethu oherwydd nad yw'n dod â'r system honno ynghyd i sicrhau ei fod yn gwireddu'r newidiadau y mae'n dymuno'u gweld. Mae angen inni fynd yn ôl i'r dechrau a sicrhau ei bod yn gwbl glir beth yw pwrpas bodolaeth system y carchardai, i bawb sy'n gweithio ynddi ac i'r gymdeithas y tu hwnt.


62. Felly, rydym yn bwriadu deddfu i gyflwyno diben statudol clir ar gyfer system y carchardai. Bydd hyn yn rhoi nod i'r system drwyddi draw i uno y tu ôl iddo a synnwyr clir o'r hyn y bydd carchardai'n cael eu dal yn atebol amdano. Wrth inni ymchwilio i hyn yn fwy manwl ym mhennod 3, bydd y pwrpas hwn yn cael ei seilio ar elfennau sylfaenol yr hyn yr ydym yn disgwyl i garchardai ei gyflawni: amddiffyn y cyhoedd, diogelwch a threfn, diwygio, a pharatoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau.

Rôl yr Ysgrifennydd Gwladol

63. Mae'r ffordd y mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i oruchwylio carchardai a chynnal carchardai a carcharorion wedi'i fframio ar hyn o bryd yn perthyn i'r oes o'r blaen. Nid oes synnwyr clir o gyfrifoldeb cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol dros system y carchardai a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Mae'n canolbwyntio yn hytrach ar weithrediadau a phrosesau, materion y dylai'r rheini sy'n darparu gwasanaethau ar lawr gwlad fod yn gyfrifol amdanynt. Rydym yn ystyried a oes angen inni fod yn fwy clir yn Neddf Carchardai 1952 neu yn Rheolau Carchardai 1999 am rolau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y naill law a llywodraethwyr ar y llall. Mae angen inni ei gwneud yn glir i'r Senedd hefyd, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, pwy sy'n gwneud beth a phwy maes o law sy'n gyfrifol am sicrhau canlyniadau.
64. Bydd rhai swyddogaethau o hyd a fydd yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, naill ai oherwydd eu bod yn sicrhau tegwch ar draws y system neu oherwydd eu bod yn cynnal y cysondeb sy'n golygu bod system y carchardai'n gallu gweithredu drwyddi draw. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn dal yn gyfrifol am y canlynol:
- darparu ar gyfer system garchardai effeithlon ac effeithiol;
 - ariannu'r system, naill ai drwy ddarparu a rhedeg carchardai uniongyrchol neu drwy drefnu i bobl eraill wneud hynny;
 - dyrannu carcharorion i garchardai;
 - rheoli capasiti'r system - cynnal digon o leoedd yn yr ystâd i ddarparu llety diogel a chadarn i'r rheini sy'n cael eu rhoi dan glo gan y llysoedd;
 - gosod y rheolau a'r polisïau sylfaenol neu drawsbynciol gorfodol i sicrhau bod system y carchardai a'r bobl sydd ynddynt yn ddiogel, bod eu hansawdd yn dderbyniol a'u bod cael eu rhedeg yn unol â'r gyfraith ac yn cadw ymddiriedaeth y cyhoedd;
 - penodi llywodraethwyr yng ngharchardai'r sector cyhoeddus (a rôl fwy cyfyng yn penodi'r cyfarwyddwr mewn carchardai preifat); ac
 - ymyrryd pan fydd problemau o ran perfformiad.
65. Er mwyn sicrhau bod atebolrwydd yn dilyn cyfrifoldeb, rydym yn bwriadu deddfu i ddiwygio'r gofynion i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd i'r Senedd am system y carchardai. Ar hyn o bryd, mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd am ystod eang o fesurau - o boblogaeth y carchardai i droseddau a chosbau - ar lefel y carchar unigol. Er y gall rhywfaint o hyn fod yn wybodaeth reoli fuddiol, ymarfer ticio blychau

ydyw ac nid yw wedi'i gysoni'n iawn â rôl yr Ysgrifennydd Gwladol yn system y carchardai.

66. Ein bwriad yw deddfu er mwyn cysylltu dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol i baratoi adroddiadau â dibenion statudol newydd system y carchardai, er mwyn i'r adroddiadau ganolbwyntio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni'r nodau hynny, yn hytrach nag ar fanion y gweithrediadau. Yn gefn i hyn, cyhoeddir tablau cynghrair a'r data sy'n sail iddynt, gan roi darlun cyflym i'r cyhoedd o sut mae'r carchar yn gwneud.
67. Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod pobl yn deall yr hyn y dylai system y carchardai fod yn ei wneud ac i ba raddau y mae'n llwyddo i wneud hynny.
68. Mae Ffigur 1 yn esbonio ein cynllun ar gyfer system garchardai ddiwygiedig.



69. Wrth galon hyn, mae'r angen i newid y ffordd y caiff carchardai eu comisiynu i adlewyrchu'r awdurdod a'r rôl gryfach a roddir i lywodraethwyr (fel yr eglurir ym mhennod 4) ac er mwyn helpu i sbarduno gwella parhaus. Mae angen proses dryloyw arnom yn genedlaethol lle bydd safonau a chyllidebau'n cael eu pennu a'u mesur yn glir a lle bydd llywodraethwyr yn cael eu dal yn atebol am eu cyflawni. Ac yn lleol, wrth i gyfrifoldebau a chyllidebau gael eu datganoli i garchardai, bydd angen i lywodraethwyr wybod beth yw maint eu cyllideb, pa safonau a ddisgwylir ganddynt a pha wasanaethau y cânt eu comisiynu.

70. Rydym yn rhagweld system:

- lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn adolygu perfformiad cyffredinol y carchardai ac yn penderfynu ynglŷn â blaenoriaethau ac adnoddau ar sail hyn;
- lle bydd fformiwla ariannu tryloyw'n dyrannu adnoddau i garchardai ar sail eu swyddogaeth;
- lle bydd pob carchar (cyhoeddus neu breifat) yn negodi cytundeb perfformiad priodol, sy'n nodi poblogaeth y carchar, ei gyllid a'r disgwyliadau o ran perfformiad o'i gymharu â phob un o'r safonau a nodir ym mhennod 3, y cytunwyd arnynt gyda'r Gweinidogion;
- lle y pennir y rheolau a'r polisïau sylfaenol neu drawsbynciol gorfodol i sicrhau bod system y carchardai a'r bobl sydd ynddynt yn ddiogel, bod eu hansawdd yn ddigon da a'u bod yn cael eu rhedeg yn unol â'r gyfraith;
- lle y bydd yr hyn a gyflawnir ar sail y cytundeb perfformio'n cael ei fonitro;
- lle y bydd llywodraethwyr yn cael eu dal yn atebol am eu perfformiad;
- lle y cymerir camau pendant os bydd y perfformiad yn destun pryder difrifol.

71. Nid yw carchardai'n bodoli ar wahân i weddill y system cyfiawnder troseddol. Wrth bennu'r fframwaith ar gyfer y system, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydweithio'n agos â phobl eraill ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys partneriaid yn y bwrdd Cyfiawnder Troseddol cenedlaethol, er mwyn sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig a chyson at y nod cyffredin, sef lleihau troseddu ac amddiffyn y cyhoedd.

72. Bydd angen tipyn o amser er mwyn gwireddu'r system hon, ond rydym yn rhoi'r blociau adeiladu ar waith yn awr: atebolrwydd clir, diffinio dibenion a safonau perfformiad ar gyfer y system; mandad diamwys i lywodraethwyr, a'r awdurdod i gyflawni. Erbyn mis Ebrill 2017, bydd gennym gytundebau perfformiad tair blynedd newydd ar waith gyda thraean y carchardai, a bydd gweddill y carchardai'n symud at y trefniant hwn dros y ddwy flynedd ganlynol. Yn y tymor hwy, y cytundeb perfformiad fydd y cyfrwng ar gyfer negodi â llywodraethwyr y carchardai, gan gynnwys ynglŷn â'r disgwyliadau a bennir ar gyfer y carchar a'r gyllideb a ddyrennir iddo, ar sail fformiwla cyllido newydd.

73. Rheolir carchardai preifat a'u dal yn atebol o dan gontractau manwl, a bydd cytundeb perfformiad blynyddol yn ategu hyn. Rydym yn awyddus i'n diwygiadau gael eu rhoi ar waith mewn ffordd mor debyg ag sy'n bosibl i garchardai preifat a byddwn yn gweithio drwy hyn fesul carchar o ran sut a pha bryd y dylid cyflwyno'r newidiadau a gynigir yn y papur hwn.

System sy'n cael ei gyrru gan dystiolaeth a data

74. Er mwyn i gomisiynwyr a llywodraethwyr gael eu harfogi'n briodol i benderfynu pa wasanaethau y dylid eu darparu mewn carchardai, bydd angen iddynt gael gafael ar sail dystiolaeth gadarn. Yn y gorffennol, er ein bod yn deall y sail dystiolaeth ar gyfer rhai gwasanaethau'n dda, mae lle i wella'r ffordd y byddwn yn nodi dulliau newydd llwyddiannus ac yn rhannu'r system honno ar draws y system.

75. Gyda rhagor o reolaeth a chyfrifoldeb, bydd angen i lywodraethwyr a chomisiynwyr eraill wybod mwy nag erioed pa ddulliau sy'n sicrhau'r dylanwad gorau am yr arian.

76. Rydym eisoes yn darparu ystod eang o dystiolaeth a chymorth i lywodraethwyr ac i ddarparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyfuno'r dystiolaeth a pharatoi crynodebau (megis yr adnodd mewnwyd A-Z a gyhoeddwyd eleni), pecynnau data newydd, cyngor am ddarparu gwell canlyniadau ac am arferion effeithiol wrth leihau aildroeddu a darparu amgylcheddau diogel.
77. Er mwyn adeiladu ar sail hyn, rydym yn archwilio'r opsiwn ar gyfer adnodd 'beth sy'n gweithio' er mwyn helpu i ddefnyddio tystiolaeth yn llawn ac mewn ffordd effeithiol. Gallai hyn fod er mwyn:
- cyfuno ac adeiladu'r sail dystiolaeth, gan gynnwys helpu i dreialu dulliau newydd, a pharhau i sicrhau bod hyn ar gael i garchardai;
 - arfogi llywodraethwyr carchardai ac eraill yn well i frocera cysylltiadau â busnesau a chyflogwyr er mwyn gallu llunio barn wybodus am yr hyn sy'n gweithio;
 - meithrin gallu a sbarduno newid diwylliant drwy'r system er mwyn defnyddio tystiolaeth a data'n safon wrth wneud penderfyniadau
78. Rydym yn datblygu ein dulliau drwy ddysgu yn sgil yr arferion gorau yn system y carchardai yn ogystal â chan sectorau eraill.

Archwilio a chraffu manylach

79. Yn system y carchardai fel y mae ar hyn o bryd, byddwn yn monitro carchardai ac yn darparu sicrwydd eu bod yn gweithredu'n effeithiol; bydd Arolygiaeth Carchardai EM yn craffu ar garchardai ac yn adrodd am amgylchiadau a thriniaeth y rhai a gedwir dan glo, a bydd Byrddau Monitro Annibynnol yn monitro ac yn adrodd am fywyd beunyddiol yn y carchardai. Bydd Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i farwolaethau yn y carchar a chwynion gan garcharorion. Yn ogystal â'i chylch gwaith i arolygu carchardai yng Nghymru a Lloegr, bydd yr Arolygiaeth hefyd yn arolygu carchardai yng Ngogledd Iwerddon drwy wahoddiad. Gan mai trefniant drwy wahoddiad yw hwn, dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r cynigion isod yn berthnasol.
80. Mae'r golwg annibynnol hwn ar yr hyn sy'n digwydd yn ein carchardai'n hanfodol. Rydym am gadw annibyniaeth a thryloywder y trefniadau craffu presennol, a sicrhau bod dylanwad cyfun y craffu'n cynnig eglurder i garchardai ynglŷn â blaenoriaethau a diben, ac mae'n golygu bod yr arolygu'n cael dylanwad cryfach. Credwn ei bod yn hanfodol i'r Arolygiaeth barhau i graffu'n annibynnol ac yn drwyadl ar garchardai a bwriadwn gryfhau ei chylch gwaith statudol i gefnogi'r rôl hon. Rydym hefyd yn glir ei bod yn rhaid i'r Arolygiaeth barhau i adrodd am amgylchiadau'r sawl sydd yn y carchar a'r ffordd y cânt eu trin, a chadw'i rôl hanfodol fel rhan o'r mecanwaith annibynnol ataliol sy'n ofynnol o dan y Protocol Dewisol ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Poenydio (OPCAT). Bydd ein diben statudol arfaethedig yn ei gwneud yn glir yr hyn y mae system y carchardai'n ceisio'i gyflawni. Rydym am ychwanegu at gylich gwaith yr Arolygiaeth er mwyn iddi ystyried, yn ogystal â chanolbwyntio'n gyffredinol ar y ffordd y caiff carcharorion eu trin, i ba raddau y mae'r carchardai'n cyflawni'r dibenion hynny. Gan gydnabod pwysigrwydd arweiniad ac i gefnogi gwella parhaus, bydd arolygiadau hefyd yn cynnwys ystyried sut mae arweiniad carchardai'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau y mae'n eu disgwyl. Gwaith yr Arolygiaeth o hyd fydd dyfeisio fframwaith arolygu annibynnol, gan gynnwys canlyniadau penodol yr arolygiad a'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio wrth arolygu. Fel sy'n wir yn awr, serch hynny, byddem yn awyddus i'r

Arolygiaeth ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ac â phartïon perthnasol eraill wrth ddyfeisio hyn.

81. Byddwn hefyd yn miniogi'r ymatebion i'r arolygiadau er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn ddi-oed ac o ddifri. Yn fan cychwyn, byddwn yn creu gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r llywodraethwr ymateb i ganfyddiadau o fewn amserlen benodol.
82. Serch hynny, os bydd carchar yn methu â chyflawni, rhaid sicrhau bod mecanwaith clir ar gyfer unioni pethau. Gall hyn fod drwy broses gywiro ffurfiol lle y bydd canfyddiadau'r arolygiaeth yn gallu sbarduno'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd yn yr achosion gwaethaf. Byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw ymyrraeth os bydd carchar yn gwneud yn wael o'i gymharu â'i gytundeb perfformiad neu â'i gontract.
83. Bydd y broses a ddilynir i wella perfformiad carchardai'n dibynnu ar yr amgylchiadau, ac fe allai gynnwys:
 - rhoi cymorth dwys i'r carchar unioni gwendidau drwy roi cynllun gwella ar waith;
 - rhoi tîm gwella canolog i weithio gyda'r carchar i'w helpu i wella; neu
 - ddisodli arweinwyr y carchar neu symud uwch arweinwyr y carchar i strwythur rheoli newydd.
84. Rydym yn awyddus i'r Byrddau Monitro Annibynnol barhau â'u rôl hollbwysig fel llygaid a chlustiau rheolaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn carchardai. Byddwn yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y Byrddau hyn er mwyn eu helpu i ddarparu craffu o safon.
85. Mae galwadau wedi bod ers tro i Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf gael ei roi ar droedle statudol i gryfhau annibyniaeth a hygredded y sefydliad. Er ein bod yn credu bod yr Ombwdsmon yn effeithiol yn ei waith ac yn ennyn cryn barch yn ei ffurf bresennol, rydym yn sylweddoli y gallai sail statudol fod yn hwb i statws y rôl a byddwn yn edrych ar sut y gellid gwneud hyn.

Pennod 3: Codi safonau

Pwrpas carchardai yw amddifadu pobl o'u rhyddid a'u cosbi am droseddau y maent wedi'u cyflawni. Serch hynny, mae'r amser y bydd pobl yn ei dreulio yn y carchar yn gyfle pwysig i'w hatal rhag mynd yn eu blaen i droseddu eto pan gânt eu rhyddhau. Er mwyn gwneud hynny, mae pedwar prif ddiben y mae angen i garchardai eu cyflawni'n dda;

- amddiffyn y cyhoedd;
- cynnal diogelwch a threfn;
- diwygio troseddwr er mwyn atal rhagor o droseddau rhag cael eu cyflawni;
- paratoi carcharorion ar gyfer bywyd y tu allan i'r carchar.

Byddwn yn sicrhau bod llywodraethwyr a staff carchardai'n gwbl glir ynglŷn â beth yw diben carchardai a sut mae eu rolau'n cefnogi hynny, a bod ganddynt safonau clir y mae disgwyl iddynt eu cyflawni. Rhaid sicrhau tryloywder ynglŷn ag i ba raddau y maent wedi cyflawni'r safonau hynny, nid dim ond o fewn y system ond y tu hwnt i hynny, i'r Senedd a'r cyhoedd, er mwyn gallu dal llywodraethwyr yn atebol mewn ffordd effeithiol.

Mae'r diben statudol y soniwyd amdano uchod yn fan cychwyn pwysig o ran rhoi'r pedair safon hyn wrth galon yr hyn y bydd carchardai'n ei wneud. Ond mae angen inni wneud rhagor. Mae'r gofynion perfformiad sy'n cael eu pennu ar gyfer carchardai'n canolbwyntio gormod ar brosesau a thicio blychau ar hyn o bryd. Gwyddom fod darlun mwy cymhleth o lawer yn sail i ba mor dda y bydd ein carchardai'n gweithio, yn anad dim, i ba raddau y bydd carcharorion yn trawsnewid eu bywyd yn ystod eu cyfnod dan glo, i ba raddau y byddant yn gwneud cynnydd o ran addysg ac o ran sgiliau yn y gweithle, lefelau eu hiechyd, a'u cynnydd o ran rhoi'r gorau i gyffuriau.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon:

- byddwn yn gosod mesurau perfformiad newydd i bob carchar, ar sail y pedair safon hyn, er mwyn i lywodraethwyr wybod yn union beth yr ydym am iddynt ei gyflawni;
- byddwn yn cyhoeddi is-set o'r rhain mewn tabl cynghrair blynyddol i ddangos yn glir i'r cyhoedd i ba raddau y mae pob carchar yn llwyddo.

86. Fel y gwelsom eisoes, bydd carchardai'n cyflawni nifer o ddibenion pwysig, ond ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth y dylai gwasanaeth y carchardai fod yn ei gyflawni drwyddi draw. Casgliad adroddiad diweddar gan y felin drafod 'Reform' am y data sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch perfformiad carchardai, er enghraifft, oedd mai ychydig iawn y mae hyn yn ei ddweud wrthym am ba mor effeithiol yw'r gwaith i amddiffyn y cyhoedd na pha mor dderbyniol yw'r llety i garcharorion. Nid yw ychwaith yn dangos a yw carchardai'n adsefydlu troseddwr i'w hatal rhag troseddu eto. Bwriadwn fynd i'r afael â hyn. Mae'r bennod hon yn egluro ein gweledigaeth ynglŷn â'r hyn y dylai carchardai effeithiol ei ddarparu yn ein barn ni, ac mae'n dweud sut y byddwn yn mesur eu perfformiad ar sail y disgwyliadau hynny.

87. Mae cosbi troseddwr am y troseddau y maent wedi'u cyflawni drwy ei hamddifadu o'u rhyddid yn elfen hollbwysig o bwrpas carchardai ac mae'n rhan greiddiol o'n

system cyfiawnder troseddol. Rydym yn awyddus iddynt gyflawni'r swyddogaeth hanfodol hon mewn ffordd sy'n sicrhau'r risg leiaf i'r cyhoedd ac yn atal rhagor o droseddu. Yn y pen draw, mae pedwar peth pwysig y mae system y carchardai'n gyfrifol amdanynt: amddiffyn y cyhoedd; diogelwch a threfn; diwygio troseddwy; a pharatoi troseddwy ar gyfer bywyd ar ôl y carchar.

88. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, pwrpas carchardai yw rhoi gorchmynion y llysoedd ar waith a chyflawni'r dedfrydau y byddant yn eu pennu. Nid yw carcharu rhywun yn gosb a roddir yn ysgafn. Mae'n adlewyrchu difrifoldeb trosedd a'r niwed y mae troseddwr wedi'i achosi i'r gymuned. Mae amddiffyn y cyhoedd felly'n un o ddyletswyddau sylfaenol carchardai er mwyn cadw ein strydoedd yn ddiogel, er mwyn i ddiodefwr troseddau a'r cyhoedd yn gyffrediol weld bod troseddu'n cael ei gosbi, ac er mwyn inni atal rhagor o bobl ddiniwed rhag dioddef yn sgil y troseddu hwnnw. Ond y tu hwnt i hyn, ni allwn obeithio diwygio troseddwy'r oni allwn eu cadw'n ddiogel dan glo. Mae angen i garchardai allu gwneud hyn er mwyn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd a gwireddu unrhyw un o'r dibenion eraill.
89. Yn yr un modd, er mwyn i garchardai fod yn ganolfannau diwygio yn hytrach na dim ond yn fannau i gadw pobl dan glo, mae angen iddynt fod yn ddiogel i garcharorion ac i'r staff. Dyma'r allwedd i gynnal trefn garchar gyflawn sy'n cynnig y cyfleoedd iawn er mwyn diwygio carcharorion, ac i alluogi'r staff i weithio gyda charcharorion a'u rheoli'n dda. Gwyddom fod carchardai'n wynebu heriau sylweddol yn y maes hwn ac ym mhennod 6, byddwn yn egluro sut y byddwn yn parhau i'w helpu i weithredu'n ddiogel. Mae angen ymateb cenedlaethol wrth gwrs i fynd i'r afael â diogelwch ond rhaid i hyn hefyd fod yn gyfrifoldeb ar bob llywodraethwr gyda golwg ar y staff a'r carcharorion y byddant yn eu rheoli.
90. Serch hynny, os gofynnwn i garchardai ganolbwyntio ar gadw carcharorion yn ddiogel yn unig, byddwn mewn perygl o golli'r cyfle i helpu troseddwy'r i newid. Mae'r carchar yn cynnig cyfle unigryw i helpu i ddiwygio carcharorion drwy roi'r cymorth iawn iddynt ar yr adeg iawn i'w helpu i newid eu hymddygiad a'u hagweddau, ac i'w paratoi ar gyfer bywyd heb droseddu pan gânt eu rhyddhau. Felly, rhaid inni sicrhau bod carcharorion yn treulio'u hamser dan glo'n adeiladol a'n bod yn rhoi'r gwasanaethau a'r cyfleoedd iawn iddynt mewn ffordd gydlynol. Mae helpu i ddiwygio troseddwy'r, er mwyn iddynt allu cyfrannu'n gadarnhaol i'r gymdeithas, o reidrwydd yn rhan hanfodol o'r hyn y mae carchardai'n ceisio'i gyflawni.
91. Gwyddom hefyd mai rhan hanfodol o'r diwygio yw paratoi troseddwy'r yn iawn ar gyfer bywyd ar ôl y carchar, gan greu'r amgylchiadau iawn i'w helpu i osgoi dychwelyd at droseddu. Nid dim ond gwaith y carchardai yw hyn, wrth gwrs. Rhaid iddynt gydweithio â'r gwasanaeth prawf er mwyn sicrhau bod gan garcharorion gartref i fynd iddo ar ôl eu rhyddhau, ffactor allweddol o ran lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dychwelyd at droseddu. Er na allwn ddisgwyl iddynt fod yn gyfrifol am wasanaethau y tu allan i'r carchar, dylai carchardai a'u llywodraethwyr, allu gweithio'n effeithiol fel partneriaid gyda'r gwasanaeth prawf, a chyda gwasanaethau pwysig eraill megis y Ganolfan Byd Gwaith, cynghorau lleol a darparwyr gofal iechyd.
92. Rydym yn awyddus i'r pedwar diben hyn gael eu cynnwys yn y ffordd y caiff carchardai eu rhedeg ac i bob carchar a'u staff gael y sgiliau, yr awdurdod a'r cymorth i'w cyflawni. Dylent lywio patrwm diwrnod y carchar, y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i droseddwy'r, perthynas y staff â'r carcharorion a diwylliant y carchar fel man i fyw a gweithio ynddo. Rhan fawr o hyn fydd rhoi'r rhyddid i lywodraethwyr y carchardai reoli eu carchar mewn ffordd sy'n gwireddu hyn, ac yn y bennod nesaf,

byddwn yn edrych ar sut y gwnawn ni hynny. Ond rhaid inni fod yn glir hefyd o'r cychwyn cyntaf mai dyma'r safon yr ydym yn ei disgwyl.

Mesur perfformiad er mwyn codi safonau

93. Ar hyn o bryd, bydd carchardai'n cael eu hasesu ar sail eu gallu i gadw carcharorion yn ddiogel, cynnal gweithdrefn ddiogel a derbyniol, ac adsefydlu carcharorion er mwyn lleihau aildroseddu. Ond, y tu ôl i'r penawdau hyn, mae'r darlun yn llai clir. Seilir mesurau perfformiad presennol ar lenwi ffurflenni ac ar gydymffurfio â phrosesau. Nid yw o reidrwydd yn anghywir inni gasglu'r data hynny - mae gwybodaeth reoli'n hanfodol i unrhyw arweinydd ddeall sut mae eu sefydliad yn gweithio ac olrhain effaith newid. Ond mae barnu perfformiad carchar ar sail ei allu i ddilyn proses yn methu'r pwynt - dylem fod yn edrych ar y canlyniadau y maent yn eu sicrhau, nid ar y blychau y maent yn eu ticio.
94. Mae dweud mewn deddfwriaeth yr hyn yr ydym am i'r carchar ei gyflawni, drwy bwrpas statudol, yn gam angenrheidiol ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun i sbarduno'r gwelliannau yr ydym yn awyddus i'w gweld. Dylid dal llywodraethwyr yn atebol am y canlyniadau y byddant yn eu sicrhau wrth wireddu dibenion system y carchardai. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gosod camau perfformiad ar gyfer pob diben ac yn cyhoeddi is-set o'r rhain mewn tabl cynghrair newydd ar gyfer y carchardai. Bydd hyn yn rhoi darlun hawdd ei ddeall i'r cyhoedd weld i ba raddau y mae pob carchar yn llwyddo.
95. Rydym yn sylweddoli nad yw hyn o reidrwydd mor syml ar lefel ymarferol ag y mae'n ymddangos. Mae'r carchardai'n rhan o system gymhleth ehangach lle bydd angen cyfraniadau wedi'u cydlynu gan amrywiaeth o wahanol gyrfi i sicrhau canlyniadau da, gan gynnwys y gwasanaeth prawf, awdurdodau lleol a darparwyr iechyd ac addysg.
96. Yn y blynyddoedd diwethaf, ein hateb i hyn oedd cyfyngu ar gyfrifoldebau llywodraethwyr carchardai a gosod safonau perfformiad ar eu cyfer sy'n canolbwyntio dim ond ar y materion hynny y mae carchardai'n gallu eu cyflawni ar eu pen eu hunain fwy neu lai. Rydym yn dal i gredu na ddylem ddal llywodraethwyr yn atebol am safonau nad oes ganddynt na'r rheolaeth na'r grym i'w cyflawni. Ond yn hytrach na gweld hyn yn rheswm dros grebachu eu rôl, dyma pam y mae'n rhaid inni gryfhau eu sefyllfa, er mwyn iddynt gael awdurdod a chyfarpar newydd i sicrhau bod eu carchar yn llwyddo, gan ddatblygu set o safonau perfformiad i gyd-fynd â hyn.
97. Mae gennym ddata eisoes a fydd yn rhoi cyfle da inni ddeall sut mae carchardai'n ei wneud ar sail y safonau hyn. Serch hynny, rydym yn gwybod hefyd fod lle inni wella ein data perfformiad. Rydym felly'n cynnig datblygu rhagor o ddulliau mesur ar gyfer blynyddoedd y dyfodol a fydd yn rhoi gwell darlun cyffredinol inni o'r perfformiad. Rydym wedi edrych o'r newydd ar y wybodaeth sydd gennym yn awr, a'r potensial y mae hynny'n ei gynnig inni gynllunio set newydd o fesurau sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau rydym am eu gweld.
98. Isod, rydym yn rhestru'r dulliau mesur perfformiad yr ydym am eu defnyddio ar gyfer system y carchardai o 2017/18, ymlaen, er mwyn ambell achos y bydd angen rhagor o amser arnom i ddatblygu dulliau effeithiol.
99. Bydd pob safon yn berthnasol i bob carchar ond nid i'r un graddau: byddai lefel y cynnydd y byddem yn disgwyl ei gweld gan garchar sy'n dal carcharorion dan glo am gyfnod byr iawn ym maes addysg, neu wrth ddefnyddio Rhyddhau dan Drwydded

Dros Dro yn effeithiol er enghraifft yn wahanol i lefel y cynnydd y byddem yn disgwyl ei gweld gan garchar sy'n cadw carcharorion dan ddedfryd hwy. Yn yr un modd, bydd angen rhoi cyfle teg i garchardai gamu ymlaen, ac felly, dim ond carcharorion sydd wedi bod yn y carchar dan sylw am dri mis o leiaf a fydd yn cael eu cynnwys yn y dulliau mesur 'pellter teithio' a restrir isod.

Safon 1: amddiffyn y cyhoedd

Dal carcharorion yn ddiogel yw gwaith craidd carchardai - mae'n amddiffyn y cyhoedd rhag y risg a berir gan droseddwr a dyma sail popeth arall y bydd carchardai'n ei wneud. Felly, mae angen inni fod yn glir ynglŷn ag i ba raddau y mae carchardai'n cyflawni hyn a'u bod yn gwneud popeth yn eu gallu i atal methiannau diogelwch.

Diogelwch y system

Byddwn yn defnyddio nifer y carcharorion sy'n dianc o garchardai caeedig a'r gyfradd sy'n cilio o garchardai agored yn brif dulliau mesur: mae sicrhau bod cyn lleied yn dianc ag sy'n bosibl yn ganolog er mwyn amddiffyn y cyhoedd a chyflawni dedfryd y llys.

Mae rhyddhau dan drwydded dros dro yn caniatáu i garcharorion cymwys gael eu rhyddhau dros dro i wneud gweithgareddau pwrpasol penodol, megis gweithio. Mae hyn yn rhan bwysig o'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau, ond amddiffyn y cyhoedd yw'r peth pwysicaf o hyd. Felly, byddwn yn edrych ar gyfradd cydymffurfio carcharorion sy'n cael eu rhyddhau dan drwydded dros dro yn ogystal ag ar nifer y troseddau a gyflawnir yn ystod y cyfnod hwnnw.

Anaml y bydd carcharorion yn dianc, yn cilio neu'n methu â dychwelyd ar ôl cyfnod rhyddhau dan drwydded dros dro, a hynny'n bennaf am fod gan garchardai brosesau cadarn ar waith i atal hyn. Er mwyn cael darlun llawn a sicrhau bod pob carchar yn gwneud popeth yn ei allu i atal y digwyddiadau difrifol hyn, bydd y fframwaith perfformiad yn cynnwys dulliau mesur ychwanegol, megis cydymffurfio â rhannau allweddol o'r prosesau diogelwch, gan gynnwys chwilio, cudd-wybodaeth, rheoli symudiadau carcharorion a hebryngwyr.

Safon 2: diogelwch pobl a threfn

Mae angen i garchardai fod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel i staff a charcharorion. Digwyddiadau treisgar yw'r broblem amlycaf, ond mae a wnelo hyn hefyd â diwylliant ehangach ac awyrgylch y carchar a'r cymorth y mae'n ei roi i garcharorion agored i niwed.

Diogelwch pobl

Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r dull sy'n mesur cyfradd yr ymosodiadau ar staff carchardai a chyfradd yr ymosodiadau ar garcharorion. Bydd y wybodaeth hon yn help inni hefyd wella sefydlogrwydd a diwylliant ein carchardai gan sicrhau bod yr amgylchedd gweithio'n ddiogel.

Er mwyn monitro llwyddiant strategaeth carchar i ymdrin â charcharorion agored i niwed, byddwn hefyd yn cynnwys cyfradd hunan-niweidio gan garcharorion yn y safonau perfformiad.

Teimlo'n ddiogel

Byddwn yn ategu hyn drwy ddulliau ychwanegol o fesur i ba raddau y mae staff a charcharorion yn teimlo'n ddiogel drwy gyfrwng arolwg ffurfiol er mwyn deall yn well ddiwylliant ac awyrgylch ein carchardai.

Trefn

Bydd cyfradd y digwyddiadau o anrhefn yn ein carchardai (e.e. codi baricêds) yn rhoi darlun inni o lefelau'r rheolaeth a'r drefn sydd ar waith mewn carchardai.

Safon 3: diwygio

Er mwyn diwygio troseddwr, mae angen inni fod yn siŵr eu bod yn cael y gwasanaethau a'r cyfleoedd iawn ar draws y gwahanol feysydd y gwyddom eu bod yn cefnogi adsefydlu ac yn helpu i atal pobl rhag dychwelyd at droseddu.

Iechyd a chamddefnyddio sylweddau

Rydym yn awyddus i ostwng lefel defnyddio cyffuriau mewn carchardai. Felly, byddwn yn datblygu ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, ddull mesur i olrhain 'y pellter a deithiwyd' gan droseddwr sy'n camddefnyddio sylweddau, drwy brofi am gyffuriau pan fyddant yn cyrraedd y carchar ac wrth iddynt ymadael. Byddwn yn disgwyl gweld rhagor o gynnydd ymhlith y rheini sy'n bwrw dedfrydau hwy.

Yn y cyfamser, byddwn yn cynnwys yn fesur gyfradd y profion cyffuriau cadarnhaol ar gyfartaledd.

Er mwyn sicrhau bod modd dal llywodraethwyr yn atebol am sicrhau bod carcharorion yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd, bydd y safonau perfformiad yn cynnwys nifer yr apwyntiadau meddygol sy'n cael eu canslo oherwydd nad yw carcharorion ar gael.

Ym mlynnyddoedd y dyfodol, byddwn yn datblygu rhagor o ddulliau i fesur y gwaith y bydd pob carchar yn ei wneud i wella iechyd carcharorion. Byddwn hefyd yn gweithio gyda GIG Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mesurir canlyniadau iechyd meddwl a byddwn yn defnyddio hyn i ddatblygu dull o fesur i 'pellter a deithiwyd' ar gyfer iechyd meddwl carcharorion.

Gwaith

Er mwyn helpu carchardai i ddarparu trefniadau llawn a phwrpasol, bydd y fframwaith yn cynnwys nifer yr oriau a weithir mewn diwydiant.

Rydym yn sylweddoli bod angen inni ddatblygu asesiad mwy crwn o sut mae pob carchar yn darparu trefniadau llawn a phwrpasol. I ddechrau, byddwn yn datblygu dull i fesur ansawdd y cyfleoedd gwaith a gynigir gan garchardai. Ym mlynnyddoedd y dyfodol, bwriadwn fesur a chyhoeddi faint o amser y bydd carcharorion yn ei dreulio y tu allan i'w celloedd, gan gynnwys yr amser y byddant yn ei dreulio y tu allan i'w celloedd yn gwneud gweithgareddau pwrpasol.

Addysg

Er mwyn gwella mynediad carcharorion at addysg a hyfforddiant ac i'w helpu i ddod o hyd i waith pan gânt eu rhyddhau, byddwn yn cymharu eu cyrhaeddiad yn Saesneg a mathemateg adeg eu rhyddhau â'u cyrhaeddiad ar ddechrau eu cyfnod dan glo a byddwn yn edrych ar nifer y cymwysterau, neu'r cysiau a'r achrediadau eraill sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth y bydd y carcharorion yn eu cwblhau.

Yn y dyfodol, byddwn yn gwella'r dull a ddefnyddiwn i fesur addysg a hyfforddiant drwy ddatblygu camau sy'n asesu cynnydd carcharor ar sail cerrig milltir ar eu llwybr dysgu unigol.

Teuluoedd.

Er mwyn helpu carcharorion i gynnal eu cysylltiadau â'r gymuned, byddwn yn gweithio i ddatblygu dull i fesur ansawdd y berthynas rhwng y carcharor ac aelodau'r teulu.

Safon 4: paratoi ar gyfer bywyd ar ôl y carchar

Mae angen i garchardai helpu carcharorion i baratoi ar gyfer eu rhyddhau, gan gydweithio â'r gwasanaeth prawf a gwasanaethau eraill sy'n eu helpu i groesi trothwy gât y carchar.

Gwaith

Byddwn yn mesur cyfradd y carcharorion mewn gwaith ar ôl eu rhyddhau o'u cymharu â chyn iddynt gael eu carcharu, er mwyn inni weld faint o droseddwyr sy'n dechrau gweithio'n amser llawn neu'n rhan-amser ar ôl ymadael â'r carchar.

Tai

Byddwn yn edrych ar gyfradd y carcharorion sydd mewn llety addas ar ôl eu rhyddhau o'u cymharu â chyn iddynt gael eu carcharu, er mwyn inni allu defnyddio'r wybodaeth honno i gynyddu nifer y troseddwyr sydd â rhywle i fyw ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ac er mwyn inni olrhain eu cynnydd.

Addysg

Yn yr un modd, bydd cyfradd y carcharorion sydd mewn addysg amser llawn neu ran-amser ar ôl eu rhyddhau o'u cymharu â phan gawsant eu carcharu'n dangos inni sut rydym wedi gwella gallu carcharorion i fanteisio ar addysg.

100. Bwriadwn gynnwys pob un o'r camau hyn yng nghytundebau perfformiad carchardai gan bennu safonau penodol ar gyfer pob carchar. Bydd hyn yn ystyried sefyllfa benodol pob carchar ac felly'n caniatáu inni ddal llywodraethwyr yn atebol mewn ffordd deg.
101. Mae angen inni hefyd sicrhau bod y perfformiad yn haws ei ddeall i'r rheini nad ydynt yn uniongyrchol gyfrifol am y system. Er mwyn gwneud hynny, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r safonau perfformiad pwysicaf mewn tabl cynghrair newydd i'r carchardai er mwyn gallu gweld yn gyflym ac yn rhwydd i ba raddau y mae pob carchar yn llwyddo.

Tabl Cynghrais Carchardai - dulliau mesur

1. Amddiffyn y cyhoedd (dangosydd - nifer sy'n dianc)
2. Diogelwch a threfn (dangosyddion - ymosodiadau ar staff; ymosodiadau ar garcharorion; hunan-niweidio)
3. Cynnydd o ran addysg (dangosyddion - i ba raddau mae Saesneg a mathemateg wedi gwella rhwng dechrau'r cyfnod yn y carchar a'u rhyddhau)
4. Cynnydd o ran iechyd (dangosyddion - profion wrth gyrraedd ac wrth ymadael (ym mlynnyddoedd y dyfodol) a chyfradd canlyniadau cadarnhaol hapbrofion cyffuriau ar gyfartaledd)
5. Cynnydd o ran gwaith (dangosyddion - cyfradd y carcharorion mewn gwaith wrth gyrraedd ac wrth ymadael)
6. Amser a dreulir y tu allan i'r gell

102. Bydd y diwygiadau hyn yn golygu y gallwn ddal carchardai'n atebol am yr hyn sy'n cyfri, gan alluogi rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol, megis Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn yr un modd, i ddal carchardai'n atebol a chydweithio â hwy i wella canlyniadau.

Pennod 4: Grymuso llywodraethwyr

Pan fydd arweinwyr ein carchardai'n gwybod yn glir pa safonau y mae angen iddynt eu cyflawni, bydd angen y dulliau cyflawni, y rheolaeth a'r awdurdod i benderfynu arnynt er mwyn iddynt allu gwireddu hyn. Rydym yn awyddus i lywodraethwyr gael y pŵer a'r gyllideb i benderfynu sut mae eu carchardai'n cael eu rhedeg, gan gynnwys sut mae blaenoriaethu a darparu gwasanaethau yn eu carchardai.

Nid yw hynny bob tro'n wir ar hyn o bryd. Mae gennym lawer o arweinwyr hynod abl yn gweithio yn ein carchardai eisoes. Ond, er mwyn bod yn arweinwyr effeithiol, mae angen iddynt gael y rheolaeth a'r awdurdod i bennu cyfeiriad eu sefydliadau. Ar hyn o bryd, maent yn cael eu llesteirio gan system sy'n hynod gymhleth a chanolog. Mae degau o filoedd o dudalennau o gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â phob agwedd y gellir ei dychmygu ar fywyd yn y carchar. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau'r carchardai weithiau'n cael eu cydlynu'n wael, ac yn aml yn cael eu cynllunio a'u comisiynu ar lefel uwch na'r sefydliad ei hun. Nid oes gan y llywodraethwyr y dulliau cyflawni sydd eu hangen arnynt i integreiddio'r rhain er mwyn i garcharorion gael y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn:

- byddwn yn adeiladu ar sail ein carchardai diwygio newydd drwy ledaenu rhagor o rymuso ar draws yr ystâd gyfan;
- byddwn yn rhoi'r llywodraethwr yng nghanol pob gwasanaeth yn y carchar drwy ddatganoli cyllidebau a rheolaeth, a thrwy roi'r dulliau cyflawni sydd eu hangen arnynt i ddal darparwyr eraill yn atebol.

103. Yn gynharach eleni, dechreuwyd treial a oedd yn rhoi awdurdod sylweddol gryfach i lywodraethwyr mewn chwe carchar diwygio:

- CEM Wandsworth, carchar mawr, lleol yn ne-orllewin Llundain a godwyd yn oes Victoria. Mae lle i 1,628 o ddynion yno, a chyn bo hir bydd yn cael rôl newydd fel carchar derbyn. Ian Bickers yw'r Llywodraethwr Gweithredol;
- CEM Holme House: carchar lleol mawr yn Stockton-on-Tees a godwyd yn 1992. Mae lle i 1,210 o ddynion yno a bydd hwn yn cael rôl newydd cyn bo hir fel carchar hyfforddi Categori C gyda dynion sy'n bwrw dedfrydau hwy na 4 blynedd, rhai troseddwy'r rhyw a rhai dynion sy'n bwrw dedfrydau byr. Ian Blakeman yw'r Llywodraethwr Gweithredol;
- CEM Kirklevington Grange: carchar Categori D yn Yarm, Stockton-on-Tees â lle i 283. Ian Blakeman yw'r Llywodraethwr Gweithredol;
- CEM Coldingley: carchar diwydiannol canolig ei faint yn Surrey sydd â phoblogaeth categori C tymor hir o 512 o ddynion. Fe'i codwyd yn 1968. Nick Pascoe yw'r Llywodraethwr Gweithredol;
- CEM High Down: carchar mawr yn Surrey a godwyd yn 1992 â lle i 1,203 o ddynion. Bydd yn cael rôl newydd cyn bo hir fel carchar Categori C i ddynion sy'n bwrw dedfryd tymor canol neu dymor hir. Nick Pascoe yw'r Llywodraethwr Gweithredol;

- CEM Ranby: carchar diwydiannol Categori C mawr yn Swydd Nottingham. Fe'i codwyd yn 1972 ac mae yno le i 1,038 o ddynion a'r rhan fwyaf ohonynt yn bwrw dedfryd hwy. Neil Richards yw'r Llywodraethwr Gweithredol.
104. Rydym yn gweld y carchardai hyn a'u llywodraethwyr gweithredol yn arwain y newidiadau rydym yn awyddus i'w gwneud yn system y carchardai. Dyma'r arloeswyr ar gyfer diwygio carcharorion a'u cadw'n ddiogel dan arweiniad y llywodraethwr. Mae llywodraethwyr gweithredol y carchardai diwygio'n deall yn glir y canlyniadau y mae angen iddynt eu sicrhau, ac maent wedi'u grymuso i benderfynu sut mae gwneud hynny. Mae ganddynt awdurdod gweithredol ac ariannol digynsail:
- i wario cyllidebau'n fwy hyblyg er mwyn blaenoriaethu'r materion sydd o bwys yn eu carchar penodol;
 - i gynllunio strategaethau newydd ar gyfer recriwtio, rheoli, datblygu a chydhabod staff er mwyn denu'r bobl iawn a'u cadw;
 - i reoli staff yn fwy hyblyg er mwyn cynyddu'r nifer ar y rheng flaen a gwella diogelwch, gwarchodaeth ac adsefydlu;
 - i benderfynu pa nwyddau a gwasanaethau y maent yn eu prynu'n lleol a phwy sy'n eu cyflenwi;
 - i benderfynu pwy fydd yn bartneriaid iddynt a pha wasanaethau y byddant yn eu comisiynu.
105. Dyma'r newid rydym am ei sicrhau ym mhob un o'n carchardai. Byddwn yn dysgu yn sgil yr hyn mae'r carchardai diwygio'n ei wneud ac yn rhoi hyn ar waith yng ngweddill yr ystâd, gan roi rhagor o awdurdod i'r llywodraethwyr benderfynu wrth iddynt feithrin gallu yn eu carchardai. Mae dau o'r llywodraethwyr gweithredol yn gyfrifol am fwy nag un carchar. Byddwn yn ystyried pa fanteision sydd gan y model clystyru hwn i'w cynnig a beth yw'r maint gorau, gan gynnwys a ddylid symud tuag at drefn glystyru wrth reoli ystâd y carchardai yn y tymor hwy. Byddwn hefyd yn edrych yn ofalus i weld i ba raddau y mae'r llywodraethwyr hyn wedi gallu pennu eu strategaeth eu hunain ar gyfer y gweithlu a'i rhoi ar waith, a oes modd gwneud hynny o fewn y strwythurau presennol ynteu a oes gofyn newid pethau er mwyn creu carchardai'n endidau cyfreithiol unigol ar wahân

Rhoi'r pŵer i lywodraethwyr gyflawni

106. Mae angen rhoi digon o awdurdod i unrhyw arweinydd wneud penderfyniadau am y pethau sy'n bwysig yn eu barn hwy. Nid ydym yn credu bod hyn yn wir am sefyllfa llywodraethwyr carchardai ar hyn o bryd. Maent yn gorfod cydymffurfio â nifer eithriadol o ofynion a rheolaeth lem dros yr hyn y gallant a'r hyn na allant ei wneud, ac mae eu disgrisiwn i dargedu adnoddau at y pethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w carcharorion wedi'i gyfyngu'n llym. Rydym am newid hyn o'i gwr.
107. Mae'n hanfodol sicrhau arweiniad, cydlynu a chanllawiau cenedlaethol mewn ambell faes, megis diogelwch a chasglu cudd-wybodaeth, rheoli risg, sylwi ar unrhyw dueddiadau cenedlaethol sy'n datblygu ac ymateb iddynt yn gyflym, a chreu cysylltiadau rhwng patrymau mewn gwahanol garchardai. Mae rheoli'r materion trawsbynciol hyn fel hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar draws yr ystâd gyfan. Serch hynny, llywodraethwyr sydd yn y sefyllfa orau i reoli amgylchiadau eu

carchar a'r troseddwyr sydd ynddo, a dylent gael llawer mwy o reolaeth dros sut y byddant yn diwygio'r troseddwyr yn eu carchar.

108. Bydd carchardai bob tro'n sefydliadau cymhleth sydd ag ystod o ddarparwyr yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau arbenigol gwahanol. Bydd gan droseddwyr broblemau aciwt iawn dros amrywiaeth o'r gwasanaethau hyn sy'n golygu bod gofyn cydlynu a threfnu dilyniant yn ofalus. I gydnabod hyn, bydd rôl y llywodraethwyr weithiau'n cael ei gweld yn rôl intregreiddiwr systemau - rhywun sy'n gallu sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd gydlynol er mwyn iddynt fod yn fwy na chyfanswm eu rhannau.
109. Serch hynny, nid ydym yn rhoi'r arfau i lywodraethwyr sydd eu hangen arnynt er mwyn ysgwyddo'r rôl hon ac mae'r hyn sy'n cael ei gyflawni'n brin o'r nod:
 - ni ddarperir gwasanaethau ac ymyraethau bob tro yn y drefn fwyaf effeithiol (weithiau nid oes trefn fwriadol o gwbl);
 - bydd gwahanol ddarparwyr gwasanaethau'n aml yn cystadlu am yr un carcharorion oherwydd bod cymhellion yn cael eu cam-gysoni, neu maent yn darparu gwasanaethau sy'n debygol o roi hwb i'w perfformiad yn hytrach na diwallu anghenion y carcharor;
 - nid yw'r gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio ag agweddau eraill yn y carchar ac felly bydd carcharorion yn colli apwyntiadau neu hyfforddiant, neu byddant yn cael eu symud hanner ffordd drwy gwrs.
110. Ar gyfer y safonau y byddem yn hoffi i garchardai eu cyflawni, rydym wedi ystyried yn ofalus ymhle a sut y dylid darparu gwahanol swyddogaethau. Yn aml iawn, bydd hyn ar lefel y carchar unigol a'i lywodraethwyr ond rydym yn glir y dylai'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd fod ar yr un lefel ac mai'r lefel honno yw'r lefel lle maent fwyaf defnyddiol o safbwynt gweithredol. Mewn achosion eraill, efallai y byddai'n iawn cadw rhai o'r cyfrifoldebau neu'r cyfrifoldebau i gyd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.
111. Bydd angen amser i'r newidiadau fwrw gwreiddiau ac er mwyn meithrin gallu yn y system i wireddu'r manteision yn llawn. Dyma sut yr ydym yn rhagweld y caiff y newidiadau eu cyflwyno fesul cam.

O fis Ebrill 2017 ymlaen, byddwn yn rhoi rhagor o awdurdod i lywodraethwyr yn y meysydd a ganlyn:

- **Rhaglenni achrededig:** bydd llywodraethwyr yn cael dewis pa raglenni i'w darparu ar gyfer carcharorion i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Gallant ganolbwyntio ar y rheini sydd yn fwyaf addas ar gyfer y mathau o droseddwyr sydd yn eu carchar, gan seilio hynny ar y sail dystiolaeth genedlaethol well;
- **Iechyd:** byddwn yn symud at ymagwedd ar y cyd tuag at gomisiynu gwasanaethau iechyd yn Lloegr, lle bydd y llywodraethwyr yn rhan o'r broses benderfynu yn ystod pob cam o'r cylch comisiynu ochr yn ochr â chomisiynwyr lleol y GIG;
- **Gwaith:** bydd llywodraethwyr yn cael datblygu cysylltiadau masnachol lleol i gynnig cyfleoedd gwaith ystyrion i garcharorion. Byddant yn gallu ail-fuddsoddi'r incwm a gynhyrchir ganddynt i ddarparu gwasanaethau ychwanegol neu i ddatblygu eu cynnig ym maes cyflogaeth;

- Staff: bydd llywodraethwyr yn cael cynllunio'u strwythur staffio o'i gwr a chyflogi'r tîm uwch arweinwyr, swyddogion ac arbenigwyr sydd â'r sgiliau y mae eu hangen ar y carchar yn eu barn hwy;
- Cyllidebau: bydd llywodraethwyr yn penderfynu sut i wario'u harian yn hytrach na chael cyllidebau penodol ar gyfer gwahanol bethau, a chyfyngiadau tynn ar sut i'w gwario;
- Fframwaith gweithredu: bydd llywodraethwyr yn gallu cyflwyno polisiau gweithredol sy'n gweddu i'r carchar, cyn belled â'u bod yn cyflawni'r gofynion cenedlaethol sylfaenol, yn hytrach na gorfod cydymffurfio'n gaeth â channoedd o gyfarwyddiadau manwl.

Yn ystod 2017 a 2018:

- Addysg: byddwn yn rhoi'r gyllideb a'r cyfrifoldeb dros addysg i lywodraethwyr ar ôl i'r contractau cyfredol ddod i ben er mwyn iddynt drawsnewid y ddarpariaeth addysg drwyddi draw.
- Cysylltiadau â'r teulu: byddwn yn rhoi'r gyllideb i lywodraethwyr a'r cyfrifoldeb dros wasanaethau i deuluoedd er mwyn i garcharorion allu meithrin a chynnal cysylltiadau â'u teulu;
- Ailsefydlu: byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau prawf yn gorfod cyflawni'r un canlyniadau â charchardai;
- Contractau: byddwn yn adolygu contractau cenedlaethol wrth iddynt ddod i ben, er mwyn asesu a ddylem ddatganoli'r cyfrifoldeb i lywodraethwyr neu (lle byddwn yn parhau â'r drefn genedlaethol) yn rhoi mwy o hyblygrwydd i lywodraethwyr brynu'r gwasanaethau o fannau eraill os dyna yw eu dewis.

112. Ym Mhennod 3 edrychwyd ar ba safonau yr ydym yn disgwyl i garchardai fod yn gweithio tuag atynt mewn pedwar prif faes: amddiffyn y cyhoedd, diogelwch a threfn, diwygio ac ailsefydlu. Mae'r bennod hon yn rhestru'r cynigion ar gyfer rhoi'r awdurdod i lywodraethwyr benderfynu sut mae cyflawni'r safonau hynny yn eu carchar.

Amddiffyn y cyhoedd

113. Ni all carchardai fod yn fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio oni fyddant yn effeithiol o ran atal carcharorion rhag dianc neu gilio, ac o ran rhwystro deunyddiau gwaharddedig neu niweidiol rhag dod i mewn i'r carchar.

114. Mae llawer o agweddau ar ddiogelwch ein carchardai a fydd yn dal i elwa o arweiniad cenedlaethol. Mae angen sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd strategol sydd wedi'i chydlynu'n dda er mwyn mynd i'r afael â bygythiadau wrth iddynt godi ac er mwyn i garchardai ymateb i'r heriau hyn. Mae angen hefyd inni rannu gwybodaeth yn gyson drwy'r ystâd. Ond mewn rhai meysydd, dylem ddisgwyl i lywodraethwyr arwain: er enghraifft drwy ddatblygu cysylltiadau cryf â'u heddlu lleol ac â Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac â rhanbarth lleol Gwasanaeth Erlyn y Goron, er mwyn sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig at ganfod ac erlyn troseddau mewn carchardai. Yn yr un modd, mae swyddogaethau ym maes cudd-wybodaeth a chwilio yn enghreifftiau o gyfrifoldebau lle y bydd angen i

lywodraethwyr arwain yn lleol gyda chymorth y seilwaith rhanbarthol a chenedlaethol cywir.

115. Fel y sonnir yn fanylach ym mhennod 5, byddwn yn symud tuag at system guddwybodaeth a diogelwch haenog lle y byddwn yn grymuso llywodraethwyr i fynd i'r afael ag achosion bygythiadau diogelwch yn lleol, drwy roi rhagor o allu iddynt chwilio. Ond, ar yr un pryd, byddwn yn hybu ein seilwaith rhanbarthol a chenedlaethol (er enghraifft, drwy gynyddu ein gallu cenedlaethol ym maes cuddwybodaeth a chreu uned newydd ar y cyd â'r Swyddfa Gartref er mwyn mynd i'r afael â radicaleiddio ac eithafiaeth).

Diogelwch a threfn

116. Mae sicrhau llai o ymosodiadau, hunan-niweidio a hunanladdiadau yn ein carchardai'n hanfodol er mwyn creu ystâd fwy sefydlog, lle bydd gan staff a charcharorion yr amser a'r lle i feddwl er mwyn mynd i'r afael ag achosion aildroseddu. I wneud hyn, byddwn yn trosglwyddo'r atebolrwydd am reoli pawb ac eithrio'r carcharorion sy'n bwrw dedfryd fer i'r llywodraethwyr, ac ochr yn ochr â hynny, byddwn yn rhoi'r lefelau iawn o adnoddau iddynt gynnal model newydd lle y gall swyddogion dynodedig helpu a herio llwyth achos o garcharorion. Gwyddom mai rheoli troseddwy fel hyn, ar lefel leol, a rhoi cymorth unigol wedi'i dargedu iddynt i fynd i'r afael â'u hymddygiad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau trais yn ein carchardai.
117. Ym Mhennod 5, rydym yn dweud sut y byddwn yn symud at y model hwn mewn 10 carchar ar unwaith, cyn lledaenu'r drefn yn ehangach i'r carchardai sy'n weddill erbyn diwedd 2018.

Diwygio

Agweddau ac ymddygiad

118. Gwyddom fod ymyraethau i fynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad yn gallu bod yn bwysig i helpu i ddiwygio carcharorion, felly mae nifer o raglenni cenedlaethol wedi'u datblygu a'u hachredu. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cael eu comisiynu'n ganolog. Er y bydd angen rhywfaint o oruchwyliaeth ar draws y system o hyd, credwn y dylai llywodraethwyr ddewis pa raglenni rheoli ymddygiad i'w darparu yn eu carchar a faint i'w wario arnynt. Bydd llywodraethwyr, wrth gwrs, yn gallu parhau i ddefnyddio rhaglenni achrededig yn unol â'r dystiolaeth. Byddant hefyd yn gallu defnyddio'r sail dystiolaeth bresennol ynglŷn â'r hyn sy'n llwyddiannus i bwy, pa bryd a sut, gan weithio yn y dyfodol gydag adnodd 'Yr Hyn sy'n Gweithio' (a ddisgrifir ym Mhennod 2) i gynllunio a chreu eu rhaglenni eu hunain i ddiwallu anghenion penodol eu carchar. Byddwn yn datganoli'r gyllideb ar gyfer y rhaglenni hyn a'r cyfrifoldeb drostynt ym mis Ebrill 2017.

Addysg

119. Mae addysg yn rhan bwysig o wneud ein carchardai'n fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio. Mae ein gwasanaethau addysg presennol, a ddarperir gan golegau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant, wedi cymryd y camau cychwynol pwysig tuag at wella'r ddarpariaeth. Serch hynny, fel y dywedodd y Fonesig Sally Coates yn ei hadolygiad diweddar, a hynny'n gwbl gywir, gellid gwneud llawer mwy. Mae tri o bob pump carcharor yn ymadael â'r carchar heb ganlyniad amlwg o ran gwaith, addysg na hyfforddiant. Mae cyfanswm nifer y

carcharorion sy'n cymryd rhan mewn dysgu wedi cynyddu'n gyson er 2010, ond nid oes fawr o newid wedi bod yn y nifer sy'n dysgu mathemateg a Saesneg - pynciau y mae angen iddynt fod wrth graidd addysg yn y carchar i lawer o droseddwy.

120. Rydym yn cytuno bod gwella lefelau addysg yn nod pwysig i droseddwy ac yn sylweddoli y bydd hyn yn wahanol i wahanol garcharorion ac mewn gwahanol garchardai. Er mwyn sicrhau cynnydd cyflym, rydym eisoes wedi cael gwared ar reolau a threfniadau llywodraethu diangen o'n contractau addysg er mwyn rhoi mwy o rym goruchwyllo a mwy o reolaeth i lywodraethwyr dros y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Yn awr, bwriadwn fynd gam ymhellach. Byddwn yn rhoi'r argymhellion a ganlyn o adolygiad Coates ar waith, ac yn egluro ein cynlluniau ar gyfer sut y bwriadwn gyflawni hyn mewn strategaeth addysg fanwl y flwyddyn nesaf:
- byddwn yn gwneud llywodraethwyr y carchar yn llwyr gyfrifol am y ddarpariaeth addysg eu carchardai ar ôl i'r contractau presennol ddod i ben, gan gomisiynu'r gwasanaethau sydd yn eu barn hwy fwyaf priodol ar gyfer eu carchar hwy. Mae hyn yn golygu y bydd llywodraethwyr yn gallu penderfynu sut mae strwythuro'u trefn addysgu, sut mae'n cydweddu ac yn cael ei hintegreiddio â threfn gwasanaethau eraill, pwy sy'n ei darparu, a sut mae gwario'r gyllideb hon a hefyd gyllidebau cysylltiedig eraill, megis y gyllideb ar gyfer gwasanaethau llyfrgell. Gallai hyn wneud gwahaniaeth mawr. Rydym eisoes wedi gwneud hyn mewn chwe carchar diwygio;
 - byddwn yn asesu anghenion addysg pob carcharor pan fydd yn cyrraedd y carchar er mwyn creu cynllun dysgu personol fel rhan o'i gynllun dedfrydu;
 - byddwn yn cyflwyno cwricwlwm cyffredin craidd ar draws yr ystâd, sy'n canolbwyntio ar fathemateg a Saesneg, a byddwn yn ceisio defnyddio'r un cyrff dyfarnu ar gyfer mathau penodol o ddarpariaeth er mwyn i'r rheini sy'n dechrau cwrs mewn un carchar allu bancio'u cynnydd ac adeiladu arno os byddant yn symud i rywle arall;
 - bydd llywodraethwyr yn cael eu hannog i gydweithio â chyflogwyr lleol a defnyddio data am fylchau yn y farchnad lafur leol i ddewis yr hyfforddiant galwedigaethol cywir i helpu troseddwy i gael gwaith, gan gynnwys defnyddio rhyddhau dan drwydded dros dro yn well;
 - byddwn yn herio pob corff sy'n gweithio gyda charcharorion dan glo i gynnig cyfleoedd i garcharorion ar ôl eu rhyddhau, boed hynny'n ymarfer ar gyfer cyfweliadau ynteu'n brofiad gwaith os nad oes modd iddynt gynnig swydd lawn. Byddwn hefyd yn rhyddhau llywodraethwyr i ailgynllunio'r ffordd y bydd y gwasanaeth prawf, Anogwyr Gwaith Carchar a chynghorwyr y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol yn cydweithio er mwyn galluogi troseddwy sy'n dymuno parhau ag addysg neu hyfforddiant i wneud hynny; a
 - byddwn yn sicrhau bod gan y rheini sy'n darparu addysg mewn carchardai y sgiliau a'r galluoedd iawn i wneud hynny. Rydym wedi gofyn i'r Sefydliad Addysg a Hyfforddiant edrych ar anghenion datblygu tymor hwy y gweithlu addysg a hyfforddiant ac i gynnig argymhellion.
121. Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i garchardai yn Lloegr. Mae addysg yng Nghymru wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru, ac fe ystyrir y trefniadau ar gyfer Cymru'n ddiweddarach yn y bennod hon.

Iechyd

122. Dylai gofal iechyd a thriniaeth a ddarperir yn y carchar fod gystal o ran ansawdd a safon â'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Mewn llawer o achosion, bydd gan droseddwyr anghenion gofal iechyd sy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â'u troseddu. Mae camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl yn arbennig o berthnasol yn y cyswllt hwn. Mae cysylltiadau clir, er enghraifft, rhwng dibyniaeth ar opiadau ac aildroseddu, a rhwng seicopathi ac aildroseddu treisgar o fathau penodol. Mewn arolwg ymhlith carcharorion a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gwelwyd bod 64% o droseddwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio cyffuriau Dosbarth A ar ryw adeg, o'u cymharu ag 14% o'r boblogaeth yn gyffredinol; gwelwyd bod 49% yn dioddef o bryder a/neu iselder. Bydd gan rai carcharorion anghenion iechyd penodol oherwydd eu cefndir (er enghraifft, rhai cyn aelodau o'r lluoedd arfog).
123. Byddwn yn edrych sut y gallwn wella iechyd meddwl a lles pobl ym mhob rhan o'r ystâd i ddynion, menywod a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a'r triniaethau cywir yn cael eu cynnig. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod pob carchar yn cynnig llwybrau adfer effeithiol i garcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn rhestru ein hymagwedd lawn at fynd i'r afael â phroblem cyffuriau mewn carchardai dros y misoedd nesaf ond mae angen inni wneud hyn yng nghyd-destun diwygiadau ehangach i ofal iechyd mewn carchardai i roi rhagor o reolaeth i lywodraethwyr.
124. Ac ystyried natur arbenigol y ddarpariaeth gofal iechyd, er 2003, mae'r cyfrifoldeb dros bolisi a darparu gofal iechyd mewn carchardai yn Lloegr wedi bod ar ysgwyddau'r Adran Iechyd a'i hasiantaethau darparu, NHS England a Public Health England. Mae hyn yn unol â'r arferion rhyngwladol gorau, ac nid ydym yn bwriadu newid hyn. Serch hynny, er mwyn darparu gofal iechyd o safon i bobl yn y carchar, mae gofyn arddel 'ymagwedd carchar cyfan' ac angen i lywodraethwyr gydweithio'n agosach ac yn fwy effeithiol â chomisiynwyr a darparwyr gofal iechyd ac â'r maes iechyd cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn diwallu anghenion y boblogaeth yn eu carchardai. Er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn dechrau cyflwyno dull comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau iechyd ym mhob carchar yn Lloegr ym mis Ebrill 2017. Comisiynwyr a darparwyr iechyd fydd yn statudol gyfrifol am benderfyniadau cyllidebol a chlinigol o hyd a hwy hefyd fydd yn atebol am ansawdd y gwasanaeth. Bydd llywodraethwyr yn ysgwyddo'r cydgyfrifoldeb yn ystod pob cam o'r cylch comisiynu gan ddefnyddio'r un dulliau:
- i asesu anghenion iechyd;
 - i gydgyllunio manylebau gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar ganllawiau seiliedig ar dystiolaeth NICE ac asesu anghenion lleol, a'r rheini wedi'u cydgyllunio a'u cyd-gymeradwyo;
 - i benodi darparwyr iechyd, ar ôl proses dendro agored, gan gytuno ar hynny a'i gymeradwyo ar y cyd ;
 - i ysgwyddo rôl allweddol wrth reoli perfformiad ac ansawdd gwasanaethau, a gallu manteisio ar y wybodaeth gywir a fydd yn gefn i hyn.
125. Mae'r dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gan rai llywodraethwyr arloesol. Yng ngharchar diwygio CEM Coldingley, mae'r llywodraethwr gweithredol a'i uwch dîm wedi cydawdura dogfennau Gwahoddiad i Dendro ac maent yn aelodau allweddol

o'r panel gwerthuso. Yn CEM Wandsworth, mae nifer o grwpiau prosiect ar y cyd wedi'u sefydlu i lywio model newydd ar gyfer darparu gofal iechyd.

126. Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i garchardai yn Lloegr. Mae iechyd yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ac fe ystyrir y trefniadau ar gyfer Cymru'n ddiweddarach yn y bennod hon.

Plant a theuluoedd

127. Wrth wneud gwaith ymchwil, gwelwyd bod carcharorion sy'n dweud bod eu cysylltiad â'u teulu wedi gwella'n llai tebygol o lawer o aildroseddu neu o ddefnyddio cyffuriau dosbarth A pan gânt eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r gwasanaethau wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf ac mae gan lawer o garchardai lwybr i deuluoedd sydd wedi'i ddatblygu'n glir lle byddant yn cynnwys teuluoedd fel partner cynhyrchiol er mwyn helpu i leihau aildroseddu. Serch hynny, nid yw'r arfer da hwn yn digwydd ym mhobman.
128. Mae'r Arglwydd Farmer, gan gydweithio â Clinks, wedi cael ei gomisiynu i adeiladu ar y cynnydd hwn ac mae'n cadeirio gweithgor i ymchwilio i sut y gellir helpu dynion yn y carchar yng Nghymru a Lloegr i gadw cysylltiad â'u teuluoedd a thrwy hynny leihau aildroseddu a helpu i fynd i'r afael â throsglwyddo'r arfer o droseddu o genhedlaeth i genhedlaeth.
129. Rydym yn awyddus i weld llywodraethwyr yn cael eu dal yn atebol am y wasanaethau'r carchar i deuluoedd, a bod y dulliau cyflawni ar gael iddynt newid y ddarpariaeth bresennol. O hydref 2017 ymlaen, byddwn yn datganoli'r cyllidebau ar gyfer y gwasanaeth i deuluoedd i lywodraethwyr er mwyn iddynt allu bod yn hyblyg wrth ddyrannu adnoddau ac o ran sut y cânt eu gwario. Ar hyn o bryd, mae'r arian ar gyfer darparu gwasanaethau i deuluoedd wedi'i ddsbarthu'n anwastad, felly rydym yn cynnig aiddosbarthu'r arian mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n well.
130. Cyn hynny, rydym wrthi'n ail-gaffael contractau er mwyn i lywodraethwyr gael yr hyblygrwydd a'r dewis mwyaf posibl wrth roi gwasanaethau ar waith a fyddai'n diwallu anghenion eu carcharorion orau.

Paratoi ar gyfer bywyd ar ôl rhyddhau

Gwaith mewn carchardai ac yn y gymuned

131. Mae carchardai wedi chwarae rhan bwysig erioed yn darparu gweithgareddau gwaith i helpu carcharorion i baratoi ar gyfer eu rhyddhau ac i feithrin agwedd gadarnhaol at fyd gwaith. Gwyddom fod carcharorion sydd mewn gwaith cyn iddynt fynd i'r carchar neu wedyn yn llai tebygol o aildroseddu. Eto i gyd, mae llawer o droseddwr nad oes ganddynt fawr ddim profiad o fyd gwaith na sgiliau i'w cynnig i'r farchnad. Mae angen inni baratoi troseddwr ar gyfer gwaith ystyrllon ar ôl eu rhyddhau er mwyn iddynt allu cyfrannu'n effeithiol at y gymdeithas a chwalu'r cylch aildroseddu.
132. Mae angen inni fod yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth fanwl ar gyfer cyflogi carcharorion a fydd yn cynnig dull modern sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Byddwn yn ei gyflwyno yn 2017 gan egluro'n llawn sut y byddwn yn sicrhau'r newid y mae angen inni ei weld.

133. Mae rhywfaint o arferion da y gallwn adeiladu ar eu sail. Drwy ein gwaith mewn carchardai, byddwn eisoes yn darparu newyddau a gwasanaethau i'r canlynol:
- ein marchnad fewnol;
 - adrannau eraill y llywodraeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn benodol. Mae hyn yn rhoi profiad gwaith i garcharorion, ac mae arian y trethdalwyr yn cael ei gadw yn y pwrs cyhoeddus;
 - cyrff masnachol. Rydym yn cysylltu â marchnadoedd newydd ac yn gweithio gyda chwmnïau mewn ffyrdd newydd. Enghraifft dda o hyn yw canolfannau galw, sy'n cysylltu troseddwy'r â chyfleoedd i gael gwaith yn y gymuned lle mae galw mawr am staff. Er enghraifft, mae Census Data, sy'n cynnal canolfan alwadau mewn saith o garchardai, wedi recriwtio 75 o garcharorion ar ôl eu rhyddhau.
134. Er bod ein carchardai'n cynnig profiad gwerthfawr i garcharorion o'r gofynion sylfaenol megis dod i'r gwaith bob dydd, bod yn brydlon, a darparu gwasanaethau a chynnyrch o safon uchel mewn pryd sy'n diwallu disgwyliadau'r cwsmer, mae gormod o'r gwaith a'r hyfforddiant y byddwn yn ei ddarparu mewn carchardai'n perthyn i'r oes o'r blaen ac nid yw'n berthnasol i anghenion marchnad lafur economi'r oes hon.
135. Mae angen inni newid ein ffordd o weithio o'i chw'r a chanolbwyntio ar baratoi troseddwy'r i'w cyflogi mewn swyddi modern yn y dyfodol. Mae angen inni roi'r sgiliau i garcharorion y mae gwir alw amdanynt o du cyflogwyr. Dylai carcharorion ddefnyddio'u hamser yn y carchar mewn ffordd gynhyrchiol i ennill sgiliau ar gyfer gwaith, yn hytrach na'u bod yn cael eu harfogi â sgiliau na fydd galw amdanynt yn y farchnad lafur ar ôl eu rhyddhau. Mae CEM Bronzefield yn arwain y ffordd o ran ymateb i anghenion y farchnad leol. Rhoddwyd y gorau i'w hen weithdy tecstilïau ac yn lle hynny, mae'n yn cynnig gwaith, hyfforddiant a chymwysterau i garcharorion fel baristas. Rydym yn awyddus i'n carchardai i gyd ddilyn ei esiampl ac arfogi carcharorion â sgiliau a fydd o fudd iddynt i ymuno â'r farchnad lafur, pa wedd bynnag fydd ar y farchnad honno, a pha bryd bynnag ac ym mha le bynnag y cânt eu rhyddhau. Bydd rhoi rhagor o annibyniaeth i lywodraethwyr dros y penderfyniadau a wneir mewn carchardai yn golygu y byddant yn gallu targedu hyfforddiant a gwaith yn y carchar er mwyn iddo gydweddu'n well ag anghenion y farchnad lafur leol.
136. Fel rhan o'n hymateb i anghenion yr economi leol ac er mwyn tyfu ein marchnadoedd, byddwn yn cyflwyno llwybrau newydd at gyflogaeth a fydd yn cynnig hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar swyddi modern, gan gynnwys y Llwybr Prentisiaethau newydd i Garcharorion. Rhoddir rhagor o fanylion am ein cynlluniau yn y bennod hon. Elfen bwysig arall fydd gweithio i newid diwylliant cymunedau lleol er mwyn iddynt dderbyn a chyflogi cyn-droseddwy'r.
137. Llywodraethwyr ddylai arwain y newid hwn, ac rydym yn rhoi'r awdurdod iddynt wneud hynny. Byddant yn gallu cynllunio diwrnod y carchar i ymateb i gyfleoedd masnachol, yn hytrach na cheisio gwtio'r gwaith o fewn ffiniau amserlen sy'n cael ei phennu'n ganolog. Byddant hefyd yn gallu recriwtio'r staff iawn i hyfforddi carcharorion a goruchwylio'r gwaith. Byddant yn gallu targedu hyfforddiant a gwaith i gydweddu'n well ag anghenion y farchnad lafur leol. Byddant yn gallu cymell carcharorion i ddatblygu drwy weithdai wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd

ac ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb - a gwobrwyo carcharorion yn briodol yn unol â'u polisïau.

138. Oherwydd y bydd llywodraethwyr yn cael mwy o awdurdod i benderfynu a mwy o reolaeth dros eu cyllidebau, byddant mewn gwell sefyllfa i feithrin cysylltiadau masnachol â busnesau ac i roi'r trefniadau ar waith sy'n gweithio orau i'r carchar ac i'r busnes y maent yn eu contractio. Byddwn hefyd yn caniatáu i lywodraethwyr ail-fuddsoddi incwm a gynhyrchir drwy gontractau i ddarparu gwasanaethau ychwanegol neu i ddatblygu rhagor ar eu cyfleoedd gwaith.
139. Rydym yn awyddus i weld rhagor o waith mewn carchardai'n arwain at swyddi ar y tu allan. Drwy gyfrwng Fforwm y Cyflogwyr ar gyfer Lleihau Aildroseddu, mae gennym eisoes grŵp o gyflogwyr sy'n barod i weithio gyda throseddwr yn y carchar, troseddwr sy'n cael eu Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro a'r rheini sydd wedi cael eu rhyddhau ac rydym yn awyddus i fwy o fusnesau ymuno â ni. Er enghraifft, mae Greggs (y cwmni pobi) yn cynnal canolfannau asesu sydd wedi'u teilwra ar gyfer carcharorion er mwyn rhoi mwy o brofiad i droseddwr o weithgareddau recriwtio ac er mwyn cynnig gwaith i'r rheini y tybir eu bod yn addas.
140. Rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o arferion da sydd eisoes ar waith ledled yr ystâd. Mae gan nifer o'n carchardai bellach gledrau rheilffyrdd ar eu tir. Defnyddir y rhain i hyfforddi carcharorion i gynnal a chadw'r cledrau, gan gynnig cymhwyster lefel 2 NVQ yn unol â safon y diwydiant, sgiliau ar gyfer sicrhau diogelwch y rheilffyrdd a sgiliau eraill. Bydd hyn yn help iddynt gael gwaith â chyflog ar brosiectau seilwaith pwysig, megis CrossRail, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
141. Er enghraifft, mae gweithdy sgaffaldio newydd agor yn CEM Brixton sy'n rhan o brosiect cydweithredol gyda Land Securities a Bounceback. Mae'r pedwar cyntaf sydd wedi cwblhau'r rhaglen wedi mynd i waith amser llawn ac mae rhestr aros o gyflogwyr sy'n awyddus i gyflogi'r 20 carcharor nesaf.
142. Mae Clinks yn rhedeg pedwar bwyty moethus ar draws yr ystâd a bydd carcharorion yn cael eu hyfforddi'n gogyddion ac i wneud gwaith blaen tŷ. Mae'r bwyty yn CEM Caerdydd wedi'i bleidleiso'n 10fed bwyty moethus gorau'r Deyrnas Unedig ac mae un fu'n gweithio yn Clinks Brixton hyd yn oed wedi mynd yn ei flaen i fod yn sous-chef yn Claridge's.
143. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos yr hyn sy'n bosibl, ond mae angen inni wneud rhagor - dylai hyn fod yn norm, nid yn eithriad. Mae carcharorion yn gronfa o ddoniau parod y gall cyflogwyr ei defnyddio i ddiwallu bylchau mewn sgiliau drwy'r Deyrnas Unedig. Bydd cyflogwyr yn dweud wrthym yn rheolaidd, dim ond iddynt gael ail gyfle, y gall carcharorion fod ymhlith y gweithwyr mwyaf triw ac ymroddedig. Rydym ninnau'n ymroddedig i gynyddu rhwydwaith y cyflogwyr sy'n cydweithio â ni ar yr agenda hon yn genedlaethol ac wrth i lywodraethwyr ymgysylltu â busnesau yn eu cymunedau lleol. Rydym am roi'r gydnabyddiaeth i'r cyflogwyr hyn y maent yn ei haeddu, a byddwn yn cyflwyno gwobr genedlaethol i gyflogwyr yn 2017. Gan gydweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau, byddwn yn gwneud rhagor i weld bylchau mewn sgiliau ar lefel genedlaethol - megis yn y diwydiant adeiladu a lletygarwch - ac ar lefel leol. Dylai hyn helpu llywodraethwyr i sicrhau bod eu haddysg a'u hyfforddiant galwedigaethol, yn ogystal â'u gweithdai, yn ymateb i'r angen lleol ac yn cydweddu â'r angen hwnnw lle bo modd.

Llwybr Prentisiaethau newydd i Garcharorion

Rydym yn bwriadu cyflwyno Llwybr Prentisiaethau i Garcharorion i gynnig cyfleoedd iddynt a fydd yn cyfrio tuag at gwblhau prentisiaeth ffurfiol pan gânt eu rhyddhau. Bydd carcharorion yn gallu manteisio ar yr un hyfforddiant ac addysg o safon y gallai prentis ddisgwyl eu cael yn y gymuned, ac ni fydd angen iddynt ailadrodd yr hyfforddiant y maent wedi'i gwblhau'n llwyddiannus yn y carchar pan gânt eu rhyddhau, os byddant yn gallu dangos cymhwysedd yn y gweithgarwch y cawsant hyfforddiant ynddo yn ystod eu prentisiaeth.

Rydym yn awyddus i gyflogwyr ymwneud â'r carcharorion ar y Llwybr hwn, cydweithio â nhw a datblygu rhaglenni hyfforddi, gan ymrwmo i gyflogi carcharorion llwyddiannus yn brentisiaid am o leiaf 12 mis ar ôl eu rhyddhau.

Mae llywodraethwyr mewn sefyllfa ddelfrydol i weithio gyda chyflogwyr lleol, sy'n gallu dod i adnabod y carcharorion gan deimlo'n hyderus bod Llwybr yn un o safon, er mwyn pwysu arnynt i dderbyn carcharorion yn brentisiaid ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Rydym yn disgwyl i'r carcharorion cyntaf ddechrau ar y Llwybr yn 2017.

Arian, budd-daliadau a rheoli dyledion

144. Os bydd carcharor yn brin o arian pan gaiff ei ryddhau, gall hynny fod yn sbardun iddo droseddu eto'n fuan. Drwy gydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gallwn leihau'r tebygolrwydd o hyn drwy helpu i drefnu swydd ar gyfer carcharor yn barod ar gyfer ei ryddhau neu drwy sicrhau bod modd iddo gael gafael ar arian. Mae Anogwyr Gwaith yr Adran Gwaith a Pensiynau'n gweithio ym mhob carchar ailsefydlu a bydd cyfle i bob carcharor drafod opsiynau â nhw. Gallant gynnig cyngor am waith, help i hawlio budd-daliadau ymlaen llaw er mwyn cyflymu'r broses ar ôl eu rhyddhau; a chyfeirio troseddwr at help a chymorth o fathau eraill, megis cymorth gyda phensiynau.
145. Gall y llywodraethwr chwarae rhan hollbwysig yn y cyswllt hwn drwy ganiatáu i Anogwyr Gwaith gael cymaint o ddylanwad ag y bo modd. Gallant wneud hyn drwy reoli'r drefn a threfnu ymyraethau'r Anogwyr Gwaith er mwyn i droseddwr allu manteisio ar eu gwasanaeth ar yr adeg iawn a dylanwadu ar eu llwybr ar ôl iddynt ymadael â'r carchar. Gallant hefyd roi'r arfau a'r wybodaeth iawn i'r Anogwyr Gwaith eu hunain.
146. Un ffactor arall o bwys o ran helpu carcharorion i symud yn llwyddiannus i waith ar ôl eu rhyddhau yw sicrhau bod ganddynt rywbeth mor syml â chyfrif banc sylfaenol y gallant dalu cyflog iddo. Mae'r Rhaglen Bancio i Droseddwr yn sefydlu cysylltiadau rhwng carchardai a banciau masnachol i alluogi carcharorion i agor cyfrif banc sylfaenol yn ystod y chwe mis cyn eu rhyddhau. Bydd rhyw 5,000 o gyfrifon yn cael eu hagor bob blwyddyn. Gall y carchar ategu'r cynnig hwn drwy gynnig hyfforddiant mewn sgiliau rheoli ariannol, er mwyn i garcharorion allu rheoli'r arian a fydd ganddynt yn well.
147. Ar gyfer carcharorion tymor hwy, byddwn hefyd yn annog llywodraethwyr i feithrin perthynas â'u Hundeb Credyd Lleol. Gyda chyfrif cynilo gydag Undeb Credyd, bydd carcharorion yn gallu dechrau cynilo ar gyfer eu rhyddhau a sefydlu neu wella'u sgôr credyd. Byddwn yn annog llywodraethwyr i ganolbwyntio ar hyn fel rhan o sefydlu eu cysylltiadau lleol er mwyn helpu i ddiwygio carcharorion ar ôl eu rhyddhau. Gall sefydlu'r cysylltiadau hyn arwain at fanteision megis sicrhau cyfnod pontio llawer llyfnach i garcharorion pan gânt eu rhyddhau.

Gwasanaethau ailsefydlu mewn carchardai

148. Rydym yn awyddus i weld y cymorth a gaiff carcharorion cyn eu rhyddhau ac wedyn yn cael ei integreiddio'n ddi-fwlch. Ym mis Mawrth 2015, cyflwynwyd gwasanaeth ailsefydlu drwy'r wlad i bob carcharor, gan wneud y gwasanaeth prawf yn gyfrifol am estyn i mewn i garchardai i baratoi troseddwy'r ar gyfer eu rhyddhau, cyn eu dilyn drwy gât y carchar i'w goruchwyllo yn y gymuned.
149. Mae'n hanfodol bod carchardai a gwasanaethau prawf yn cydweithio'n agos i asesu'r cymorth sydd ei angen ar droseddwy'r, i gynllunio ar gyfer eu rhyddhau, ac i weithio gyda'r awdurdodau lleol a phobl eraill er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol. Gwyddom fod rhagor i'w wneud yn y maes hwn. Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i sicrhau bod carchardai a gwasanaethau prawf yn cael eu dal yn atebol ar sail yr un canlyniadau. Mae lleihau aildroseddu eisoes yn nod cyffredin: rydym yn awr yn datblygu canlyniadau cyffredin ym maes llety, gwaith ac addysg a hyfforddiant yn y pwynt rhyddhau er mwyn sbarduno darparu gwasanaethau ailsefydlu cydweithredol.
150. Yn y tymor hwy, a chyn penderfynu am ddyfodol y ddarpariaeth prawf ar ôl i'r contractau presennol ddod i ben, byddwn yn ystyried y cyfleoedd i wella gwasanaethau ailsefydlu mewn carchardai, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr y carchardai, a'r gwasanaethau prawf.

Dod o hyd i lety sefydlog

151. Rydym yn deall ers tro bod cael gafael ar lety sefydlog yn bwysig er mwyn lleihau aildroseddu. Mae gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol rôl eisoes yn darparu cymorth cyn-ryddhau i helpu troseddwy'r i gael gafael ar wasanaethau llety ac rydym yn disgwyl i garchardai a gwasanaethau prawf gydweithio'n agos ag awdurdodau tai lleol er mwyn sicrhau bod tenantiaethau presennol yn cael eu cadw lle bo modd. Serch hynny, rydym am weld rhagor o bwyslais ar gael troseddwy'r i lety sefydlog addas fel ffordd o fynd i'r afael ag aildroseddu.
152. Byddwn yn gwneud hyn drwy wella ansawdd gwasanaethau cymorth ym maes llety, yn y carchar ac yn y gymuned. Un o'r safonau yr ydym yn eu pennu ar gyfer llywodraethwyr yw cynyddu cyfran y troseddwy'r sydd â llety addas sefydlog pan gânt eu rhyddhau, drwy gydweithio ag eraill. Mae'r camau a ddisgrifiwyd gennym uchod i roi canlyniadau ar y cyd ar waith i garchardai a gwasanaethau prawf yn cynnwys canlyniad ar y cyd ar gyfer llety er mwyn cymell cydweithio.
153. Byddwn yn ystyried sut y gellid defnyddio Rhyddhau Dan Drwydded Dros Dro yn well i helpu troseddwy'r sy'n chwilio am lety ac a oes ffyrdd inni ddefnyddio'n hystâd bresennol i ddarparu llety pontio fel y byddant yn ei wneud yn yr Unol Daleithiau, Canada a Seland Newydd. Bydd adolygiad yr Arglwydd Farmer o wasanaethau i deuluoedd hefyd yn help inni ddeall sut y gall teuluoedd roi gwell cymorth i droseddwy'r.
154. Cyhoeddodd y llywodraeth yn ddiweddar y byddwn yn gohirio rhoi'r polisi trethi Lwfans Tai Leol ar waith ar gyfer llety â chymorth, gan gynnwys tai â chymorth i droseddwy'r, tan fis Ebrill 2019. O'r pwynt hwnnw ymlaen, byddwn yn cyflwyno model ariannu newydd a fydd yn sicrhau bod y sector yn parhau i gael ei ariannu ar y lefel gyfredol, gan ystyried polisi'r llywodraeth ar renti'r sector cymdeithasol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r manylion sy'n sail i'r model ariannu

newydd er mwyn sicrhau trefn ariannu gynaliadwy ar gyfer y tymor hir a fydd yn darparu gwasanaeth diogel o safon i'r sawl y mae ei angen arnynt.

Awdurdodau Lleol

155. Un ffordd o sicrhau bod gwasanaethau rheoli troseddwr yn cael eu cysoni â gwasanaethau lleol sy'n allweddol ar gyfer adsefydlu yw drwy gydgomisiynu. Er enghraifft, drwy fargen datganoli, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwmo i roi rôl fwy i Fanceinion Fwyaf wrth gomisiynu gwasanaethau rheoli troseddwr, er mwyn caniatáu rhagor o hyblygrwydd yn lleol, mwy o arloesi a gwell cydlynu â gwasanaethau lleol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a llely.

Carchardai yng Nghymru

Mae iechyd a dysgu a sgiliau wedi'u datganoli yng Nghymru ac rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i rannu'r arferion gorau a'r pwyntiau dysgu yn sgil diwygio carchardai a darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau, lle bydd carcharorion sy'n hanu o Gymru ac o Loegr yn croesi'r bont i garchar arall ac yn ôl i'w cymuned, fod cysondeb a pharhad o ran y driniaeth iechyd a'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau a roddir iddynt.

Yng Nghymru, bydd yr holl wasanaethau i droseddwr sy'n oedolion yn cael eu rheoli (gan gynnwys carchardai preifat a'r unig Gwmni Adsefydlu Cymunedol) gan un Cyfarwyddwr i Gymru. Mae hyn yn golygu gwaith partneriaeth mwy agos o lawer a gwell integreiddio ar wasanaethau gan gynnwys gydag eraill yn y system cyfiawnder troseddol (yn enwedig yr heddluoedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) ar faterion megis Gwasanaethau Integredig ar gyfer Rheoli Troseddwr. Mae'r berthynas weithio â Llywodraeth Cymru'n un glos ac yn un gynhyrchiol.

Mae'r cyfrifoldeb dros addysgu troseddwr yn y carchar ac yn y gymuned wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn cydweithio â hi'n agos i gydgomisiynu'r gwasanaethau hyn. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu datblygu eto ein cysylltiad â'n trefniadau cydweithio ar gyfer addysg yn y carchar, yn enwedig cyn i CEM y Berwyn ddechrau gweithio'n llawn yn 2017.

Mae'r carchar mwyaf yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ar fin derbyn ei garcharorion cyntaf ym mis Chwefror 2017 sef CEM y Berwyn. Hyd yn hyn, rhoddwyd ar brawf yn llwyddiannus lawer o'r technegau adeiladu hynny yr ydym yn gobeithio'u cyflwyno yn ein carchardai newydd eraill. Mae hefyd yn datblygu diwylliant adsefydlu cryf ymhlith swyddogion carchar newydd a staff eraill a bydd y gwersi a ddysgir ar gael i bob carchar - yn enwedig y rheini sy'n wrthi'n cael eu codi ac y bwriedir eu hagor yn ystod y Senedd hon.

Rydym yn ymroddedig i ystyried y goblygiadau ar gyfer y Gymraeg wrth ddatblygu ein polisïau a'n cynlluniau i'w rhoi ar waith, yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg. Hefyd, bydd arferion recriwtio llywodraethwyr yn parhau i gydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Rhoi'r awdurdod i lywodraethwyr redeg carchardai yn ôl eu dewis.

156. Er mwyn rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau newydd a restrwyd uchod ar waith yn llawn, bydd angen i lywodraethwyr gael rheolaeth dros nifer o swyddogaethau ehangach. Bydd angen iddynt allu diwygio'u sefydliad a gwneud penderfyniadau hollbwysig am y ffordd y maent yn cael eu rhedeg. Mae carchardai preifat,

oherwydd eu natur, eisoes yn rheoli eu polisïau corfforaethol eu hunain megis rheoli eu cyllideb. Mae angen inni gynyddu hyblygrwydd carchardai'r sector cyhoeddus hefyd.

Cyllid

157. O 1 Ebrill 2017, bydd llywodraethwyr yn gallu penderfynu sut i wario'u harian er mwyn gwireddu eu strategaeth, cyn belled â'u bod yn byw o fewn eu cyllideb. Byddwn hefyd:
- yn dileu cyfyngiadau eraill ar eu gwario, sy'n eu hatal rhag cymryd camau pan fyddant yn brin ar y pryd o nwyddau sylfaenol megis dodrefn celloedd, dillad gwely a dillad i garcharorion, gan wneud trefniadau lleol i brynu nwyddau a gwasanaethau ar eitemau megis bwyd, nwyddau swyddfa, deunyddiau crai i'w defnyddio mewn diwydiannau, neu wario mwy na'r targed cenedlaethol pan fyddant yn meddwl bod hyn yn angenrheidiol;
 - adolygu'r cyfyngiadau ar wario sy'n cael eu gorfodi ar Adrannau eraill y Llywodraeth, megis cyfyngu ar wario ar hysbysebu a marchnata, sy'n gallu effeithio ar ymgyrchoedd recriwtio carchardai a'r manylebau a'r rheolaethau ar gyfer datrysiadau technegol, gan gynnwys dylunio'r rhyngwrwd a'r fewnrwyd. Lle bydd y rhain yn llyffetheirio gallu llywodraethwr i roi ei strategaeth ar waith, byddwn yn ceisio'u dileu;
 - datganoli'r gyllideb ar gyfer rhaglenni achrededig sy'n helpu troseddwy'r i newid eu hymddygiad, er mwyn i lywodraethwyr allu cynllunio'r cymorth sydd ei angen arnynt i leihau aildroseddu ymhlith eu cohortau yn y carchar;
 - yn ystod 2017, datganoli cyllidebau canolog ar gyfer addysg a theuluoedd.
158. Ar hyn o bryd, byddwn yn prynu llawer o nwyddau a gwasanaethau'n genedlaethol ar ran pob carchar. Mae hyn yn ein galluogi i fanteisio ar arbedion maint ond mae'n golygu mai ychydig iawn o lais sydd gan lywodraethwyr dros yr hyn y mae'r carchar yn ei gael. Er enghraifft, rydym wedi gweld y byddai llawer o lywodraethwyr yn hoffi gallu cefnogi'r gymuned leol drwy brynu bwyd yn lleol, ac mae cymunedau lleol yn awyddus i allu cydweithio'n uniongyrchol â llywodraethwyr. Rydym yn awyddus i newid hyn ond bydd angen amser i'w wneud mewn ffordd fforddiadwy.
159. Wrth i bob contract cenedlaethol ddod i ben, byddwn yn adolygu a yw'n iawn iddo barhau'n contract cenedlaethol ynteu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb i lywodraethwyr. Os byddwn yn penderfynu parhau â'r drefn genedlaethol, byddwn yn ystyried a ddylem roi rhagor o hyblygrwydd i lywodraethwyr brynu o rywle arall os dyna eu dymuniad.

Staffio

160. Mae staffio, a sut y caiff staff eu rhoi ar waith, yn hanfodol er mwyn gwella diogelwch y system a diogelwch pobl yn y carchardai ac er mwyn helpu i ddiwygio carcharorion. Eto i gyd, yn y maes hwn, mae cyfyngiadau mawr ar lywodraethwyr o ran y dewisiadau y gallant eu gwneud.
161. Mae'r gwaith wedi dechrau'n barod i symleiddio prosesau adnoddau dynol a lleihau'r oedi er mwyn iddynt allu penderfynu'n gyflymach heb gynifer o gyfyngiadau. Rydym am symud ymhellach yn gyflymach. Rydym yn benderfynol y bydd llywodraethwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am eu strategaeth ar gyfer y

gweithlu. O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd llywodraethwyr yn gallu penderfynu pa staff sydd eu hangen arnynt a'u cyflogi, cyn belled â'u bod yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ac yn cadw o fewn eu cyllideb. Mae hyn yn golygu y bydd llywodraethwyr yn gallu gweld pa sgiliau sydd eu hangen, faint ohonynt, a dewis y bobl iawn i'r swydd. Ac mewn manau lle bydd recriwtio'n broblem, byddant yn gallu newid y ffordd o recriwtio ar eu cyfer, er mwyn iddynt allu datrys prinder staff yn gyflym.

Sut mae'r carchar yn cael ei redeg

162. Rydym yn awyddus i lywodraethwyr redeg eu carchardai yn y ffordd sydd orau ganddynt i helpu i ddiwygio carcharorion yn ystod eu cyfnod yn y carchar a'u cadw'n ddiogel, ac i'w paratoi ar gyfer bywyd heb droseddau ar ôl iddynt fod yn y carchar. Mae angen inni newid pethau o'u cwr er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn gyntaf, mae angen inni ddiwygio neu ddileu llawer o'r 562 o bolisiâu y mae'n rhaid i garchardai gydymffurfio â hwy ac sy'n pennu'n fanwl fanwl y polisiâu ar gyfer pob agwedd ar redeg y carchar. Mae'r rhain ar hyn o bryd yn dweud y caiff pob carchar ddau gap cawod ar y mwyaf, 10 pâr o sanau ac maent hyd yn oed pennu beth yw'r maint mwyaf posibl ar gyfer mat bath. Nid oes bosibl bod canoli'r ddarpariaeth fel hyn yn iawn.
163. Byddwn yn edrych ar bob polisi, a byddwn naill ai'n ei ddisodli â'r gofynion gorfodol sylfaenol er mwyn sicrhau bod gennym system sy'n ddiogel, sydd o safon ddigonol ac yn gyfreithlon, a honno'n gyson ar draws yr ystâd os byddwn yn credu bod hynny'n hanfodol, neu byddwn yn ei ddileu'n llwyr. Byddwn yn gwneud hyn fesul cam, gan ddiwygio neu ddileu'r haen gyntaf o bolisiâu ar 1 Ebrill 2017.
164. Er enghraifft, mae'r polisi Cymhellion a Breintiau yn cyfyngu ar allu'r llywodraethwr i wneud penderfyniadau sy'n cydnabod ymddygiad cadarnhaol; hefyd, mae'r polisi'n rhy aml wedi dod yn ffordd o gosbi yn hytrach nag yn fodd o wobrwyo carcharorion a'u hannog i adsefydlu. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer diwygio.
165. Mae Rheolau'r Carchar yn nodi'r gofyniad pwysig y dylai pob carchar gael 'system freintiau' i garcharorion. Byddwn yn parhau i bennu'r gofynion er mwyn sicrhau trefniadau derbyniol a lefel o gysondeb ar draws carchardai, er enghraifft, o ran nifer y lefelau o freintiau. Bydd proses hefyd ar gyfer adolygu ac apelio. Byddai'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn caniatáu i lywodraethwyr gyflwyno cymhellion sydd wedi'u teilwra'n well ar gyfer carcharorion unigol, yn dileu'r terfynau rhifol ar nifer yr eitemau a ganiateir iddynt ac yn penderfynu pa eitemau y caiff carcharorion eu derbyn gan eu teulu a'u ffrindiau. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar bolisi diwygiedig sy'n rhoi mwy o awdurdod i lywodraethwyr, ac rydym yn rhagweld cyhoeddi polisi newydd erbyn diwedd 2016.
166. Peth arall y byddwn yn canolbwyntio arno'n fuan yw'r polisi Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro. Mae Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro yn ddull ailsefydlu hollbwysig; mae'n golygu bod modd rhyddhau carcharorion dros dro os yw hynny'n ddiogel er mwyn cwblhau gweithgareddau pwrpasol a fydd yn eu helpu i ailsefydlu, megis gweithio, o bosibl mewn swydd y byddant yn ei chadw wrth eu rhyddhau, neu i gynnal eu cysylltiadau â'u teulu. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro'n help i leihau aildroseddau a bod y gyfradd fethu'n isel iawn - anaml y bydd pobl dan drwydded yn troseddau. Mae'r gyfradd gydymffurfio â Rhyddhau Dan Drwydded Dros Dro (h.y. llwyddiant heb dorri'r amodau) ymhell dros 99% ac mae wedi bod felly ers blyneddau lawer.

167. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod y system yn cael ei rheoli'n llym er mwyn i'r cyhoedd deimlo'n ffyddiog eu bod yn cael eu hamddiffyn. Adolygwyd y dull hwn yn 2013 er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac erbyn hyn canolbwyntir mwy ar: gysylltu'r gweithgarwch rhyddhau dan drwydded dros dro â chynllun dedfryd yr unigolyn; sicrhau nad oes rhagdybiaeth y caiff rhywun ei ryddhau dros dro; ac, asesu a rheoli'r risg yn well, yn enwedig yng nghyswllt y troseddwyr mwyaf difrifol. Mae un canlyniad anfwriadol wedi deillio o hyn, serch hynny - oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynwyd er mwyn rheoli'n well y risg a berir gan y troseddwyr mwyaf difrifol, nid yw'r troseddwyr hynny sy'n peri llai o risg wedi gallu elwa o'r drefn rhyddhau dan drwydded dros dro.
168. Rydym felly'n awyddus i gynnal y gwelliannau a sicrhawyd gan roi mwy o hawl i lywodraethwyr ar yr un pryd ddewis sut y byddant yn teilwra'u trefn rhyddhau dan drwydded dros dro ar gyfer amgylchiadau pob troseddwr a'r cyfleoedd ar gyfer rhyddhau troseddwyr dan drwydded dros dro sydd ar gael yn lleol.
169. Wrth gwrs, bydd llywodraethwyr sy'n mynd ati i ddiwygio'u carchar yn dal i orfod cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu rôl a thrwy weithredu unrhyw bolisi newydd neu bolisi sydd wedi esblygu, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn sicrhau bod effaith bosibl y diwygiadau ar droseddwyr ac ar staff yn cael ei hystyried a'i monitro. Rhaid achub ar gyfleoedd i ddatblygu cydraddoldeb i'r ddau grŵp. Wrth gyflwyno'r holl ddiwygiadau, rhaid i lywodraethwyr gynnig tystiolaeth i ddangos sut mae cydraddoldeb wedi bod yn rhan hanfodol o'u penderfyniadau a'r safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer staff a throseddwyr.

Pennod 5: Carchardai sy'n sicrhau diogelwch pobl a'r system

Rydym yn awyddus i'n carchardai fod yn fannau lle mae staff a charcharorion ill dau'n teimlo'n ddiogel. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen inni sicrhau'r lefelau cywir o staff darparu'r cymorth iawn ar eu cyfer, ac mae angen iddynt feddu ar y profiad a'r sgiliau iawn i feithrin perthynas effeithiol â'u carcharorion. Dim ond fel hyn y gall carcharorion gael yr help a'r her adeiladol i ymroi'n gadarnhaol i'r weithdrefn.

Mae angen inni gymryd camau pendant i wireddu'r weledigaeth hon. Ni ellir disgwyl i neb newid ei ymddygiad a thrawsnewid ei fywyd os bydd yn gaeth i gyffuriau, yn ofni y bydd rhywun yn ymosod arno, neu'n ystyried ei niweidio'i hun. Ni ellir disgwyl ychwaith i'n staff feithrin y math o berthynas adeiladol â charcharorion y gwyddom ei bod yn gwneud gwahaniaeth os byddant yn poeni am bobl yn ymosod arnynt, a phan fydd cymaint o'u hamser yn cael ei dreulio'n ymateb i ddigwyddiadau difrifol.

Sicrhau bod carchardai'n yn fannau diogel, derbynol i fyw a gweithio ynddynt yw'r sylfaen y bydd gweddill ein diwygiadau'n cael eu hadeiladu arni. Er mwyn gwireddu hyn:

- byddwn yn gwella'r ffordd y rheolir carcharorion drwy'r rhan o'r ddedfryd y byddant yn ei bwrw yn y carchar - ac fe ddyrennir swyddogion dynodedig i bob carcharor i oruchwyllo'u datblygiad drwy'r cyfnod yn y carchar;
- byddwn yn datblygu ymateb llymach o lawer i'r bygythiadau diogelwch y byddwn yn eu hwynebu, gan gynnwys o du cyffuriau, ffonau a dronau - gan ddefnyddio cuddwybodaeth yn y ffordd orau posibl, ac ymdrin yn effeithiol â'r cyflenwad a'r galw;
- gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac eraill ar draws y system cyfiawnder troseddol i sathru ar droseddu yn y carchar.

170. Ers 2012, mae diogelwch wedi bod yn gwaethygu yn ein carchardai. Mae lefelau cyfanswm yr ymosodiadau ar draws ystâd y carchardai ac ymosodiadau ar staff yn uwch nag a gofnodwyd erioed, ac yn dal i godi. A chymharu'r 12 mis hyd at fis Mehefin 2016 â blwyddyn galendr 2012:

- gwelwyd cyfanswm yr ymosodiadau yn y carchardai'n cynyddu 64%;
- ymosodiadau ar y staff yn cynyddu 99%;
- nifer y digwyddiadau hunan-niweidio'n cynyddu 57%.

171. Yn y 12 mis hyd at fis Medi 2016, bu farw 107 o bobl oherwydd hunanladdiad yn y carchar, cynnydd o 75% ar y 61 hunanladdiad yn ystod 2012.

172. Yn ôl ein dadansoddiad, mae nifer o ffactorau personol a sefyllfaol sydd wedi sbarduno'r cynnydd hwn mewn trais, hunan-niweidio a hunan-laddiad er 2012. Gwyddom fod dynion iau yn y carchar yn debygol o fod yn rhan o ddigwyddiadau treisgar, a hefyd y rheini sydd â hanes o droseddu treisgar, y rheini sydd yn neu sydd wedi defnyddio cyffuriau a'r rheini sy'n aelod o gang. Mae agweddau gwrthgymdeithasol a diffyg hunanreolaeth hefyd yn cynyddu'r risg o drais yn y carchar. Mae newidiadau tymor hwy yn natur poblogaeth y carchardai'n debygol o fod wedi chwarae rhyw ran yn y trais cynyddol yn ystâd y carchardai. Yn 1993,

rhyw ddau o bob pum carcharor a oedd wedi'u dedfrydu i garchar oherwydd achosion o drais yn erbyn yr unigolyn, trais rhywiol neu droseddau'n gysylltiedig â chyffuriau. (Roedd hyn yn cynnwys y boblogaeth a oedd wedi'u galw yn ôl i'r carchar). Erbyn 2016, roedd hyn wedi cynyddu i dri o bob pump.

173. Mae datblygiadau mwy diweddar wedi golygu bod yr heriau hyn yn anos byth eu rheoli. Er 2012, mae defnyddio sylweddau seicoweithredol yn y carchardai wedi cynyddu'n ddramatig, ac mae hyn yn gosod heriau go iawn i staff ein carchardai. Mae eu heffeithiau yn y carchardai wedi gwneud rhai troseddwyr a oedd eisoes yn beryglus yn fwy ansefydlog byth, a'u hymateb yn fwy anodd ei reoli. Gwyddom fod cyfraddau trais yn uwch mewn carchardai lle y deuir o hyd i fwy o gyffuriau. Ond tan eleni, nid oes dim profion effeithiol wedi bod i sefydlu a yw carcharorion wedi cymryd y cyffuriau hyn.
174. Mae ymdrin ag effeithiau'r sylweddau hyn, yn ôl yr adroddiadau, wedi'i gwneud yn fwy anodd i lawer o garchardai gynnal gweithdrefn lawn a phwrpasol, gan sicrhau bod y carcharorion yn ymgymryd â gweithgareddau i'w helpu ar y daith i ddiwygio. Mae wedi'i gwneud yn fwy anodd i staff adeiladu perthynas adeiladol â charcharorion, er mwyn iddynt allu defnyddio hynny i gyfuno goruchwyliaeth â'u helpu i newid eu hymddygiad a'u hagweddau. Gall gwrthdaro mewn carchardai hefyd ddigwydd oherwydd bod y drefn y gorfodir staff carchardai i'w gweithredu o bosibl yn llym iawn pan fydd yn rhaid iddynt reoli digwyddiadau difrifol. Yn ei dro, mae hynny'n arwain at rwystredigaeth os gwelir bod y rheolau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd anwastad, neu os bydd carcharorion yn meddwl nad yw penderfyniadau'r staff yn deg.
175. Mae'r lefelau hunan-niweidio a hunanladdiad yn cynyddu hefyd. Mae menywod yn fwy tebygol o'u niweidio'u hunain na dynion, a byddant yn gwneud hynny'n amlach - er bod yr hunan-niweidio'n fwy difrifol ymhlith dynion. Mae mwy o berygl hefyd i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl eu niweidio'u hunain yn y carchar. Mae trais a hunan-niweidio'n fwy cyffredin ar ddechrau dedfryd dan glo, ac mae'r cyfraddau trais yn uwch mewn carchardai lle bydd carcharorion yn bwrw dedfrydau byrrach.
176. Daeth y newidiadau hyn ar ôl cyfnod o newid i weithlu'r carchar yn sgil arbedion effeithlonrwydd. Mae nifer staff gweithredol rheng flaen Band 2 i 5 wedi gostwng o 29,660 ar 31 Mawrth 2012 i 23,080 ar 31 Mawrth 2016. Wrth i'r trais gynyddu mae wedi dod yn fwy anodd cadw'r staff presennol, ac mae hyn yn creu cylch dieflig o bwysau a thrais.
177. Er ei bod yn iawn ceisio sicrhau bod carchardai'n gweithredu'n fwy effeithlon, mae effaith dadsefydlogi newidiadau yn yr amgylchedd gweithredol, megis cyflwyno sylweddau seicoweithredol newydd - sydd yn ôl yr Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn 'newid y gêm' ac yn gwneud ein carchardai'n llai diogel - yn golygu ei bod yn rhaid inni bellach ailystyried lefelau staffio. Mae ein dadansoddiad yn dangos cydberthynas ystadegol rhwng nifer y staff a lefel y digwyddiadau treisgar. Bellach, mae angen rhagor o staff ar y rheng flaen, ac mae angen inni newid y ffordd y maent yn gweithio er mwyn cefnogi troseddwyr yn well ac er mwyn ymateb i'r bygythiadau newydd wrth iddynt godi.

Camau sydd ar y gweill eisoes i wella diogelwch

178. Rydym eisoes wedi cymryd camau brys i fynd i'r afael â'r twf mewn trais yn y carchardai, hunan-niweidio a hunanladdiad. Gwelwyd cynnydd net o 295 o swyddogion carchar rhwng 31 Rhagfyr 2014 a 30 Mehefin 2016 ac fe gyflwynwyd cyrsiau hyfforddi cychwynol newydd ac ehangach i swyddogion y carchar, sy'n cael eu darparu yng Ngholeg y Gwasanaeth Carchardai yn Newbold Revel ac mewn canolfannau eraill yng Nghymru a Lloegr. Ym mis Mai eleni, rhoddwyd £10 miliwn yn ychwanegol i lywodraethwyr y carchardai i'w helpu i hybu diogelwch a rhoddwyd y dewis iddynt sut i wario'r arian hwnnw. Maent wedi gwneud hyn mewn amrywiol ffyrdd, ond mae llawer wedi'i ddefnyddio i dalu am staff ychwanegol, i brynu offer newydd, neu i dalu am hyfforddiant neu ymyraethau penodol. Ar ôl cynllun peilot i brofi camerâu fideo a wisgir ar y corff yn 2015-16, mae arian wedi'i ddarparu ar gyfer lledaenu'r camerâu hyn drwy'r ystâd, ar y cyd â hyfforddiant priodol sy'n helpu i gefnogi cysylltiadau gwell a mwy adeiladol rhwng staff y carchardai a charcharorion.
179. Mae nifer o gynlluniau wedi'u treialu a'u gwerthuso hefyd yn ystod 2016. Mae ymchwil i effaith y rhaglen sgiliau gwybyddol achrededig ar drais yn y carchar yn dangos iddi lwyddo i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â thrais er enghraifft gwendid o ran rheoli emosiynau, datrys problemau, a byrbwylltra; a gwelwyd bod cyfraddau trais y rheini sy'n cwblhau'r rhaglen yn gostwng. Mae rhaglen sgiliau gwybyddol fyrrach sy'n canolbwyntio'n benodol ar drais yn y carchar ('Timewise') hefyd yn cael ei threialu mewn chwe safle. Treialwyd hyfforddiant datrys gwrthdaro i garcharorion a staff ac mae hwnnw'n cael ei ddatblygu eto.
180. Mae'r rhain i gyd yn ymyraethau pwysig, ond ni allant ar eu pen eu hunain wrthdroi'r duedd bod diogelwch yn gwaethygu. Ni all hyn ond mynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n achosi trais a hunan-niweidio. Nid ydynt yn newid yn eu hanfod lefel yr adnoddau na'r dulliau cyflawni. Mae ein tystiolaeth yn glir: er mwyn gwella diogelwch yn y carchar mae angen newid yn sylfaenol y ffordd y bydd staff y carchar yn helpu carcharorion ac yn ymwneud â hwy.

Ffordd newydd o helpu i ddiwygio carcharorion

181. Nid yw'r ffordd a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynllunio a darparu gweithgareddau pwrpasol ar gyfer carcharorion i'w helpu i ddiwygio'n gweithio. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, goruchwylydd yn y gymuned sy'n bennaf gyfrifol am garcharor, nid dim ond ar ôl ei ryddhau, ond hefyd yn ystod ei gyfnod yn y carchar.
182. Nod y model hwn oedd cael un rheolwr troseddwyd yn cynllunio dedfryd y carcharor, ac yn sicrhau dilyniant petai'r carcharor yn symud o un sefydliad i un arall ac ar ôl iddo gael ei ryddhau. Serch hynny, gwelwyd nad oedd modd i'r drefn hon weithio pan fyddai rheolwr troseddwyd yn gweithio yn y gymuned, a hynny weithiau gannoedd o filltiroedd i ffwrdd o'r man lle cedwir y carcharor. O safbwynt ymarferol, mae wedi golygu bod llawer o garcharorion yn mynd drwy eu dedfryd heb gynllun dedfryd sydd wedi'i ystyried yn ofalus, ac yn anad dim, heb neb sy'n gyfrifol am eu hachos y gallant gafael arnynt yn rhwydd i siarad â hwy.
183. Er bod cynllunio gweithgareddau i garcharorion a'u trefnu mewn ffordd benodol yn bwysig, mae cael rhywun yn y carchar sy'n bersonol gyfrifol amdanynt hefyd yn golygu llawer mwy na hynny. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod angen i garchardai gael diwylliant cefnogol ac adeiladol er mwyn bod yn fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio. Wrth galon hyn, rhaid sicrhau bod y berthynas rhwng carcharorion a staff yn cyfuno'r gymysgedd iawn o awdurdod a chefnogaeth er

mwyn i'r staff gymell a herio'r carcharor. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn ymwneud yn frwd ac yn fodlon â chyfleoedd sy'n eu hannog i droi eu cefn ar drosedd.

184. Er mwyn adeiladu'r diwylliant hwn, mae angen nid dim ond staff ychwanegol ond ffordd gwbl newydd o weithio. Byddwn yn sicrhau bod gan bob carcharor swyddog dynodedig i'w helpu, i'w fentora ac i'w herio, a bydd gan bob swyddog o'r fath lwyth gwaith o ryw chwe carcharor yr un. Yn y dyfodol, bydd pob swyddog carchar sy'n gweithio ar unedau preswyl yn cyflawni rôl y swyddog dynodedig hwn. Eu rôl hwy fydd helpu pob un o'u carcharorion ar hyd y llwybr diwygio drwy ei helpu a'i herio er mwyn ei gymell i ddilyn gweithgareddau pwrpasol a chynhyrchiol yn ystod ei gyfnod yn y carchar. Rydym yn disgwyl i'r swyddogion dynodedig hyn fod yn fentoriaid i'w carcharorion - gan wrando arnynt er mwyn gwybod beth yw eu problemau, eu helpu i newid eu hagweddau a'u hymddygiad, a lliniaru tensiynau a rhwystredigaeth.
185. Er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn gwella'r gymhareb staff-i-garcharor, gan sicrhau bod mwy o staff yn bresennol ac ar gael. Byddwn yn buddsoddi mewn 2,500 o swyddogion carchar ychwanegol yn y sector cyhoeddus; adnodd ychwanegol ar gyfer rheoli a goruchwyllo; a byddwn yn hyfforddi staff i gyflawni rôl newydd y swyddog dynodedig. Bydd hyn yn golygu y bydd carchardai'n gallu cyflawni eu gwaith yn well, ac yn gallu sicrhau bod staff ar gael yn haws i garcharorion gysylltu ac ymwneud â hwy'n rheolaidd. Byddwn yn trafod â darparwyr carchardai preifat sut y gallent hwythau roi'r dull newydd o weithio gyda carcharorion ar waith ochr yn ochr â chamau eraill y gallent fod yn eu cymryd i wella diogelwch.
186. Byddwn hefyd gwella'r drefn rheoli achosion mewn carchardai er mwyn cydlynu'n iawn y ffordd y darperir ymyraethau i garcharorion. Ar hyn o bryd, mae nifer y darparwyr mewn carchardai yn cynnig amrywiaeth o ymyraethau, gan gynnwys ym maes iechyd, addysg a chamddefnyddio sylweddau. Nid yw'r rhain bob tro'n digwydd yn drefn iawn, ac fe allant olygu bod mwy nag un asesiad yn cael ei wneud. Byddwn yn creu swyddogaeth rheolwr achos mewn carchardai i symleiddio'r broses hon er mwyn i'r darparwyr hyn wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Bydd rheolwyr achosion hefyd yn helpu swyddogion y carchar i gyflawni rolau'r swyddog dynodedig, a byddant ar gael i helpu i ddatrys problemau.
187. Yn sail i'r newidiadau hyn, byddwn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb strategol am gynllunio'r ddedfryd a helpu carcharorion sy'n bwrw dedfrydau o 12 mis neu ragor oddi wrth y gwasanaethau prawf i lywodraethwyr y carchar. Bydd hyn yn golygu bod gan lywodraethwyr y staff sy'n gyfrifol am helpu carcharorion i ddiwygio, eu bod yn gallu eu rhoi ar waith yn y ffordd sy'n gweithio i'w sefydliad, bod ganddynt yr arfau iawn i helpu'r swyddogion hyn i sicrhau gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer pob carcharor - ac y byddant yn atebol ac yn cael eu dal yn atebol am wneud hynny. I'r rheini sy'n bwrw dedfrydau byrrach, y rheolwr troseddwy'r yn y gymuned a fydd yn gyfrifol o hyd amdanynt, lle byddwn wedi asesu ei bod yn well sicrhau dilyniant o ran goruchwyliaeth i garcharorion yn y gymuned, er mwyn eu paratoi i'w rhyddhau o'r carchar. Er mwyn sicrhau bod y diwygiadau hyn yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng adsefydlu ac amddiffyn y cyhoedd, byddwn hefyd yn gwella'r trefniadau rheoli achosion ar gyfer carcharorion sy'n peri risg uchel. Darperir hyn gan swyddogion prawf o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y carchardai ac yn atebol i'r llywodraethwr.

188. Un cam y byddwn yn ei gymryd ar unwaith fydd darparu £14 miliwn yn ychwanegol i gyflwyno'r dulliau gweithio newydd hyn mewn 10 o garchardai yn y sector cyhoeddus lle mae'r lefelau o drais a hunan-niweidio ymhlith y gwaethaf. Bydd hyn yn talu am dros 400 o swyddi ychwanegol. Dyma'r carchardai a fydd yn cael y don gyntaf o fuddsoddi ychwanegol hwn:
- CEM Chelmsford: carchar lleol Categori B i ddynion a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc;
 - CEM Caerwysg: carchar lleol Categori B i ddynion a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc;
 - CEM Leeds; carchar lleol Categori B i oedolion gwryw;
 - CEM Moorland: carchar Categori C i oedolion gwryw a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc;
 - CEM Eastwood Park: carchar lleol caeedig i fenywod;
 - CEM Guys Marsh: carchar Categori i oedolion gwryw;
 - CEM Lerpwl; carchar lleol Categori B i oedolion gwryw;
 - CEM Nottingham: carchar lleol Categori B i ddynion a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc;
 - CEM Wayland: carchar hyfforddi Categori C i oedolion gwryw;
 - CEM Caerwynt; carchar lleol Categori B i oedolion gwryw;
189. Byddwn hefyd yn rhoi'r ffyrdd newydd o weithio ar waith yn CEM y Berwyn pan fydd hwnnw'n agor ddechrau 2017.
190. Bwriedir i'r buddsoddi yn y ffordd newydd o weithio ein helpu i wella lefelau diogelwch, yn gyntaf drwy sefydlogi nifer y digwyddiadau treisgar a hunan-niweidio cyn eu gweld yn gostwng yn y blynyddoedd nesaf.

Mynd i'r afael â bygythiadau i ddiogelwch y system

191. Y tu hwnt i'r ffocws ar ddiwygio ymddygiad carcharorion, mae nifer o fygythiadau cysylltiedig sy'n peri risg i ddiogelwch yn y carchar. Gall y rhain arwain at gynyddu achosion o drais neu hunan-niweidio naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfeirio adnoddau staff oddi wrth ddarparu gweithdrefn bwrpasol. Rhai o'r prif fygythiadau yw cyffuriau, ffonau a dyfeisiau eraill ac ymddygiad troseddol ehangach mewn carchardai (gan gynnwys dronau, gangiau a throseddau cyfundrefnol a llygredd ymhlith y staff).
192. Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu eisoes a'r rhai sy'n esblygu, byddwn yn cymryd camau mewn tri maes:
- gwella ein gallu, yn lleol ac yn genedlaethol, i gasglu cudd-wybodaeth a'i dadansoddi.
 - lleihau'r cyflenwad o nwyddau gwaharddedig yn ein carchardai; a'r galw amdanynt;
 - chryfhau ein gallu i ymateb i gadarn i ymddygiad troseddol yn y carchardai.

Gwella ein gallu ym maes cudd-wybodaeth

193. Yn gyntaf oll, mae angen inni ddefnyddio cudd-wybodaeth dda'n effeithiol i'n helpu yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â bygythiadau i ddiogelwch. Bob dydd, byddwn yn casglu cudd-wybodaeth o safon dda - megis data negeseuon e-bost, testun a galwadau ffôn ar ffonau symudol y byddwn yn eu hatafael - ond ni allwn ddefnyddio'r data hynny gystal ag y dylem. Mae hynny'n golygu ein bod yn colli cyfleoedd a bod gweithgarwch troseddol yn digwydd heb i neb sylwi arno na'i gosbi.
194. Dyna pam yr ydym yn trawsnewid ein trefniadau casglu a dadansoddi cudd-wybodaeth. Rydym yn buddsoddi £3 miliwn y flwyddyn i recriwtio 50 o staff cudd-wybodaeth ychwanegol a fydd yn gweithio mewn canolfan genedlaethol newydd, gydag unedau rhanbarthol yn gefn iddynt, er mwyn sicrhau ein bod yn casglu, yn holi ac yn defnyddio'r gudd-wybodaeth hyd yr eithaf yn eich carchardai ac yn y gwasanaeth prawf. Gan adeiladu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud eisoes o ran gorfodi'r gyfraith a'r gymuned gudd-wybodaeth ehangach ar eithafiaeth a radicaleiddio, bydd y swyddogaeth newydd yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, Canolfan newydd yr Heddlu ar gyfer Cydlynu Cudd-Wybodaeth Carchardai a'r Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol.
195. Bydd yr Unedau'n cefnogi ymdrechion sy'n cael eu tywys gan gudd-wybodaeth i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn ogystal â throseddu sy'n gysylltiedig â gangiau, manteisio'n rhywiol ar blant a'r rheini sydd y tu ôl i'r economi anghyfreithlon yn y carchardai. Bydd y swyddogaeth newydd:
- yn darparu gwasanaeth cudd-wybodaeth gydgysylltiedig ar gyfer carchardai a'r gwasanaeth prawf sy'n gallu helpu i sicrhau ymatebion effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys gwaith chwilio manylach. Bydd y bygythiadau lleol yn cael eu huwchgyfeirio'n gyflym os oes potensial iddynt ledaenu; bydd carchardai'n cael gwybodaeth amser real am fygythiadau sy'n datblygu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol;
 - yn datblygu galluoedd cudd-wybodaeth arbenigol er mwyn sicrhau ein bod yn casglu ac yn manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth sydd gennym. Byddwn yn defnyddio'r potensial ar gyfer dadansoddi data ar raddfa fawr i lywio'r ffocws ar gyfer dadansoddi cudd-wybodaeth a byddwn yn adeiladu ar ein gallu i dderbyn a datblygu'n ddiogel y gudd-wybodaeth fwyaf sensitif;
 - yn gwella llif cudd-wybodaeth gyda phartneriaid er mwyn iddi fod ar gael ar bwyntiau penderfynu allweddol ar daith y troseddwr - yn enwedig gwybodaeth am yr 'ychydig hollbwysig' sy'n peri'r bygythiad mwyaf;
 - yn blaenoriaethu a chydlynu gweithgarwch ym maes cudd-wybodaeth er mwyn canolbwyntio ein hadnoddau ar fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf difrifol yn gyntaf. Yn gefn i hyn, bydd ein hawdurdod yn adlewyrchu strwythurau'r heddlu er mwyn inni allu defnyddio'n fwy rhwydd ddull cydgysylltiedig ar draws maes gorfodi'r gyfraith;
 - yn sicrhau bod safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer cudd-wybodaeth ledled y carchardai a'r gwasanaeth prawf yn bwrw gwreiddiau, gan ein rhoi ar yr un sail â threfn gorfodi'r gyfraith a'r gymuned gudd-wybodaeth ehangach, gan hyrwyddo cydweithio ar y blaenoriaethau yr ydym yn eu rhannu.

Lleihau'r cyflenwad o nwyddau gwaharddedig, a'r galw amdanynt

Cyffuriau

196. Mae cyffuriau'n achosi troseddu oherwydd yr elw enfawr sydd i'w wneud a'r ddibyniaeth y maent yn ei chreu: bydd hyn yn eu gwneud yn her enfawr i'r ymdrechion i berswadio carcharorion i droi eu cefn ar droseddu a'r ffordd droseddol o fyw. Mae cyffuriau hefyd yn achosi trais a pheryglon i iechyd, gan gynnwys perygl hunan-niweidio. Maent yn achosi ymddygiad nad oes modd ei ragweld ac ymddygiad treisgar, yn rhoi pwysau ar deuluoedd i'w darparu, ac yn sylfaen i fasnachu sy'n arwain at ddyled, dychrynu a thrais. Ond mae cyffuriau anghyfreithlon bellach wedi cael troedle yn ystâd y carchardai. Mae angen inni symud tuag at sefyllfa lle na fydd defnyddio cyffuriau'n norm yn y carchar.
197. Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran argaeledd cyffuriau 'traddodiadol' a'r niwed y bydd y rhain yn ei wneud (gan gynnwys canabis ac opiadau), fel y gwelir yn nhystiolaeth canlyniadau'r profion sy'n dangos gostyngiad cyson o dan brofion cyffuriau gorfodol ers canol yr 1990au, rydym wedi gweld twf o ran camddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd, cryfach a mwy niweidiol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r sylweddau hyn yn dal i esblygu, ac mae hyn yn golygu bod angen inni ailasesu'n sylfaenol ein hymagwedd at y galw am gyffuriau a'u cyflenwi. Ym mis Gorffennaf 2016, yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, disgrifiodd Prif Arolygydd Carchardai EM, Peter Clarke, effeithiau anodd eu rhagweld ac eithafol, dramatig a dadsefydlogi sylweddau seicoweithredol a oedd, yn ei farn ef yn cyfrannu 'i raddau helaeth' at y trais yn ein carchardai.
198. At hyn, gwelir bygythiad i ddiogelwch hefyd yn sgil camddefnyddio a masnachu meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Yn ôl Prif Arolygydd Carchardai EM: 'most establishments... inspected prescribed and administered tradable medication, but inadequate officer supervision of medication queues, including for collection of opiate substitution treatment, all too often continued to contribute to bullying and diversion'. Y duedd yw bod carcharorion yn defnyddio mwy nag un cyffur (a hynny'n aml yn cael ei alw'n ddefnyddio polygyffuriau) ac yn cymysgu cyffuriau traddodiadol, sylweddau seicoweithredol a meddyginiaethau ar bresgripsiwn ac mae hynny hefyd yn cynyddu'r risg.
199. Mae nifer o gamau i fynd i'r afael â'r materion hyn ar waith eisoes. Rydym wedi treialu defnyddio sganiwr corff yn CEM Wandsworth i ganfod deunyddiau gwaharddedig sy'n cael eu cuddio o fewn y corff. Rydym yn dysgu'r gwersi yn sgil gwerthusiad cychwynnol a byddwn yn ystyried y rhain ac yn eu hyrwyddo ym mhob carchar. Rydym wedi hyfforddi dros 300 o gŵn canfod cyffuriau i ganfod sylweddau seicoweithredol sydd wedi'u cuddio mewn parseli ac ar bobl ac wedi cael adborth cadarnhaol gan staff y carchardai am effaith y rhain o ran gwella'u gallu i ganfod y cyffuriau newydd. Ym mis Medi, ar ôl treial llwyddiannus mewn 34 o garchardai dros yr haf, cyflwynwyd profion gorfodol drwy'r wlad ar gyfer sylweddau seicoweithredol penodol ym mhob carchar. Rydym hefyd wedi rhoi canllawiau i staff y carchardai i'w helpu i ddelio a phroblemau cyffuriau ac wedi rhannu amrywiaeth o ddeunyddiau i garcharorion, staff ac ymwelwyr i'w rhybuddio am y problemau y mae cyffuriau, yn enwedig sylweddau seicoweithredol, yn eu hachosi.
200. Rydym wedi newid y gyfraith i gryfhau'r drefn. Bellach mae cael unrhyw sylwedd seicoweithredol yn eich meddiant mewn unrhyw sefydliad carchar yn drosedd o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

201. Serch hynny, mae cymhelliant a gallu carcharorion a grwpiau troseddu cyfundrefol i ddefnyddio a masnachu cyffuriau anghyfreithiol wedi bod yn drech na'n gallu i atal y fasnach hon. Mae angen inni ailddyblu ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r her hon gyda'r nod o gael gwared ar ddefnyddio cyffuriau gwaharddedig mewn carchardai.
202. I raddau, bydd hyn yn golygu defnyddio'r dulliau sydd ar gael eisoes yn well. Er enghraifft, mae'r ddeddfwriaeth newydd sy'n ei gwneud yn drosedd cael sylweddau seicoweithredol yn eich meddiant yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sydd ar gael eisoes ar gyfer cyffuriau eraill. Mae angen inni ganolbwyntio ar weithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i orfodi'r cyfreithiau newydd hyn Ond, ar lefel fwy sylfaenol, mae angen inni feddwl eto hefyd am sut y byddwn yn newid ymddygiad a dewisiadau'r sawl sy'n ymwneud â defnyddio neu fasnachu cyffuriau anghyfreithlon yn y carchardai er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n ymddangos o'r newydd. Yn ei adroddiad blynyddol ym mis Gorffennaf 2016, dywed Peter Clarke: 'while various aspects of the problem are being addressed through, for example, criminalising possession of the products and the better use of testing and detection technologies, the simple fact remains that there is, as yet, no overall national strategy for dealing with the problem'. Rydym ninnau'n poeni am hyn ac yn sylweddoli bod angen ymagwedd fwy strategol.
203. Er mwyn gwella ein hymateb yn y tymor byr, byddwn yn cryfhau'r dulliau pwysig sydd gennym eisoes, sef:
- cryfhau ein gweithdrefn profi am gyffuriau, gan helpu llywodraethwyr i gynnal profion wrth i bobl gyrraedd ac ymadael â'r carchar fel rhan o raglen profi ehangach, gan brofi am ystod ehangach o gyffuriau'n amlach. Bydd hyn yn help i lywio'r driniaeth a ddarperir ar gyfer camddefnyddio cyffuriau, gan sicrhau bod y driniaeth honno'n fwy effeithiol. Bydd yn lleihau'r niwed i iechyd carcharorion ac yn sicrhau mwy o ddilyniant yn y driniaeth pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned. Bydd hefyd yn llywio asesiadau o berfformiad carcharorion;
 - cyflwyno deddfwriaeth i symleiddio pa sylweddau seicoweithredol y mae'r broses bresennol yn profi amdanynt, gan olygu bod modd cyflwyno profion newydd yn gyflymach, cyn gynted ag y byddwn yn dod yn ymwybodol o sylweddau seicoweithredol newydd ar y farchnad. Bydd newidiadau deddfwriaethol hefyd yn ychwanegu sylweddau seicoweithredol at restr yr eitemau y mae'n drosedd eu smyglo i'r carchar, a allai olygu dedfryd o hyd at 10 mlynedd o garchar i'r rhai a geir yn euog;
 - sicrhau bod ffiniau'r carchar yn ddiogel ac yn cael eu cadw mewn cyflwr a all helpu i atal pobl rhag taflu eitemau i mewn i'r carchar;
 - gwella ein gallu i chwilio gyda thimau chwilio dynodedig y gellir eu rhoi ar waith i dargedu meysydd sy'n broblem benodol, gan gynnwys staff yn chwilio ar adegau annisgwyl;
 - lleihau'r cyfle a'i gwneud yn llai deniadol i ymwelwyr smyglo cyffuriau i garcharorion;
 - parhau i fynd ar drywydd technoleg canfod cyffuriau, a'i gwerthuso, gan gynnwys sganwyr corff a theclynnau i ganfod olion cyffuriau.
204. Yn y tymor hwy, byddwn yn ailasesu'n sylfaenol ein strategaeth bresennol ar gyfer mynd i'r afael â'r cyflenwad o sylweddau rheoledig presennol a rhai newydd a'r galw amdanynt, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd, y GIG, Public

Health England ac eraill. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud gyda GIG Lloegr ac eraill i wella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a bydd yn cydweddu'n fwy cyffredinol â'r dull troswaol a nodir yn y Strategaeth Gyffuriau draws-Lywodraeth newydd a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref yn y misoedd nesaf.

205. Dyma rai o'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd y byddwn yn eu hailasesu:

- y llwybr trin camddefnyddio sylweddau i garcharorion; a sut y mae gwasanaethau, gan gynnwys cymorth gan gymheiriaid, yn diwallu anghenion triniaeth ac adfer troseddwr;
- y cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) a materion eraill, megis iechyd meddwl;
- rôl swyddogion carchar. Wrth gyflwyno ffordd newydd o helpu troseddwr, bydd cyfle i swyddogion carchar chwarae mwy o ran yn darparu gwasanaethau, gan adeiladu perthynas fwy adeiladol a pherthnasol ar yr un pryd â throseddwr;
- gwasanaethau trin cyffuriau yn y gymuned a'r tu allan iddi;
- opsiynau i fynd i'r afael â chamddefnyddio meddyginiaethau rhagnodedig yn fwy effeithiol;
- opsiynau ar gyfer ariannu'r strategaeth newydd, gan gynnwys mewn partneriaeth ag eraill a defnyddio'r arian sydd ar gael eisoes yn well;
- gwaith ymchwil i asesu effeithiolrwydd cymharol ein dulliau presennol i fynd i'r afael â'r cyflenwad cyffuriau, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch ymhle y dylid blaenoriaethu ein hadnoddau.

Ffonau symudol a dyfeisiau eraill

206. Ffonau symudol gwaharddedig mewn carchardai yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu ein carchardai. Er ein bod yn sylweddoli eu bod yn aml yn cael eu defnyddio i gynnal cysylltiadau â'r teulu, mae cysylltiad hefyd rhwng carcharorion yn defnyddio ffonau gwaharddedig a chyflenwi cyffuriau a nwyddau gwaharddedig eraill, yn ogystal a throseddu cyfundrefnol, yn y carchar ac yn y gymuned. Gall defnyddio ffonau gwaharddedig hefyd ochrgamu ein monitro i amddiffyn y cyhoedd, gan wneud rhagor o niwed i ddiodefwr troseddau. Yn 2015, canfuwyd bron 17,000 o ffonau symudol a chardiau SIM mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr (sy'n cyfateb i 46 y diwrnod). Mae hyn yn cymharu â rhyw 10,000 yn 2014 a 7,000 yn 2013.

207. Rydym eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn. Rydym wedi newid y gyfraith i'w gwneud yn anghyfreithlon cael ffôn symudol yn eich meddiant mewn carchar, ac i ganiatáu i garchardai darfu ar signalau ffôn yn gyfreithlon. Deur o hyd i filoedd o ffonau bob blwyddyn yn ystod chwiliadau rheolaidd a chwiliadau yn sgil cudd-wybodaeth, gyda chymorth cŵn chwilio a thechnoleg. Serch hynny, mae carcharorion yn dal i lwyddo i gael gafael ar ffonau symudol gwaharddedig a'u defnyddio. Mae ymdrechion i smyglo ffonau symudol i garchardai'n mynd yn fwyfwy hy a soffistigedig, gan fanteisio ar y ffaith bod ffonau'n deneuach ac yn llai. Mewn ambell achos, mae'r gadwyn gyflenwi mor gryf nes ei bod yn rhwydd i bobl gael gafael ar ffôn newydd bron iawn yn syth ar ôl i un gael ei atafaelu.

208. Rydym yn prynu offer canfod gwell, a mwy ohono, gan gynnwys peiriannau pelydr-x newydd a theclynnau sensitif iawn i ganfod metel. Ond mae angen inni gymryd rhagor o gamau i fynd i'r afael â'r cyflenwad o ddyfeisiau symudol a'r galw amdanynt. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud eisoes drwy wneud y canlynol:
- gweithio gyda'n partneriaid i roi technoleg newydd ar waith i atal ffonau symudol gwaharddedig rhag gweithio mewn carchardai;
 - defnyddio Gorchmynion Cyfyngu ar Delathrebu i ddatgysylltu'n barhaol unrhyw ffonau symudol neu gardiau SIM sydd ar waith mewn carchar, heb orfod meddiannu'r ffôn yn gyntaf na gwybod pwy sy'n ei ddefnyddio. Bydd y datgysylltu cyntaf o dan y ddeddfwriaeth hon yn digwydd cyn diwedd eleni; a

Chwilio

209. Mae ein gallu i chwilio'n arf hollbwysig o ran atal nwyddau gwaharddedig rhag dod i mewn i garchardai ac o ran dod o hyd i'r eitemau hynny sy'n cael eu smyglo i mewn. Ar hyn o bryd, cyfyngir yn aml ar effeithiolrwydd y chwilio oherwydd diffyg adnoddau. Yn benodol, dylem fod yn defnyddio rhagor ar y gallu i chwilio staff eraill yn y carchar a thargedu celloedd.
210. Fel y mae, gall llywodraethwyr bennu strategaethau chwilio a diogelwch lleol sy'n addas ar gyfer eu problemau diogelwch penodol hwy eu hunain. Ar lefel genedlaethol, defnyddir cŵn a chymorth technegol arbenigol mewn digwyddiadau drwy'r wlad drwy ddefnyddio galluoedd cenedlaethol a thri thîm ymateb mewn tair ardal wahanol. Gall ardaloedd rhai carchardai fanteisio ar gymorth gan Dimau Chwilio Penodol rhanbarthol â chŵn ar gyfer ymgyrchoedd penodol mewn carchardai, er nad oes model safonol ar hyn o bryd ar gyfer y timau hyn. Mae gan yr Ystâd Ddiogel iawn Dîm Chwilio Penodol ym mhob carchar sydd wedi'i drefnu, wedi'i hyfforddi ac wedi'i arfogi i chwilio carcharorion, ymwelwyr, staff, llety ac ardaloedd eraill. Gall y timau hyn hefyd fanteisio ar wasanaeth cŵn chwilio gweithredol a goddefol sy'n gallu canfod cyffuriau, dyfeisiau symudol, arfau a ffrwydron.
211. Rydym yn edrych ar yr hyn sydd ei angen arnom i hybu ein gallu i chwilio mewn carchardai unigol a thrwy'r wlad, er mwyn bod rhagor o gapasiti ar gael i'r ystâd gyfan. Bydd hyn yn creu gallu tebyg i'r hyn sydd gennym mewn carchardai diogel iawn, gan sicrhau bod y drefn bob tro'n briodol ar gyfer yr angen. Gallai adnodd cenedlaethol gwell o bosibl gynnwys rhagor o gŵn chwilio a thrinwyr cŵn, a'r rheini'n gweithio ochr yn ochr â gallu gwell i ddadansoddi cudd-wybodaeth, er mwyn helpu i sicrhau chwilio mwy effeithiol sydd wedi'i dargedu'n well.
212. Rydym eisoes:
- yn prynu rhagor o offer i ganfod ffonau yn ogystal â pheiriannau pelydr-x newydd ar gyfer bagiau a pharseli a pheiriannau sensitif iawn i ganfod metel er mwyn chwilio pobl;
 - yn ymchwilio i ddefnyddio teclynnau llaw i ganfod olion cyffuriau ar bobl ac ar arwynebau.
213. Rydym yn edrych hefyd ar nifer o opsiynau i gryfhau ein gallu i chwilio, gan gynnwys:

- ar lefel genedlaethol, cynyddu nifer y timau ymateb cenedlaethol yn sail ar gyfer adnodd newydd sy'n cael ei arwain yn genedlaethol, ac sy'n gallu ymateb i geisiadau carchardai am gymorth a rhoi cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol ar waith sy'n cysylltu â'r darlun cudd-wybodaeth cenedlaethol ac amcanion diogelwch eraill;
- ar lefel ranbarthol, cynyddu maint a nifer y timau rhanbarthol ar gyfer gweithrediadau ar sail ardal, gan gadw'r opsiwn o hyd i ddarparu cymorth cenedlaethol;
- ar lefel carchar, rhoi'r awdurdod i lywodraethwyr gymryd camau uniongyrchol mwy effeithiol drwy ail-greu rhywfaint o allu model y Tîm DST Diogel lawn neu rhywfaint ohono mewn nifer o garchardai y tu allan i'r Ystâd Ddiogel lawn.

Ymateb yn fwy llym i droseddu yn y carchar

Dronau

214. Mae'r datblygiadau diweddar ym maes technoleg dronau yn creu bygythiad newydd ac un sy'n esblygu yn ein carchardai. Mae'r dyfeisiau bach hyn yn gallu cludo ffonau, cyffuriau a hyd yn oed arfau dros waliau'r carchar. Mae nifer y digwyddiadau lle y defnyddir dronau wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Er y gall hyn fod yn rhannol oherwydd mwy o ymwybyddiaeth a gwell recordio, mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y dechnoleg yn mynd yn rhatach ac yn haws cael gafael arni o hyd ar y stryd fawr
215. Mae defnyddio dronau i smyglo eitemau i'r carchar yn digwydd yn weddol anaml o'i gymharu â thafu nwyddau dros y wal neu ymdrechion gan y rheini sy'n dod i mewn i garchardai i guddio eitemau ar eu cyrff. Ond mae'r potensial i ddronau achosi niwed i garcharorion a staff yn real iawn, ac rydym yn sicrhau ein bod yn gweithio'n rhagweithiol i ymateb i'r bygythiad hwn.
216. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi comisiynu rhaglen waith, drwy gydweithredu â byd diwydiant ac adrannau eraill y llywodraeth, i ddod o hyd i ffyrdd o ganfod a blocio dronau. Rydym wedi rhoi gwybodaeth i bob carchar i'w helpu i ddatblygu eu hymateb lleol eu hunain er mwyn delio â dronau. Rydym eisoes yn cynnal treialon i ganfod a blocio dronau mewn nifer o garchardai.
217. Byddwn:
- ar y cyd â'r diwydiant, yn treialu cynnwys cyfesurynnau carchardai mewn parthau dim hedfan y gellid eu rhaglennu i'r rhan fwyaf o'r dronau sydd ar y farchnad (er ei bod yn rhaid inni feddwl yn ofalus am faint o wybodaeth rydym yn barod i'w roi yn y parth cyhoeddus ac felly sydd ar gael i'r gymuned droseddol);
 - yn gweithio gydag adrannau eraill y llywodraeth i dreialu offer canfod a fydd yn asesu cynnyrch sawl dwsin o gwmnïau. Byddwn yn mynd ar drywydd technoleg addawol gyda threialon penodol mewn carchardai;

- yn gweithio ar draws y llywodraeth a chyda'r gweithgynhyrchwyr i edrych ar dulliau technolegol a deddfwriaethol i leihau'r bygythiad.

Trais yn erbyn staff

218. Rhaid i'n staff deimlo'n ffyddiog y bydd y system cyfiawnder troseddol yn eu cefnogi ac yn rhoi iddynt y warchodaeth y maent yn ei haeddu pan fyddant yn gweithio yn ein carchardai. Rhaid inni beidio â goddef unrhyw ymddygiad yn ein carchardai sy'n tanseilio'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud. Rhaid ymateb yn gadarn ac yn gyflym i'r cynnydd yn nifer yr ymosodiadau yn erbyn ein staff. Rhaid i garcharorion sy'n cyflawni'r gweithredoedd hyn gael eu hatal er mwyn i garcharorion eraill allu teimlo'n ddiogel a chanolbwyntio ar drawsnewid eu bywyd.
219. Mae'r system gosbau bresennol ar gyfer trais yn y carchar wedi'i hen sefydlu. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rheini sy'n torri'r rheolau, caiff llywodraethwr y carchar roi cosbau ar waith. Bydd dyfarnwr annibynnol yn gwrando achosion sy'n ddigon difrifol, a bydd gan hwnnw'r pŵer i ychwanegu hyd at 42 diwrnod ychwanegol at ddedfryd y carchar. Gall llywodraethwyr hefyd gyfeirio materion difrifol at yr heddlu er mwyn iddynt gynnal ymchwiliad.
220. Mae'r canllawiau dedfrydu'n ei gwneud hi'n glir y dylid trin ymosod ar bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus neu'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd (megis swyddog carchar) yn ffactor gwaethybol. Mae Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 - lle mae'r Senedd wedi pennu canllawiau i'r llysoedd ar ddedfrydu mewn achosion llofruddiaeth - yn dweud mai'r man cychwyn ar gyfer llofruddio swyddog carchar (megis un o swyddogion heddlu) yng nghwrs ei ddyletswydd fydd gorchymyn oes gyfan.
221. Er bod y fframwaith hwn yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen arnynt i lywodraethwyr, i ddyfarnwyr ac i'r llysoedd, ni all delio ag achosion ymddygiad treisiol yn y carchardai ar ei ben ei hun, oni fydd pobl yn cael eu cymell i ymroi'n gadarnhaol i'r weithdrefn. Mae angen hefyd inni fod yn fwy parod ac yn gyflymach ein hymateb i faterion disgyblu a throseddu. Mae'r ffaith bod gormod o achosion hefyd yn cael eu gwrthod ar sail oedi neu ddiffyg paratoi yn destun pryder.
222. Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy:
- sicrhau bod gan lywodraethwyr fwy o awdurdod o lawer i lunio cymhellion a breintiau mewn ffordd sy'n briodol i'w carchar yn eu barn hwy. Bydd fframweithiau cyffredin ar gael yn gefn i hyn, gan gynnwys ar gyfer safonau ac apelau. Serch hynny, rhaid i'r rheini sy'n arwain unrhyw sefydliad gael yr arfau er mwyn iddynt wobrwyo'r ymddygiad sydd yn eu barn hwy'n gwneud i'w sefydliad weithio'n dda. Mae rhagor o fanylion am ein cynigion ym Mhennod 4;
 - adolygu'r prosesau sydd ynghlwm wrth weinyddu'r system ddisgyblu bresennol yn y carchar sy'n delio ag anhrefn lefel-isel, dysgu gwersi yn sgil diwygiadau'r heddlu a'r gwasanaeth erlyn i faes rheoli achosion troseddol er mwyn gallu ymdrin ag achosion yn gyflym ac mewn ffordd gymesur;
 - cydweithio'n agos â rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol i ddatblygu gwell hyfforddiant i'n staff sy'n casglu tystiolaeth, er mwyn gallu paratoi ffeiliau achos yn well mewn diwylliant 'iawn y tro cyntaf'. Byddwn yn adolygu'r prosesau a'r rhesymeg sy'n gefn i'r dyfarnu, ac yn ystyried sut mae sicrhau bod

dyfarniadau sydd ar y gweill yn parhau pan fydd carcharorion yn cael eu trosglwyddo yn ystod achos neu'n cael eu cyfeirio yn ôl gan yr heddlu;

- annog llywodraethwyr i ymdrin yn adferol â thrais lefel-is lle bydd hynny'n briodol. Ym mis Mehefin 2016, dechreuodd dau dreial a oedd yn profi dulliau adferol o ddatrys y gwrthdaro rhwng carcharorion, a rhwng carcharorion a staff, yn CEM Featherstone a CEM Buckely Hall. Bydd proses werthuso'r treialon hyn yn gorffen yn hydref 2017, ond yn y cyfamser, rydym wedi darparu pecyn ar gyfer carchardai eraill am sut y gellir mabwysiadu dulliau adferol;
- sicrhau bod protocol 'Troseddu yn y Carchar 2015' y cytunwyd arno rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn cael ei ddilyn yn gyson drwy'r wlad. Er enghraifft, gwyddom fod heddluoedd lleol yn blaenoriaethu ymosodiadau ar swyddogion yr heddlu mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn dadansoddi pa drefniadau arbennig sydd gan heddluoedd gwahanol ar waith, a chanlyniadau cyfraddau erlyn ar lefel llw wrth llw. Rydym yn gweithio gyda'r carchardai sy'n treialu'r cynllun i gynllunio system briodol i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu, ac rydym yn bwriadu lledaenu'r cynllun monitro hwn yn genedlaethol yng Ngwanwyn 2017;
- annog llywodraethwyr i ddefnyddio rhagor ar ddatganiadau effaith cymuned y carchar, er mwyn i ddyfarnwyr a llysoedd gael y cyfrif llawnaf o'r canlyniadau a deimlir gan gymuned y carchar yn sgil ymddygiad carcharorion. Gan fod y gymuned yn un gaeedig, gall trais effeithio'n sylweddol ar y rheini sy'n byw ac yn gweithio yn y carchar. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y llysoedd yn cael y darlun llawnaf o'r niwed hwnnw wrth iddynt ystyried y ddedfryd briodol.

Llygredd

223. Yn ogystal â pheidio â goddef trais yn erbyn staff ein carchar, ni fyddwn yn goddef llygredd ymhlith ein staff sy'n tanseilio'u diogelwch hwy eu hunain a diogelwch pobl eraill. Rydym yn dal i boeni am nifer y staff sy'n agored i gael eu llygru gan droseddwyr cyfundrefnol a charcharorion eraill sy'n peri risg uchel.
224. Rydym wrthi'n datblygu strategaeth newydd i fynd i'r afael â llygredd a bydd hynny'n cynnwys: cydweithio'n fwy agos â'r heddlu; prosesau eglurach ar gyfer rheoli cudd-wybodaeth ac ymchwiliadau, gwell cefnogaeth a chanllawiau i staff ar sut i osgoi llygredd a rhagor o adnoddau - chwilio er enghraifft - mewn carchardai ac ar lefel ranbarthol i fynd i'r afael â llygredd, a dedfrydau llymach ar gyfer masnachu. Rydym hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer trosedd llygredd carchar-benodol wrth inni ddisgwyl canfyddiadau arolwg Comisiwn y Gyfraith am drosedd Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus.

Troseddau difrifol cyfundrefnol a gangiau

225. Roedd asesiad yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol 2016 o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn dweud bod dros 6,000 o garcharorion ym mis Medi 2015 a oedd yn gysylltiedig â grwpiau troseddu cyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr ac roedd tua 2,000 o'r rheini wedi bod yn aelodau o grwpiau sy'n flaenoriaeth neu'n flaenoriaeth uchel.

226. Ni ddylai'r un troseddwr allu parhau i droseddu yn ystod ei gyfnod yn y carchar. Eto i gyd, mae tystiolaeth fod troseddwr difrifol a gangiau cyfundrefnol yn cydlynu troseddau o fewn waliau'r carchar a'r tu allan iddynt. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o drais a hunan-niweidio yn y carchar: defnyddir trais i orfodi pobl i dalu dyledion, ac mae dyledwyr weithiau'n ymladd, yn eu niweidio'u hunain ac yn cynnau tanau er mwyn ceisio dianc rhag eu dyled. Mae aelodaeth o gangiau stryd trefol yn y gymuned yn arwain at drais rhwng gangiau sy'n elynion i'w gilydd yn y carchar.

227. Mewn treial diweddar rhwng y carchardai, yr heddlu a thimau prawf, gwelwyd y gellid ymateb yn well i'r niwed a achosir gan y grwpiau hyn, drwy wella ein gallu i sylwi ar y gweithgarwch troseddol sy'n tarfu ar bethau, mynd i'r afael ag ef a'i erlyn. Byddem yn hoffi adeiladu ar lwyddiant y treial drwy fuddsoddi mewn nifer o dimau penodol drwy'r wlad sy'n mynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Gangiau Cyfundrefnol. Bydd y timau hyn:

- yn gwella ein gallu i adnabod bygythiadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac ymchwilio iddynt. Mae angen inni ddeall yn well y rhwydweithiau y mae gangiau troseddol yn eu defnyddio a gwella ein gallu i fapio bygythiadau a thueddiadau wrth iddynt newid ac ymddangos;
- yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol a'r Unedau Rhanbarthol ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol, i greu darlun cynhwysfawr o'r bygythiad, ac i gydlynu a thargedu ymatebion, gan flaenoriaethu'r rheini sy'n peri'r bygythiad mwyaf difrifol;
- yn gwella ein sail dystiolaeth a'n harbenigedd am bynciau sy'n berthnasol i Droseddau Difrifol Cyfundrefnol a gangiau yn y carchar ac ar brawf; bydd hyn yn helpu staff y carchardai i ymateb yn ymarferol ar sail tystiolaeth i gysylltiadau â gangiau a throseddau cyfundrefnol.

Eithafiaeth

228. Mae eithafiaeth yn beryglus i'r gymdeithas ac yn fygythiad i ddiogelwch cyhoeddus. Yn y carchar, mae'n peryglu carcharorion a staff, yn annog ymddygiad troseddol a therfysgaeth, ac yn tansilio'r system cyfiawnder rhag gweithredu'n iawn. Mae mynd i'r afael ag eithafiaeth yn y carchar yn gofyn am ymdrin ag ystod eang o droseddwr, o derfysgwyr llawn cymhelliant sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau eithriadol o ddifrifol i garcharorion a allai fod yn agored i ideoleg eithafol.

229. Rydym wedi comisiynu adolygiad o bwys i reoli eithafiaeth Islamaidd yn ein carchardai. Gall carchardai greu awyrgylch lle bydd unigolion yn arbennig o agored i'r holl sbectrw m o ideolegau eithafol, boed y rheini'n Islamaidd ynteu'n eithafol o asgell dde. Ers yr adolygiad, rydym wrthi'n cymryd camau pendant ar unwaith; rydym eisoes wedi sefydlu canolfan diogelwch, trefn a gwrthderfysgaeth newydd ac yn sefydlu gweithdrefnau hyfforddi a fetio i sicrhau ein bod wedi'n harfogi'n iawn i fynd i'r afael â'r bygythiad parhaus.

230. Mae gwaith ar y gweill gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu cynlluniau ar gyfer uned ar y cyd i gryfhau ein hymateb i berygl radicaleiddio ac eithafiaeth mewn carchardai. Byddai'r uned ar y cyd hon yn annog cydweithio agosach â

phartneriaid polisi a gorfodi'r gyfraith yn y meysydd hyn, gyda gwasanaeth y carchar yn cadw'r cyfrifoldeb am holl benderfyniadau gweithredol rheoli'r carchardai.

231. Rydym hefyd yn diwygio ein hymagwedd at wrthderfysgaeth mewn carchardai ac yn y gwasanaeth prawf - i gefnogi amcanion ehangach Strategaeth Wrth-Eithafiaeth y Llywodraeth - er mwyn i'n hymdrechion fod yn gydnherth ac yn ymatebol i'r bygythiadau yn awr ac yn y dyfodol. Yn rhan o hyn, rhoddir yr hyfforddiant, y sgiliau a'r awdurdod i staff y rheng flaen y bydd eu hangen arnynt i herio'r rheini sy'n mynegi barn eithafol ac i gymryd camau yn eu herbyn. Bydd yr unigolion sydd fwyaf tebygol o danseilio'r drefn yn cael eu gwahanu oddi wrth brif ffrwd poblogaeth y carchardai ac yn cael eu cadw mewn unedau arbenigol i warchod eraill rhag eu hideolegau gwenwynig.
232. Er mwyn mynd i'r afael â throseddau yn y carchar a chryfhau'r camau diogelwch yn erbyn yr holl fygythiadau a grybwyllwyd uchod, bydd gwaith partneriaeth effeithiol yn ffordd allweddol o fesur ein llwyddiant, gan weithio gydag asiantaethau ar draws y system cyfiawnder troseddol a phartneriaid yn y gymuned ac ym maes diwydiant. Yn benodol, bydd gan yr heddlu swyddogaeth allweddol. Byddwn:
- yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref ac Arweinydd Troseddau yn y Carchar ar Gyngor Prif Swyddogion Cenedlaethol yr Heddlu er mwyn gweld cyfleoedd i wella carchardai a gwaith yr heddlu i fynd i'r afael â throseddau yn y carchar ac i wella diogelwch. Ar sail asesiadau wedi'u diweddarau o fygythiadau a risg, bydd y carchar a phartneriaid yr heddlu'n cael cymorth i ddod ynghyd i adolygu eu rolau wrth ymateb i'r heriau y byddant yn eu hwynebu. A dibynnu ar yr amgylchiadau lleol, gallai hyn arwain at gamau cydlynus mewn carchardai ac yn y gymuned i darfu ar y cyflenwad o eitemau gwaharddedig i'r carchardai - er enghraifft targedu ymweliadau â charcharorion os bydd y gudd-wybodaeh yn awgrymu bygythiad i ddiogelwch. Gallai arwain at yr heddlu'n darparu hyfforddiant i staff y carchar ynglŷn â chadw tystiolaeth i'w galluogi i ddelio ag ymosodiadau ar staff neu garcharorion yn fwy effeithiol ac i wella cyfraddau erlyn. Gallai arwain at adnabod rolau penodedig yr heddlu i helpu carcharorion unigol. Mae rhai carchardai eisoes yn archwilio sut y gellid defnyddio hyblygrwydd ychwanegol yn y gyllideb i gyfrannu at ariannu rhagor o gyswllt gan yr heddlu yn y carchar.

Pennod 6: Datblygu ein harweinwyr a'n staff

Bob dydd, bydd ein staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n gweithio'n galed yn ein carchardai yn brwydro'n ddiflino, a hynny'n aml dan amgylchiadau anodd, i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Rydym yn ffodus bod gennym arweinwyr gweithredol rhagorol yn ein carchardai ac mae hyn yn llwyfan ardderchog inni adeiladu ein diwygiadau arno. Mae angen inni eu cefnogi drwy eu harfogi â'r sgiliau ychwanegol i ragori mewn byd lle bydd ganddynt fwy o bŵer a rheolaeth dros eu sefydliadau.

Ond ar hyn o bryd, gwyddom fod swyddogion carchardai weithiau'n teimlo nad oes neb yn gefn iddynt ac nad oes ganddynt ddigon o amser i weithio gyda charcharorion i wneud y gwahaniaeth yr hoffent ei wneud. Os ydym am i garchardai fod yn ganolfannau diwygio, mae angen inni feithrin gallu gweithlu ein carchardai a rhoi'r math iawn o hyfforddiant iddynt er mwyn iddynt gael eu harfogi â'r sgiliau i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfrifoldebau newydd ac ymateb i heriau amgylchedd carchar modern.

Er mwyn inni lwyddo i wneud carchardai'n fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio, bydd angen inni hefyd ddarparu'r cymorth a'r cyfarpar iawn ar gyfer ein staff. Ond wrth inni symud at ffordd newydd o weithio gyda swyddogion dynodedig yn ysgwyddo llwyth achos personol o garcharorion, bydd angen inni helpu staff i adeiladu ar eu sgiliau presennol er mwyn iddynt gadw'r ddysgl yn wastad rhwng awdurdod a chymorth wrth iddynt ymdrin â charcharorion.

Ochr yn ochr â'r cymorth y byddwn yn ei roi i'n harweinwyr a'n staff presennol, rydym hefyd am ddenu pobl newydd a thalentog i weithio yn ein carchardai. Erbyn 2020, rydym yn awyddus i garchardai gael eu gweld yn yrfa sy'n ddewis cyntaf i aelodau mwyaf talentog y gymdeithas. Er mwyn cyflawni hyn:

- byddwn yn rhoi mwy o reolaeth i lywodraethwyr ac uwch reolwyr dros sut y byddant yn rhedeg eu carchardai, ac yn buddsoddi er mwyn datblygu eu galluedd fel y gallant ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol yr ydym yn eu datganoli;
- byddwn yn buddsoddi mewn recriwtio a chadw er mwyn inni roi rôl newydd y swyddog dynodedig ar waith yn llawn, a darparu hyfforddiant i swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ysgwyddo'r rôl hon;
- byddwn yn lansio ymgyrch newydd i gynyddu nifer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n gweithio mewn carchardai;
- byddwn yn datblygu cynllun tymor hir, i ddenu a chadw'r ymgeiswyr o'r safon uchaf i weithio mewn carchardai.

Meithrin gallu ein harweinwyr

233. Yn hytrach na chefnogi arweinwyr ein carchardai ac ymddiried ynddynt, rydym yn rhy aml o lawer wedi bychanu eu rôl drwy ganoli'r penderfyniadau a'r rheolaeth.

Rydym yn benderfynol o droi hyn ar ei ben. Mae llywodraethwyr yn hanfodol i lwyddiant unrhyw garchar ac mae gan lawer ohonynt ddegawdau o brofiad gweithredol. Bydd grymuso llywodraethwyr yn gwneud y rôl yn un sy'n rhoi mwy o foddhad ac yn help inni ddenu'r arweinwyr deinamig sydd eu hangen arnom yn y blynyddoedd i ddod. Mae Pennod 4 yn esbonio sut yr ydym yn bwriadu rhoi llawer mwy o gyfle i lywodraethwyr a'u timau uwch-reoli i benderfynu sut y dylai eu carchar gael ei rhedeg. Bydd hyn yn newid sylweddol yn y ffordd y byddwn yn disgwyl i'n llywodraethwyr a'n huwch-reolwyr weithio. Mewn llawer ffordd, bydd hyn yn dechrau ailffurfio'r cymwyseddau sy'n ofynnol er mwyn bod yn llywodraethwr oddi wrth y rheini sy'n gysylltiedig â phrif Swyddogion Gweithredol tuag at y rheini sy'n gysylltiedig â Phrif Weithredwyr. Felly, byddwn yn buddsoddi er mwyn meithrin arweinwyr y dyfodol a byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu strategaeth gallu gynhwysfawr i gefnogi ein llywodraethwyr a'n huwch-reolwyr wrth iddynt groesi'r bont hon.

234. Bydd y strategaeth hon yn manteisio ar y gwersi a ddysgwyd gan ein pedwar llywodraethwr gweithredol, gan gynnwys ystyried a yw bod yn gyfrifol am fwy nag un carchar yn ei gwneud yn haws i lywodraethwyr gweithredol roi'r diwygiadau hyn ar waith. Yn sgil ein profiad cychwynol, mae'n amlwg eisoes y bydd angen i'n llywodraethwyr ddyfnhau eu sgiliau masnachol, ariannol, adnoddau dynol a sgiliau partneru strategol. Mae ein strategaeth felly'n debygol o gynnwys:

- datblygu rhaglen arwain carchardai sydd wedi'i theilwra'n arbennig, a fydd yn helpu arweinwyr i groesi'r bont at ffordd fwy grymus o weithio ac i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhaglen hon yn datblygu rhagor ar sgiliau arwain llywodraethwyr drwy roi cyfle iddynt gysylltu ag anogwyr a fydd yn cynnig cymorth a her iddynt mewn amgylchedd diogel;
- hyrwyddo secondiadau i'r sector preifat ac o'r sector preifat er mwyn trosglwyddo sgiliau a phrofiad;
- cydweithio â Whitehall a Grŵp y Diwydiant i sefydlu ffyrdd o baru arweinwyr carchardai a mentoriaid yn y sector preifat sydd â phrofiad perthnasol;
- dod ag uwch-arweinwyr i mewn o garchardai y tu allan fel cynghorwyr, gan gynnwys eistedd ar grwpiau a phwyllgorau perthnasol.

235. Gyda'r diwygiadau hyn, rydym yn disgwyl i'n llywodraethwyr ac uwch-reolwyr ddod yn arweinwyr eithriadol, ond bydd angen iddynt hefyd gael cymorth gan reolwyr canol profiadol, hyderus a medrus. Dyna pam y byddwn yn ceisio datblygu ein ffrwd o arweinwyr ar gyfer y dyfodol, sydd â chyfoeth o brofiad ac ystod eang o sgiliau. Mae'r ffrwd bresennol o arweinwyr ar gyfer y dyfodol yn cynnwys graddedigion yn bennaf a swyddogion sydd wedi'u dyrchafu'n llwyddiannus drwy'r rhengoedd. Mae gennym hefyd 32 o arweinwyr sydd â photensial mawr a recriwtiwyd o'r tu allan, a'r rhan fwyaf o'r rheini bellach naill ai'n llywodraethwyr neu'n ddirprwy lywodraethwyr. Llwyddwyd i ddenu unigolion dawnus a oedd ag ystod amrywiol o sgiliau a phrofiad cyn iddynt ymuno a'r gwasanaeth carchardai. Byddwn yn ceisio dod â chohort arall o arweinwyr y dyfodol i mewn o'r tu allan i'r sector cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Buddsoddi mewn swyddogion carchar

236. Ni all yr un system garchardai sicrhau safonau da heb ymroddiad miloedd o aelodau unigol o'r staff. Mae'r holl staff sy'n gweithio yn ein carchardai a'n sefydliadau i droseddwy'r ifanc yn asiantau diwygio. Mae gwredu'r strategaeth hon yn dibynnu ar barhau ag ymdrechion ymroddedig staff a swyddogion unigol y carchardai ar lawr gwlad. Heb eu cefnogaeth a'u hymroddiad hwy, a heb arweiniad llywodraethwyr, ni allwn sicrhau carchardai mwy diogel sy'n gweithio i bawb.
237. Rydym eisoes yn lledaenu rhaglen hyfforddi i arfogi'r staff presennol â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael ag achosion gwraidd y ffaith bod ein carchardai'n troi'n fannau llai diogel. Er mwyn datblygu gweithlu sy'n canolbwyntio ar ddiwygiadau a hwnnw o'r maint iawn ac yn meddu ar y sgiliau iawn:
- byddwn yn ychwanegu 2,600 at nifer y swyddogion carchar ac yn symud swyddogion eraill i ddyletswyddau'r rheng flaen o dan y model newydd Rheoli Troseddwy'r, erbyn diwedd 2018. Byddwn yn canolbwyntio yn gyntaf ar y 10 carchar yn y sector cyhoeddus lle mae'r lefelau trais a hunan-niweidio ar eu gwaethaf;
 - byddwn yn meithrin gallu staff newydd drwy raglenni sefydlu ac yn rhoi gwell cymorth iddynt ar ôl eu rhaglen hyfforddi cychwynnol, a byddwn yn hyfforddi swyddogion sydd eisoes yn gweithio yn y carchardai er mwyn iddynt ysgwyddo rôl newydd y swyddog dynodedig. Rydym eisoes yn adolygu'r gallu y bydd ei angen yn y dyfodol yn ein carchardai diwygio er mwyn penderfynu pa sgiliau y bydd eu hangen ar staff er mwyn iddynt gallu gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd lle bydd mwy o rymuso a llai o ganoli;
 - byddwn yn cynyddu cyfran y staff y llwyddwn i'w cadw drwy wella'r cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr a recriwtiaid newydd, a thrwy wella cyfraddau'r farchnad lle bydd angen gan ddefnyddio premia recriwtio a chadw sy'n graddio taliadau yn ôl pa mor hir y bydd staff yn aros yn y gwasanaeth. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellid gwella'r cyfraddau ymadael â'r gwasanaeth yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr drwy edrych ar fuddiannau mwy lleol megis cymorth gyda theithio;
 - byddwn yn llunio cynllun i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag datblygu gweithlu cryf sy'n ennyn parch, megis llygredd ymhlith y nifer fach o staff . Mae'r rhan fwyaf helaeth o'n staff yn gweithio'n galed ac yn agos at eu lle ac rydym yn cymryd camau i warchod eu proffesiynoldeb.

Denu'r disgleiriaf a'r gorau

238. Mae gennym eisoes weithlu ymroddedig sy'n gweithio'n galed. Ond mae'r farchnad lafur yn gystadleuol ac mae rhai pethau'n awgrymu bod angen inni wneud rhagor er mwyn cynnal y llwyddiant hwn ac adeiladu arno yn y dyfodol. Ein huchelgais tymor hir yw bod rôl swyddogion carchar yn cael ei gweld yn rôl o fri a bod y proffesiwn yn cael ei gydnabod ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd hyn yn cryfhau statws y gweithlu presennol yn ogystal â denu'r bobl iawn i system y carchardai. Bydd hyn yn ategu'r symud oddi wrth ddull sydd wedi'i ganoli at ddull sydd wedi'i ddatganoli er mwyn rhedeg y system. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion maes o law ond bydd ein cynlluniau i broffesiynoleiddio system y carchardai'n cynnwys:

- datblygu elfennau craidd achrededig cydnabyddedig gwaith carchar, o swyddogion drwedd i lefel uwch-reoli, gan adael i bobl helpu i feithrin sgiliau cydnabyddedig wrth iddynt ddringo ysgol gyrfa;
- mynd i'r afael â rhai o'r prif fylchau mewn sgiliau, megis deall a rheoli carcharorion agored i niwed (cyn-filwyr er enghraifft, y gall fod ganddynt broblemau iechyd meddwl neu broblemau eraill), a gwella'r berthynas rhwng staff a charcharorion;
- rhoi rhagor o gyfleoedd i swyddogion carchar ddatblygu cymwyseddau achrededig a gysylltir â swyddogion prawf ar hyn o bryd er mwyn caniatáu iddynt ysgwyddo mwy o amrywiaeth o rolau a chyfrannu at ein huchelgais tymor hir sef creu cyfleoedd i staff weithio mewn rolau yn y carchar ac yn y gwasanaeth prawf drwy gydol eu gyrfa;
- lansio cynllun prentisiaethau newydd (gweler uchod) a chynllun recriwtio newydd i raddedigion (gweler isod);
- recriwtio cyn-aelodau'r lluoedd arfog i'r gwasanaeth carchardai (gweler isod);
- cyflwyno cynllun ymuno uniongyrchol newydd i reolwyr, gan flaenoriaethu swyddi yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr tua diwedd 2016. Bydd yr ymgyrch hon yn recriwtio rheolwyr canol profiadol o sectorau eraill i'r carchardai ac yn rhoi gwybodaeth am garchardai iddynt drwy raglen ddatblygu ddwys. Bydd disgwyl i'r rhai a gaiff eu recriwtio ddangos y potensial i ddatblygu'n uwch-arweinwyr yn y sefydliad dros gyfnod o dair i bum mlynedd;
- archwilio pa mor ymarferol fyddai hi i swyddogion carchar ddatblygu rolau arbenigol ar gyfer gweithio gyda segmentau o garcharorion sydd ag anghenion penodol, megis oedolion ifanc, menywod a charcharorion oedrannus.

Cyn aelodau'r lluoedd arfog

Rydym yn awyddus i gynyddu nifer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n gweithio mewn carchardai. Bydd llawer ohonynt wedi meithrin sgiliau arwain a rheoli pobl yn ogystal â'r cryfder cymeriad i gadw'r ddysgl yn wastad - fel y mae'n rhaid i swyddogion carchar ei wneud - rhwng disgyblu carcharorion a'u helpu.

Mae Gwasanaeth y Carchardai wedi bod yn cydweithio â Phartneriaeth Pontio Gyrfar Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu'r rhaglen Cyn-aelodau'r Lluoedd - Swyddogion Carchar. Dechreuosom ddatblygu ein rhaglen drwy uwchraddio cynllun lleol a ddatblygwyd gan Garchar Ei Mawrhydi Eastwood Park i helpu'r gwaith recriwtio mewn nifer o safleoedd lle mae hynny'n anodd.

Er mwyn datblygu'r cynnig i bobl sy'n ymadael â'r gwasanaethau, bydd Gwasanaeth y Carchardai a'r Bartneriaeth Pontio Gyrfar'n canolbwyntio ar y canlynol:

- codi proffil rôl swyddogion carchar gyda phob cyn-aelod o'r lluoedd drwy fod yn bresennol mewn ffeiriau swyddi;
- comisiynu ymchwil i ddeall pam nad yw cyn-aelodau presennol y lluoedd yn ystyried gwasanaeth y carchardai'n llwybr gyrfar a defnyddio'r canfyddiadau i lywio strategaethau recriwtio;
- rhoi cynllun ar waith sy'n rhoi mentor i'r rhai sy'n ymadael â'r lluoedd ac sy'n newydd i'r gwasanaeth carchardai, a'r mentor hwnnw eisoes wedi croesi'r bont yn llwyddiannus.

Rydym eisoes wedi dewis rhywun sydd wedi ymadael â'r lluoedd i arwain y gwaith hwn. Bu'n gwasanaethu am saith mlynedd ym Myddin Prydain ac fe adawodd yn 2002 yn Is-Gorporal. Yn ystod ei gyfnod ailsefydlu, bu Gweithdy Pontio Gyrfar Bartneriaeth Pontio Gyrfar'n gyfle iddo edrych ar y swyddi gwag a oedd ar gael yn y farchnad swyddi gyfredol. Dechreuodd weithio fel swyddog carchar yn 2003, ac mae wedi bod yn ei swydd bresennol fel Rheolwr Carchar ers 2013.

Cyfleoedd i gael Prentisiaeth

Mae prentisiaethau'n elfen ganolog o'n strategaeth adnoddau newydd. Byddwn yn treialu cynllun prentisiaeth newydd i Swyddogion Carchar, Diogelu'r Dyfodol, yn 2017, i fwy na 1000 o swyddogion newydd gyda'r nod o gynyddu'r nifer yn gyflym ar draws yr ystâd. Bydd y cynllun hwn yn helpu'r prentisiaid i ddatblygu'r sgiliau craidd, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan swyddog carchar sy'n gweithio mewn amgylchedd adsefydlu. Yn ogystal â darparu'r sylfaen mewn gweithgareddau gweithredol, bydd cwricwlwm y prentisiaethau'n canolbwyntio ar wella'r gallu i ymdrin â blaenoriaethau megis lleihau trais, hunanladdiad a hunan-niweidio, sylweddau seicoweithredol a helpu pobl i ymwrthod â throseddau.

Rydym wedi gwneud cais am ddod yn ddarparwr hyfforddiant cymeradwy, i'n galluogi i ddarparu'r cynllun yn fewnol.

Byddwn hefyd yn cyflwyno prentisiaeth sy'n caniatáu i swyddogion carchar ennill cymwysterau ar lefel gradd. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i brentisiaid ymuno â'r cynllun Swyddogion Carchar ar lefel gradd, gan ddod yn rhan o lwybr doniau'r dyfodol. Y tu hwnt i hyn, byddwn hefyd yn defnyddio'r treial i benderfynu beth fydd y cwmpas ar gyfer datblygu rhaglenni prentisiaethau ychwanegol ar bob lefel, gan gynyddu'r gallu mewn rhannau eraill o'r sefydliad a disodli'r hyfforddiant presennol â phrentisiaethau mewn meysydd megis Arwain a Datblygu ac Adnoddau Dynol.

Cynllun recriwtio newydd i raddedigion.

Yn ei hadolygiad o addysg mewn carchardai, dadleuai'r Fonesig Sally Coates fod angen cynllun newydd i raddedigion disglair a fyddai'n gweithio fel swyddogion carchar am gyfnod. Byddai ganddynt gylch gwaith ychwanegol i gefnogi addysg a byddai hynny wrth galon gweithdrefn y carchar.

I ymateb i hyn, mae Gwasanaeth y Carchardai'n cyflwyno cynllun newydd i raddedigion fel llwybr o fri i raddedigion disglair ddod yn swyddogion carchar. Bydd y rhaglen hon yn cynnig rhaglen ddatblygu arbennig ddwy flynedd o hyd i raddedigion lle y byddant yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion presennol y carchar i sicrhau bod troseddwy'r yn cael cymorth drwy gydol eu dedfryd a bod hyn yn y pen draw'n gostwng cyfraddau aildroseddau.

Bydd y cynllun newydd yn cael ei farchnata'n gynnar y flwyddyn nesaf, a bydd 40 o'r graddedigion cyntaf yn ymuno â'r rhaglen ym mis Medi 2017. Ein nod yw recriwtio 40 o raddedigion ychwanegol yn 2018 a 2019 drwy'r cynllun hwn.

Er mai'r 'cynnig' cychwynol fydd i ymgeiswyr fod yn swyddogion carchar am ddwy flynedd, bydd y Gwasanaeth Carchardai'n annog y rheini sy'n llwyddo i aros drwy sicrhau eu bod yn gallu camu ymlaen yn gyflym drwy'r rhengoedd a darparu cronfa ddoniau newydd ar gyfer y genhedlaeth nesaf o uwch arweinwyr.

Pennod 7: Adeiladu'r ystâd iawn ar gyfer diwygio

Rydym yn awyddus i gael ystâd o garchardai sy'n llai gorlawn, sydd wedi'i threfnu'n well, ac sy'n cynnwys yn gynyddol lety modern, addas at y diben. Rydym yn awyddus i'r llysoedd gael eu gwasanaethu'n well drwy ddulliau newydd o weithio. Rydym hefyd yn awyddus i'w gwneud hi'n haws i helpu llywodraethwyr i sicrhau safonau uchel drwy aildrefnu'r ffordd y mae'r ystâd wedi'i chyfansoddi.

Mae angen buddsoddi ar frys yn ystâd bresennol y carchardai a'i diwygio er mwyn iddi wireddu'r weledigaeth hon. Nid yw'r amgylchedd ffisegol y bydd llawer o staff a charcharorion yn ei wynebu bob dydd yn meithrin y math o ddiwylliant na'r weithdrefn sydd eu hangen er mwyn i garcharorion drawsnewid eu bywyd. Er mwyn i garcharorion fod yn fannau diogel ac yn ganolfannau diwygio, mae angen newid sylfaenol yn y ffordd y caiff ystâd y carchardai ei threfnu a'r ffordd mae'n gweithredu, a gwelliant sylweddol yn ansawdd cyffredinol yr adeiladau ar draws ystâd y carchardai.

Er mwyn gwireddu hyn:

- byddwn yn agor CEM y Berwyn, ger Wrecsam o fis Chwefror 2017 ymlaen;
- byddwn yn buddsoddi £1.3 biliwn i adeiladu hyd at 10,000 o leoedd newydd i oedolion mewn carchardai;
- byddwn yn adeiladu pum carchar cymunedol newydd i fenywod;
- byddwn yn cau carchardai sydd mewn cyflwr gwael a'r rheini nad oes iddynt ddyfodol tymor hir yn yr ystâd.

Rydym wedi dechrau'r broses o ddod o hyd i safleoedd addas newydd i garchardai. Er mwyn datblygu'r gwaith i drawsnewid ystâd y carchardai, byddwn yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio i ailddatblygu'r safleoedd yn CEM Wellingborough a CEM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Glen Parva. Bydd proses targedu safleoedd ar gyfer carchardai newydd yn parhau drwy gydol 2016 ac yna yn 2017.

Gallwn gadarnhau na fydd cyn Ganolfannau Symud Mewnfudwyr Dover a Haslar yn ailagor fel carchardai a bydd cyhoeddiad arall am gau carchardai'n cael ei wneud maes o law.

Ein gweledigaeth yw bod staff a charcharorion carchardai'n byw ac yn gweithio mewn amgylchedd diogel, nad yw'n orlawn, sy'n fodern ac yn addas at y diben sef helpu i ddiwygio carcharorion.

239. Adeiladwyd dros chwarter ein carchardai cyn 1900, ac mae oddeutu 25% o'n carcharorion yn cael eu cadw mewn amgylchiadau gorlawn. Mae cost rhedeg carchardai o'r un math â'i gilydd yn amrywio'n fawr iawn, ac nid oes cyfatebiaeth rhwng y mathau o leoedd sydd eu hangen arnom mewn carchardai a'r hyn sydd ar gael. Mae tanfuddsoddi difrifol hefyd wedi bod mewn technoleg yn y carchardai.

Mae'r ddarpariaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn anhyblyg, yn cynnig gwerth gwael am arian ac ni all helpu gweithlu sydd wedi cael y pŵer i benderfynu sut orau mae sicrhau canlyniadau. Mae hyn yn arwain at wastraff, ac mae'n llesteirio ein hymdrechion i ddiwygio carcharorion.

240. Os ydym am i garchardai wneud rhagor i newid trywydd bywydau carcharorion, gan gynnwys newid eu hagweddau a'u hymddygiad, rhaid inni wella'r ystâd lle bydd staff yn gweithio a charcharorion yn byw. Rhaid inni hefyd sicrhau bod gan staff carchardai y dechnoleg iawn i'w helpu i redeg carchardai'n effeithiol ac yn ddiogel.
241. Mae'r boblogaeth sydd wedi'i dedfrydu'n rhy fawr i'n hystâd hyfforddi, a chanlyniad hyn yw bod troseddwyd - yn ddyonion ac yn fenywod - yn cael eu cadw mewn carchardai mwy diogel a drutach ac nad ydynt yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn gwirionedd. Caeodd y llywodraeth ddiwethaf nifer o'r carchardai hyn ac aneffeithiol gan arbed £168 miliwn yn yr ystâd i oedolion gwryw. Ond mae rhannau mawr o hyd sy'n hen a/neu'n aneffeithlon a chyflwr yr adeiladau'n wael. Gan amlaf, mae'r carchardai hyn yn orlawn ac nid oes lle hwylus ar gael ar gyfer cyfleusterau diwygio. Mae'n mynd yn ffwy anodd ac yn ddrutach cynnal neu foderneiddio rhai sefydliadau, sy'n golygu eu bod yn anaddas i fod yn rhan o'n hystâd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cynllun gwael rhai safleoedd yn ei gwneud yn haws i bobl fwlio, cymryd cyffuriau ac ymddwyn yn dreisgar. Mae hyn yn golygu bod angen rhagor o staff i'w rhedeg yn ddiogel gan gynyddu'r costau.
242. Felly, bydd gofyn inni fuddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd i newid swyddogaeth rhai o'n carchardai presennol sydd mewn cyflwr derbynol er mwyn cysoni'r cyflenwad â'r galw. Byddwn hefyd yn disodli hen garchardai aneffeithlon â rhai modern eu cynllun, gan gynnwys carchardai newydd cymunedol i fenywod. Bydd ein carchardai newydd yn cael eu dylunio i fod yn fwy diogel ac yn ein helpu i sicrhau gwell safonau. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethwyr i sefydlu gweithdrefnau newydd sy'n effeithlon ac sy'n cynnig cyfleoedd i'r staff weithio gyda charcharorion i'w helpu i drawsnewid eu bywyd. Bydd y llety newydd y byddwn yn ei adeiladu'n cynnwys celloedd sengl yn bennaf gan arwain at lai o orlenwi.
243. Bydd hyn yn creu'r sylfaen ar gyfer gwella diogelwch, gan sicrhau bod safon ein carchardai'n ddigon da a bod modd eu diwygio. Bydd hefyd yn golygu y gallwn ostwng y costau fesul uned a sicrhau gwell gwerth i'r trethdalwr. Mae proses newid swyddogaethau rhai o'n carchardai presennol eisoes wedi dechrau a bydd yn cael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2020. Byddwn yn dechrau cau hen garchardai wrth inni agor rhai newydd. Ni fyddwn yn ailagor y Canolfannau Symud Mewnfudwyr yn Dover a Haslar a byddwn hefyd yn rhoi rhaglen gau fawr ar waith dros y pum mlynedd nesaf; byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am hyn maes o law. Byddwn yn dechrau'r broses o gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer carchardai newydd (gan gynnwys y rheini lle'r ydym yn awyddus i ailddatblygu safleoedd carchardai sydd yno eisoes) eleni, gan ddechrau gyda'r safleoedd yn CEM Wellingborough a CEM a Sefydliad Troseddwyd Ifanc Glen Parva. Os byddwn yn llwyddo i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y safleoedd lle mae carchardai eisoes, byddem yn eu cau ac yn codi cyfleusterau newydd, addas at y diben yn eu lle.

Symleiddio trefniadaeth ystâd y carchardai

244. Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar sut mae ystâd y carchardai wedi'i threfnu yw'r system bresennol o gategoreiddio risg (yn amrywio o Gategori A ar gyfer y troseddwy'r risg uchaf i Gategori D ar gyfer y rheini sy'n peri'r risg isaf). Ochr yn ochr â hyn mae angen gwahanu cohortau penodol o garcharorion megis menywod a phobl ifanc a delio â charcharorion sy'n arbennig o anodd, neu' rhai y mae eu rheoli'n gofyn am arbenigedd penodol, megis carcharorion risg uchel iawn neu garcharorion arbennig o agored i niwed.
245. Mae hyn wedi creu system lle bydd gan garchardai swyddogaeth benodol, megis carchardai lleol sy'n gwasanaethu'r llysoedd, carchardai diogel iawn sy'n rheoli'r troseddwy'r uchaf eu risg, carchardai hyfforddi sy'n darparu gwaith adsefydlu tymor hwy a carchardai agored ar gyfer carcharorion is eu risg sy'n agosáu at ddiwedd eu dedfryd. Ond, mewn gwirionedd, mae gan garchardai boblogaethau sy'n aml yn gymysgedd cymhleth o wahanol fathau o garcharorion.
246. Mae diffyg cyfatebiaeth hefyd rhwng yr ystâd sydd gennym a nifer y carcharorion sy'n perthyn i'r gwahanol gategorïau risg. Drwyddi draw, mae'r ystâd i oedolion gwryw bellach yn cynnwys tua 10,500 o leoedd yn ormod mewn carchardai lleol a rhyw 14,400 o leoedd hyfforddi ac adsefydlu yn llai nag sydd eu hangen. Mewn rhai carchardai, dim ond lleiafrif o'r carcharorion sy'n cydweddu â phrif swyddogaeth y carchar. Carchar lleol sy'n dal 1,628 o garcharorion er enghraifft yw CEM Wandsworth, ond dim ond tua thraean o'r rheini sy'n garcharorion ar remand. Mae'r gweddill yn gyfuniad o garcharorion sydd wedi'u dedfrydu am gyfnodau amrywiol o ran eu hyd, yn ogystal â chyfran lai sydd wedi'u galw yn ôl i'r carchar.
247. Oherwydd bod angen darparu nifer o wahanol swyddogaethau ar gyfer ystod o wahanol fath o garcharorion, mae'n anodd i lywodraethwyr weithredu'n effeithiol: ni all yr un drefn ddarparu'n ddigonol ar gyfer yr ystod o risgiau ac anghenion sydd gan gynifer o segmentau o boblogaeth carcharorion, yn enwedig os yw'r adeilad hefyd yn anaddas at y diben. Y canlyniad yw nad ydym yn effeithlon yn y ffordd yr ydym yn defnyddio'r ystâd nac yn effeithiol ychwaith yn y ffordd y byddwn yn dyrannu ein carcharorion o fewn yr ystâd honno.
248. Drwy fuddsoddi yn ein hystâd a'i haildrefnu, gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd hwn. Bydd hyn yn dod â'r sefyllfa hon i ben lle y bydd carcharorion sydd â'r cyfraddau uchaf o aildroseddu (h.y. y rheini dan ddedfrydau byrrach) yn cael eu dal ar y lefel ddiogelwch anghywir yn rhannau mwyaf gorlawn y system, a'r rhannau sydd dan y pwysau mwyaf. Yn hytrach, byddwn yn creu system lle bydd carcharorion yn cael eu cadw o dan y lefel ddiogelwch iawn mewn carchardai lle y gall y weithdrefn gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol.
249. Byddwn hefyd yn gostwng nifer y carchardai sy'n gwasanaethu'r llysoedd drwy greu rhwydwaith o garchardai derbyn yn yr ystâd i ddyinion. Eu prif swyddogaeth fydd darparu gwasanaeth effeithlon i'r llysoedd a rheoli'n effeithiol y carcharorion hynny sydd ar remand a throseddwy'r sy'n bwrw dedfrydau byr iawn. Bydd y lleoedd hyn yn lletya carcharorion yn ddiogel ac mewn ffordd dderbyniol, gan ddiwallu eu hanghenion cychwynnol a pharatoi'r rheini sy'n cael dedfryd o garchar i symud ymlaen i'r ystâd hyfforddi ac ailsefydlu ar ôl iddynt gael eu dedfrydu. Yn y carchardai hyn, byddwn yn buddsoddi mewn technoleg cynadledda fideo, er mwyn gallu cynnal rhagor o wrandawiadau'r llysoedd yn rhithiol. Bydd hyn yn golygu na fydd cymaint o angen trosglwyddo carcharorion o'r carchar i'r llys a bydd yn help i gyflwyno diwygiadau cyfochrog yng Ngwasanaeth y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Bydd hyn yn dda i'r system drwyddi draw. Bydd y rhannau o'r ystâd sydd mewn

cyflwr derbyniol ond nad ydynt yn gwasanaethu'r llysoedd rhagor yn cael eu hailffurfweddu i ddarparu gweithdrefnau ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfryd hwy. Ystyrir cau'r carchardai lleol hynaf a mwyaf annigonol gan ddefnyddio'r arian sy'n deillio o hyn i noddi'r rhaglen drawsnewid hon.

250. Bydd yr ystâd hyfforddi i garcharorion sydd wedi'u dedfrydu'n cael ei gwella a'u hehangu er mwyn i'r cyflenwad o leoedd ddiwallu'r galw. Prif swyddogaeth y carchardai hyfforddi yw cael carcharorion i ymroi i weithgareddau er mwyn gwella'u taith ddiwygio. Bydd y ffocws newydd hwn ar garchardai hyfforddi'n help i baratoi carcharorion i ganolbwyntio ar weithgarwch adsefydlu ar ddiwedd eu dedfryd. Pan fydd carcharor yn agosáu at ddiwedd ei ddedfryd, neu i'r rhan fwyaf helaeth o garcharorion a fydd yn treulio llai na 12 mis yn y carchar, bydd y ddarpariaeth ailsefydlu'n well yn y carchardai. Bydd y ddarpariaeth hon yn canolbwyntio'n benodol ar eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac ar gynnal neu adeiladu'r cysylltiad rhwng carcharorion a ffactorau yn y gymuned a fydd yn help i'w diwygio.
251. O fewn ystâd sydd wedi'i symleiddio ac sydd â mwy o ffocws iddi, byddwn yn ystyried hefyd bod angen mynd ati mewn ffordd fwy cydlynol i reoli cohortau penodol o garcharorion, gan gynnwys oedolion ifanc a throsteddwyr rhyw er mwyn sicrhau eu bod yn y manau iawn i ddiwallu eu hanghenion o ran diogelwch a diwygio.
252. Bydd newid ym mhoblogaeth y carchardai'n gofyn am newid yn eu prosesau. Er enghraifft, er mwyn darparu gweithgarwch amser llawn i garcharorion mewn carchardai hyfforddi, bydd angen ffordd newydd o ddyrannu gweithgareddau er mwyn defnyddio'r lleoedd sydd ar gael gystal byth ag sy'n bosibl. Byddwn yn gweithio gyda charchardai i gynllunio prosesau newydd ac i ailgynllunio'r hen rai er mwyn iddynt fod yn fwy effeithlon ac er mwyn rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar ddiogelwch carcharorion a'u diwygio. Byddwn yn dwyn y rhain ynghyd mewn ffordd sy'n nodi, ar lefel uchel, y gwasanaethau, y gweithgareddau a'r allbynnau sydd eu hangen ar garchar er mwyn iddo gyflawni a'r pethau na fydd angen iddynt eu gwneud rhagor. Yn y tymor hwy, bydd y gwaith cynnar hwn yn datblygu i greu'r fframwaith a fydd yn sail i weithredu pob carchar.
253. Bydd sicrhau bod y swyddogaeth, y gofynion a'r safonau sy'n cael eu gosod ar gyfer carchardai'n cael eu cysoni'n fwy clos â'u poblogaethau yn caniatáu i lywodraethwyr deilwra'u gwasanaethau i ddiwallu anghenion y carcharorion yn well, ac yn ei gwneud yn haws dal llywodraethwyr yn atebol am sicrhau canlyniadau penodol.

Creu carchardai cymunedol i fenywod

254. Mae'r pethau sy'n sbarduno diwygio'n hystâd ar gyfer troseddwy'r sy'n fenywod yn dilyn patrwm tebyg i'r hyn a welir yn yr ystâd i oedolion gwryw, er bod y problemau y maent yn eu hwynebu'n wahanol. Gwyddom fod cyfran sylweddol o'r menywod sy'n garcharorion yn cael eu cadw ar lefel ddiogelwch uwch nag sydd ei hangen. Ychydig iawn o fenywod sy'n cael y cyfle i dreulio amser mewn carchar agored cyn eu rhyddhau oherwydd mai nifer fach o leoedd agored sydd ar gael i fenywod. Oherwydd hyn, mae'n bosibl bod menywod yn cael eu cadw mewn carchardai lle nad ydynt yn gallu cael gafael ar yr holl wasanaethau ailsefydlu sydd eu hangen arnynt.

255. Yn ogystal â gwella'r ystâd i ddynion, byddwn yn dechrau gwella'r ffordd o reoli anghenion penodol carcharorion sy'n fenywod drwy greu pum carchar cymunedol bach i fenywod. Bydd y carchardai cymunedol yn canolbwyntio ar baratoi menywod i'w rhyddhau, mewn ffordd debyg i'r carchardai ailsefydlu. Byddant yn golygu y bydd mwy o fenywod yn cael eu cadw'n agosach at eu cartrefi ac yn cael y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i fynd i'r afael ag anghenion sy'n aml yn niferus ac yn gymhleth. Yn y carchardai hyn, bydd cysylltiadau clos iawn â darparwyr gwasanaethau yn y gymuned. Oherwydd eu bod yn llai o faint, bydd hynny'n help i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau ailsefydlu a'r cymorth a ddarperir. Byddwn yn ceisio defnyddio tir wrth ymyl y safleoedd presennol er mwyn sicrhau arbedion maint, ond gan gynnal y teimlad eu bod yn sefydliadau ar wahân, a fydd yn bwysig i brofiadau carcharorion.
256. Byddwn yn cyhoeddi strategaeth sy'n dweud sut y byddwn yn gwella diogelwch a'r drefn ddiwygio i fenywod sy'n droseddwyr, a hynny yn y carchar ac yn y gymuned, ddechrau 2017.

